AROLYGIAD O DAN ADRAN 10
O DDEDDF AROLYGU YSGOLION 1996

YSGOL GYFUN ABERAERON
Stryd y Fro
Aberaeron
Ceredigion

Rhif Ysgol: 667-4042

Dyddiad yr Arolygiad: 26-29 Ebrill 2004

gan
Mr D Gwynfor Evans
Arolygydd Cofrestredig

Dyddiad: 30 Mehefin 2004

O dan rif contract Estyn: CT36/03

® Hawlfraint y Goron 2004

Gellir atgynhyrchu'r Adroddiad hwn yn gyfan neu'n rhannol at ddibenion addysgol anfasnachol cyhyd ag y bo pob rhan a ddyfynnir yn cael eu hatgynhyrchu gair am air heb unrhyw newid a bod eu ffynhonnell a'r dyddiad yn cael eu nodi.

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael o'r ysgol. Dan Ddeddf Arolygiadau Ysgolion 1996, mae'n rhaid i'r ysgol ddarparu copïau yn rhad ac am ddim i gategorïau arbennig o bobl. Gellir codi tâl nad yw'n fwy na chost atgynhyrchu ar unrhyw un arall a wna gais am gopi o'r adroddiad.

DULL ENWI CWRICWLWM A CHYFNODAU ALLWEDDOL

Cychwynnwyd dull enwi newydd i ddisgrifio cynnydd disgyblion trwy'r ysgol ym 1989. Bwriedir i'r system hon o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg orfodol hyd at 18 oed hwyluso cyfathrebu ymysg ysgolion, cyrff llywodraethu, rhieni ac AALl ac i bwysleisio pwysigrwydd dilyniant.

Mae'r term "Derbyn" (D) yn cyfeirio at grŵp blwyddyn y disgyblion mewn ysgol gynradd (nid dosbarth meithrin) sy'n cyrraedd 5 oed yn ystod y flwyddyn academaidd. "Blwyddyn 1" (B1) a ddefnyddir i grŵp blwyddyn disgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd ac yn y blaen hyd B13 - y grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd:

{PRIVATE}	D	B1	B2	B3	B4	B5	B6	B7	B8	B9	B10	B11	B12	B13
Oedran	4-5	5-6	6-7	7-8	8-9	9-10	10-11	11-12	12-13	13-14	14-15	15-16	16-17	17-18

Mae cyfnod allweddol (CA) 1 y Cwricwlwm Cenedlaethol yn cynnwys B1 a B2; CA2 yn cynnwys B3 i B6; CA3 yn cynnwys B7 i B9 a CA4 yn cynnwys B10 a B11 (sef blwyddyn olaf addysg orfodol).

DISGRIFIADAU GRADD

Defnyddir y raddfa graddio bum pwynt i gynrychioli'r prif farnau yn yr adroddiad fel a ganlyn:

1. Da iawn: llawer o nodweddion da, rhai yn arbennig o dda.
2. Da: nodweddion da a dim diffygion mawr.
3. Boddhaol: nodweddion da yn gorbwyso rhai diffygion.
4. Anfoddhaol: peth gwaith boddhaol ond diffygion mewn meysydd pwysig.
5. Gwael: llawer o ddiffygion.

RHESTR O ACRONYMAU A DDEFNYDDIR YN GYFFREDIN

AAA	Anghenion Addysg Arbennig
ABCh(I)	Addysg Bersonol a Chymdeithasol (Iechyd)
ACCAC	Awdurdod Cymwysterau, Cwricwlwm ac Asesu Cymru
AChG	Addysg a Chyfarwyddyd Gyrfaol
AGG	Addysg Gwaith-gysylltiedig
AU	Awdurdod Unedol
B1-B13	Blwyddyn 1 - Blwyddyn 13
CA	Cyfnod Allweddol
CAAA	Cyd-drefnydd Anghenion Addysg Arbennig
CAD	Dylunio â Chymorth Cyfrifiadur
CAM	Gwneuthur â Chymorth Cyfrifiadur
CAU	Cynllun Addysg Unigol
CC	Cwricwlwm Cenedlaethol
CCD	Cynorthwy-ydd Cymorth Dysgu
CDY	Cynllun Datblygu Ysgol
CGCC	Cymhwyster Galwedigaethol Cenedlaethol Cyffredinol
CoG	Cofnod o Gynnydd
DPC	Dangosydd Pwnc Craidd
GLlEDd	Gwledydd Llai Economaidd Ddatblygedig
GMEDd	Gwledydd mwy economaidd ddatblygedig
HMS	Hyfforddiant Mewn-swydd
LAC	Plant Dan Ofal
PAB	Partneriaeth Addysg Busnes
SAC	Swyddog Addysg Cynhwysol
SDU	Sytsemau Dysgu Unigol
TAAU	Tystysgrif Addysg Alwedigaethol Uwch
TASau	Tasgau Asesu Safonol
TGCh	Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu
TGAU	Tystysgrif Gyffredinol Addysg Uwch
TLM	Tystysgrif Lefel Mynediad
U	Uwch
UDRh	Uwch Dîm Rheoli
UG	Uwch Gyfrannol

CYNNWYS

1. CYD-DESTUN 1

Yr ysgol a'i blaenoriaethau 1

2. PRIF GANFYDDIADAU 1

Prif ganfyddiadau'r adroddiad 1

3. SAFONAU ADDYSGOL A GYFLAWNIR GAN Y DISGYBLION 5

3.1 Safonau a gyflawnir yn y Pynciau a'r Meysydd Dysgu 5
3.2 Safonau a Gyflawnir yn y Sgiliau Allweddol ar draws y Cwricwlwm 7

4. ETHOS YR YSGOL 8

4.1 Datblygiad Ysbrydol, Moesol, Cymdeithasol a Diwylliannol y Disgyblion 8
4.2 Ymddygiad ac Ymagweddau 9
4.3 Presenoldeb 10

5. ANSAWDD YR ADDYSG 10

5.1 Addysgu 10
5.2 Asesu, Cofnodi ac Adrodd 11
5.3 Cwricwlwm 12
5.4 Cymorth, Cyfarwyddyd a Lles y Disgyblion 13
5.5 Darpariaeth ar gyfer Disgyblion ag AAA 14
5.6 Partneriaeth gyda Rhieni a'r Gymuned, Ysgolion a Sefydliadau Eraill 16
5.7 Partneriaeth gyda Diwydiant 17

6. RHEOLAETH 17

6.1 Ansawdd hunan-werthuso a Chynllunio ar gyfer Gwelliant 17
6.2 Arweinyddiaeth ac Effeithlonrwydd 18
6.3 Staffio, Ystafelloedd ac Adnoddau Dysgu 19

7. PYNCIAU A MEYSYDD DYSGU 21

Safonau a gyflawnir gan y disgyblion 21
Cymraeg 21
Saesneg 21
Mathemateg 22
Gwyddoniaeth 24
Dylunio a thechnoleg 25
Technoleg gwybodaeth 26
Hanes 26
Daearyddiaeth 27
Ieithoedd tramor modern 28
Cerddoriaeth 29
Addysg gorfforol 30
Addysg grefyddol 31
Addysg bersonol a chymdeithasol 31
Iechyd a gofal cymdeithasol (TGAU) 32
Economeg y cartref – Bwyd a Maethiad (TGAU) 32
Astudiaethau'r cyfryngau 32
Peirianneg CGC 33

8. GWELLA'R YSGOL 33

8.1 Cynnydd ers yr arolygiad diwethaf 33
8.2 Materion allweddol i'w gweithredu 35

ATODIAD 36

A. Gwybodaeth sylfaenol am yr ysgol 36
B. Data a Dangosyddion yr Ysgol 36
C. Canlyniadau Asesiadau'r Cwricwlwm Cenedlaethol a'r Arholiadau Cyhoeddus 37
D. Sylfaen Tystiolaeth yr Arolygaid 38
E. Cyfansoddiad a Chyfrifoldebau'r Tim Arolygu 39

YSGOL GYFUN ABERAERON – Y CHWECHED DOSBARTH 40

1. CYD-DESTUN

Yr ysgol a'i blaenoriaethau

Ysgol gyfun gymysg ar gyfer disgyblion 11-18 a gynhelir gan awdurdod unedol (AU) yw Ysgol Gyfun Aberaeron, ac y mae'n gwasanaethu tref arfordirol Aberaeron a'r ardal wledig yn bennaf sydd o'i chwmpas. Y mae 748 o ddisgyblion ar y gofrestr, ac y mae 115 ohonynt yn y chweched dosbarth. Adeg yr arolygiad diwethaf yn Ebrill 1998, 784 o ddisgyblion oedd ar y gofrestr, ac 139 o'r rheiny yn y chweched dosbarth.

Ysgol ddwyieithog draddodiadol ydyw ac er mai'r Gymraeg yw iaith bennaf dim mwy na tua chwarter o'r disgyblion, y mae'r ysgol yn amcangyfrif bod tua hanner ohonynt yn siarad Cymraeg yn iaith gyntaf neu i safon gywerth.

Y mae'r ysgol yn darparu ar gyfer disgyblion ar draws yr holl ystod o allu academaidd a chefndir cymdeithasol-economaidd; maentumia nad yw'r ardal y mae'n ei gwasanaethu yn llewyrchus nac o dan anfantais economaidd. Cofrestrir 13 y cant o'r disgyblion yn rhai sydd â hawl i gael cinio ysgol yn rhad ac am ddim, ffigur sydd yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol ond yn fras debyg i'r cyfartaledd sirol. Y mae gan 29 o'r disgyblion (3.8 y cant) ddatganiad addysg anghenion arbennig (AAA). O'r rhain, y mae gan 11 (1.4 y cant) ddatganiadau sy'n cynnwys addasu'r Cwricwlwm Cenedlaethol (CC). Dynodir 110 o ddisgyblion eraill (14.6 y cant) gan yr ysgol yn ddisgyblion ag AAA.

Cenhadaeth yr ysgol yw 'darparu canolfan o ragoriaeth o fewn cymuned ddwyieithog yr anogir pob unigolyn ynddi i ddatblygu i'w botensial yn llawn'. Y mae ganddi nodau ac amcanion priodol i gyflawni ei chenhadaeth, ac y mae cynllun datblygu'r ysgol (CDY) am y cyfnod 2002 i 2005 yn cyfeirio at anghenion a materion ysgol-gyfan. Fel ysgol ddwyieithog draddodiadol, y mae hefyd yn amcanu sicrhau darpariaeth ddwyieithog ym mhob agwedd o'i bywyd fel y bo'r disgyblion yn gallu integreiddio'n foddhaol ac yn hapus mewn cymuned ddwyieithog.

2. PRIF GANFYDDIADAU

Prif ganfyddiadau'r adroddiad

Safonau addysgol a gyflawnir

Nodweddion da

- Yr oedd safonau cyflawni'r disgyblion yn foddhaol neu well yn 95 y cant o'r dosbarthiadau yr arsylwyd arnynt. Yr oedd safonau'n dda ac weithiau'n dda iawn yn 71 y cant mewn cymhariaeth â 56 y cant yn yr arolygiad diwethaf.
- Yng Nghyfnod Allweddol (CA) 3, yr oedd y safonau o leiaf yn dda yn 57 y cant o'r gwersi yr arsylwyd arnynt, ac yn CA4 yr oeddent yn dda neu well yn 76 y cant. Yn yr arolygiad diwethaf tua 52 y cant oedd cyfrannedd y safonau da neu dda iawn yn CA3 a CA4.
- Yn y chweched dosbarth yr oedd y safonau ar eu huchaf; yr oeddent yn dda neu'n dda iawn yn 91 y cant o'r gwersi yr arsylwyd arnynt.
- Ym mhrofion y CC ar ddiwedd CA3 yn 2003, enillodd 63 y cant o'r disgyblion o leiaf lefel 5 ym mathemateg, gwyddoniaeth a naill ai'r Gymraeg neu Saesneg (dangosydd pynciau craidd - DPC) mewn cymhariaeth â 57 y cant yn yr AU a 54 y cant yn genedlaethol. O'u cymharu â chanlyniadau ysgolion â chefndir cymdeithasol tebyg, y mae'r canlyniadau hyn yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol.
- Fel canran cyfartalog dros y tair blynedd diwethaf yr oedd canlyniadau arholiadau allanol yr ysgol ar ddiwedd CA4 yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol ac yn gywerth â'r ffigurau sirol.
- Yn 2003, cyflawnodd 83 y cant o'r myfyrwyr o leiaf ddwy neu fwy o raddau A-C yn yr arholiadau Safon Uwch mewn cymhariaeth â 77 y cant yn yr AU a 68 y cant yn genedlaethol. Sgôr pwyntiau cyfartalog y pen oedd 22 mewn cymhariaeth â 21 yn sirol a 20 yn genedlaethol.

- Gwna'r disgyblion ag AAA gynnydd da a chyflawnant yn dda ar draws y cwricwlwm.
- Y mae'r safonau yn addysg bersonol a chymdeithasol (ABCh) yn dda, ac yn yr un modd, y mae safonau'r rhaglen o gyfarwyddyd gyrfaol hefyd yn dda.
- Y mae sgiliau allweddol y disgyblion yn datblygu'n dda ar draws y cwricwlwm yn y mwyafrif o'r pynciau.

Diffygion

- Yr oedd y safonau'n anfoddhaol ym mhump y cant o'r gwersi yr arsylwyd arnynt.
- Yr oedd canlyniadau arholiadau'r Dystysgrif Gyffredinol Addysg Uwch (TGAU) yn 2003 dipyn yn is na'r cyfartaledd yn yr ysgol yn y blynyddoedd diwethaf, ac yn is na'r targedau a osodwyd gan yr ysgol mewn nifer o bynciau.
- Y mae lleiafrif ymhlith y bechgyn yn CA3 a chyfrannedd mwy ohonynt yn CA4 yn tangyflawni'n sylweddol.
- Er y gwneir defnydd da a da iawn weithiau o dechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) mewn rhai pynciau, nid yw mor ddatblygedig mewn pynciau eraill ac felly y mae'r safonau'n anwastad.
- Fel yr amlygir mewn gwaith anghyflawn a diffygion yng ngwybodaeth y disgyblion, y mae lleiafrif o ddisgyblion yn tangyflawni am eu bod yn absennol yn rhy aml.
- Mewn lleiafrif o ddosbarthiadau, y mae ymddygiad gwael ac ymagweddu negyddol yn cael effaith andwyol ar safonau cyflawni'r disgyblion.

Safonau yn y pynciau a'r meysydd dysgu

Pwnc	CA3	CA4	Y chweched dosbarth
Cymraeg	Da	Da	Da
Saesneg	Da	Da	Da
Mathemateg	Boddhaol	Da	Da
Gwyddoniaeth	Da	Da	Da
Dylunio a thechnoleg	Da	Da	Da
Technoleg gwybodaeth	Da	Da iawn	-
Cyfrifiaduraeth	-	-	Da iawn
Technoleg Gwybodaeth TAAU	-	-	Da
Hanes	Da	Da	Da
Daearyddiaeth	Da	Da	Da iawn
Ieithoedd tramor modern	Da	Da	Da
Celf	Nid arolygwyd	Nid arolygwyd	Nid arolygwyd
Cerddoriaeth	Boddhaol	Da	Da iawn
Addysg gorfforol	Boddhaol	Boddhaol	Anfoddhaol
Addysg grefyddol	Boddhaol	Da	-
Astudiaethau crefyddol	-	-	Da
Addysg bersonol a chymdeithasol	Da	Da	Da
Astudiaethau Busnes	-	Nid arolygwyd	-
Iechyd a gofal cymdeithasol		Da (TGAU)	Da (TAUU)
Economeg y cartref - (TGAU)	-	Da	-
Economeg	-	-	Nid arolygwyd
Electroneg	-	-	Dim arfarniad
Astudiaethau'r cyfryngau	-	Da iawn	Da iawn
Peirianneg CGC	-	Da	-
Hamdden ac adloniant TAAU	-	-	Da
Gofal plant (Lefel Mynediad)	-	-	Da

Safonau yn y sgiliau allweddol ar draws y cwricwlwm

Sgiliau allweddol	CA3 a CA4	Y chweched dosbarth
Gwrando	Da	Da Iawn
Siarad	Da	Da
Darllen	Da	Da Iawn
Ysgrifennu	Da	Da
Rhifedd	Da	Da
Technoleg gwybodaeth a chyfathrebu	Boddhaol	Boddhaol
Creadigol	Da	Da
Datrys problemau	Da	Da

Ansawdd yr addysg

Nodweddion da

- Yr oedd ansawdd yr addysgu o leiaf yn foddhaol yn 96 y cant o'r 185 o wersi yr arsylwyd arnynt, ac yn dda neu'n dda iawn yn 71 y cant o'r cyfanrif. Yn yr arolygiad diwethaf, yr oedd yr addysgu o leiaf yn foddhaol yn 95 y cant o'r gwersi ac yn dda neu'n dda iawn yn 65 y cant.
- Yr oedd yr addysgu gorau yn y chweched dosbarth, lle yr oedd o leiaf yn dda 93 y cant o'r dosbarthiadau, ac yn 25 y cant o'r rhain yn dda iawn.
- Nodweddion da yn y mwyafrif mawr o wersi ar draws y cwricwlwm yw gwybodaeth bwnc yr athrawon, eu cynllunio eglur a'u perthynas dda gyda'r disgyblion.
- Yn y mwyafrif o'r gwersi, bydd y tasgau wedi eu gwahaniaethu yn briodol ar gyfer y disgyblion ag AAA. Gwna'r disgyblion gynnydd da.
- Y mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer asesu a chofnodi cyflawniadau a chynnydd y disgyblion. Y mae'r gweithdrefnau ar gyfer dadansoddi data er mwyn gwella perfformiad yn dda.
- Y mae'r cwricwlwm yn CA3, CA4 a'r chweched dosbarth yn dda ac yn cynnig ystod priodol o bynciau a chyrsiau. Yn gyffredinol, y mae'r ddarpariaeth yn gymdeithasol gynhwysol, ac yn sicrhau mynediad a chyfle cyfartal i'r holl ddisgyblion.
- Y mae'r cynllunio o ddatblygiad y sgiliau allweddol yn CA3 a CA4 yn dda iawn. Y mae'n dda yn y chweched dosbarth. Enillodd yr ysgol Farc Ansawdd Sgiliau Sylfaenol yn 2001.
- Y mae ansawdd cymorth a chyfarwyddyd yn dda. Y mae'r trefniadau ar gyfer datblygiad ABCh(I) y disgyblion yn dda, fel ag y mae effeithiolrwydd addysg a chyfarwyddyd gyrfaol.
- Y mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag AAA a'r rheiny y mae'r CC wedi'i addasu ar eu cyfer yn dda.
- Y mae'r wybodaeth a roddir i'r rhieni yn dda iawn. Y mae'r cysylltiadau â'r gymuned a'r ysgolion cynradd cyfrannol hefyd yn dda iawn. Y mae trefniadau partneriaeth gyda diwydiant yn dda.
- Y mae ansawdd y profiad gwaith a drefnir i ddisgyblion cyn-16 a myfyrwyr ôl-16 yn dda iawn.

Diffygion

- Yr oedd ansawdd yr addysgu yn anfoddhaol ym mhedwar y cant o'r gwersi ac mewn lleiafrif o bynciau.
- Yn yr addysgu mewn lleiafrif o wersi, ceir diffygion megis disgwyliadau isel, diffyg bywiogrwydd, rheolaeth dosbarth wael ac absenoldeb rhannu amcanion a nodau eglur gyda'r disgyblion, ac y mae hynny'n rhwystro cynnydd a chyflawniadau'r disgyblion.
- Nid adroddir ar ddarpariaeth graidd TGCh, addysg gorfforol nac addysg grefyddol yn CA4 yn yr adroddiad blynyddol i'r rhieni.
- Nid yw'r ddarpariaeth addysg grefyddol i holl ddisgyblion B11 ac i fyfyrwyr y chweched dosbarth yn unol â'r gofynion statudol.

Ethos yr ysgol a datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion

Nodweddion da

- Datblygir ymwybyddiaeth ysbrydol y disgyblion yn briodol yn y gwasanaethau cydaddoli boreol ac yng ngwersi addysg grefyddol.
- Y mae datblygiad moesol y disgyblion yn dda. Y mae'r mwyafrif ohonynt yn dangos parch at eraill. Y mae yn yr ysgol ethos cadarn o gynorthwyo achosion elusennol ac o ddinasyddiaeth weithredol.
- Y mae perthynas y disgyblion â'i gilydd ac â'u hathrawon yn dda yn gyffredinol.
- Ym mhob cyfnod, caiff y disgyblion gyfleoedd i gymryd rhan yn y broses o wneud penderfyniadau drwy gyfrwng y cyngor ysgol.
- Y mae datblygiad diwylliannol y disgyblion yn dda. Y mae ganddynt ymwybyddiaeth dda o'u diwylliant a'u treftadaeth eu hunain, a datblygant werthfawrogiad da o ddiwylliannau eraill drwy eu hastudiaethau a'u hymweliadau tramor.

Diffygion

- Mewn lleiafrif bach o ddosbarthiadau yr arsylwyd arnynt yn ystod yr arolygiad, yr oedd ymddygiad ac ymagwedd y disgyblion yn wael. Nid oedd yr holl staff yn dilyn gweithdrefnau a pholisïau'r ysgol parthed ymddygiad a disgyblaeth yn gyson.
- Er gwaethaf ymdrechion yr ysgol i wella'r cyfraddau presenoldeb, y maent yn aros yn anfoddhaol. Ni chofrestrir presenoldeb y disgyblion mewn rhai gwersi yn CA3 a CA4. Anghyson yw'r cofrestru o bresenoldeb y myfyrwyr yn y chweched dosbarth.

Rheolaeth ac effeithlonrwydd yr ysgol

Nodweddion da

- Y mae yn yr ysgol ethos gofalgar sy'n ddrych o gefndir cymdeithasol a diwylliannol yr ardal a wasanaethir ganddi.
- Y mae'r corff llywodraethol yn cymryd rhan weithredol ym mhob agwedd o fywyd a gwaith yr ysgol. Bydd y llywodraethwyr yn chwarae rhan lawn yn y broses o wneud penderfyniadau parthed y cwricwlwm, cyllid, staffio a materion yn ymwneud â'r adeiladau.
- Y mae'r CDY yn offeryn effeithiol i lywio datblygiadau ysgol-gyfan.
- Y mae'r cynllunio ariannol a'r gweithdrefnau rheoli yn effeithiol. Cymerir camau priodol i sicrhau gwerth am arian.
- Y mae ansawdd yr hunan-werthuso a'r cynllunio ar gyfer gwelliant yn dda yn rhai adrannau; y mae'n dda iawn yn TGCh, daearyddiaeth ac addysg grefyddol.
- Y mae'r ysgol wedi'i staffio'n briodol. Gweithredir gweithdrefnau rheoli perfformiad.
- Enillodd yr ysgol statws 'Buddsoddwr mewn Pobl' am yr ail waith yn 2003.
- Yn gyffredinol, y mae ansawdd adeiladau'r ysgol a'r ystafelloedd yn dda gyda llawer o nodweddion da iawn.

Diffygion

- Nid yw'r monitro na'r goruchwylio ar lefel y rheolwyr uwch yn ddigon trylwyr i sicrhau gweithrediad cyson ac effeithiol rhai polisïau a gweithdrefnau ysgol-gyfan.
- Ceir enghreifftiau o arweinyddiaeth dda a da iawn ar y lefel ganol o reoli yn rhai adrannau, ond annatblygedig yw'r nodweddion hyn mewn adrannau eraill. Nid oes eto ddiwylliant o gyfrifoldeb corfforaethol digon cadarn, yn enwedig yng nghyd-destun hunan-werthuso a chynllunio ar draws yr holl adrannau na'r tu mewn iddynt.
- Y mae diffyg cyfleusterau ar safle'r ysgol ei hun ar gyfer addysg gorfforol yn yr awyr agored yn cael effaith andwyol ar safonau cyflawni'r disgyblion yn addysg gorfforol.

- Adroddwyd am ychydig o faterion iechyd a diogelwch i'r pennaeth yn ystod yr arolygiad.

Effeithiolrwydd ymdrechion yr ysgol i ymdrin â'r materion allweddol a ddynodwyd yn adroddiad yr arolygiad diwethaf

Y mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd da wrth drin rhai o'r materion allweddol a ddynodwyd yn yr arolygiad diwethaf, y mae eraill yn aros yn feysydd i'w datblygu ymhellach.

1. Dilëwyd drama a chymdeithaseg o'r cwricwlwm ers yr arolygiad diwethaf ac er y gwnaed trefniant amgen i alluogi'r disgyblion sy'n astudio Almaeneg i astudio addysg grefyddol statudol yn B10, nid yw'r trefniant yn gyfredol yn cynnwys disgyblion B11.
2. Bu i newidiadau yn nhrefniadau'r opsiynau yn CA4 a B12/B13 oresgyn rhai anawsterau a gawsai'r disgyblion. Serch hynny, y mae cyflwyno Almaeneg yn para i gael effaith ar bynciau eraill.
3. Bu peth rhesymoli o'r ddarpariaeth yn y chweched dosbarth, megis cyflwyno electroneg drwy gyfrwng cynadledda-fideo. Y mae'r ysgol hefyd yn chwarae rôl yn weithredol o fewn yr awdurdod yng nghyswllt cynllunio addysg 14-19. Serch hynny, y mae'r dosbarthiadau yn para i fod yn fach mewn rhai pynciau ac felly'n ddrud yn nhermau staffio ac adnoddau.
4. Gyda chwblhad y rhaglen adeiladu a'r gwelliant yng nghyfleusterau TGCh, y mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd da wrth estyn sgiliau TGCh y disgyblion, yn enwedig yng ngwersi penodol TGCh. Amrywiol yw'r defnydd a wneir o TGCh ar draws y pynciau a'r tu mewn iddynt ac y mae'r safonau'n anwastad.
5. Y mae'r weithred o gydaddoli bellach yn digwydd ar ddechrau'r diwrnod ysgol ac y mae'r ysgol yn awr yn cydymffurfio â'r gofynion statudol.
6. Y mae'r cyfraddau presenoldeb yn dal i fod yn anfoddhaol er gwaethaf y blaengareddau a weithredwyd i'w gwella.
7. Gwnaed gwelliannau yn ansawdd yr adrodd i rieni a gwneir gwell defnydd yn awr o'r Dyddiaduron Cyswllt i ddatblygu'r cysylltiadau cartref-ysgol. Serch hynny, nid adroddir ar ddarpariaeth graidd TGCh, addysg gorfforol nag addysg grefyddol yn CA4 yn yr adroddiad blynyddol i'r rhieni.
8. Y mae'r ysgol bellach wedi gweithredu trefniadau Rheoli Perfformiad yn lle polisi gwerthuso staff.

3. SAFONAU ADDYSGOL A GYFLAWNIR GAN Y DISGYBLION

3.1 Safonau a gyflawnir yn y Pynciau a'r Meysydd Dysgu

Yn y blynyddoedd diwethaf, y mae safonau cyflawni'r disgyblion ar eu mynediad i'r ysgol yn 11 oed yn cyfateb yn fras â'r cyfartaleddau cenedlaethol. Adlewyrchir hyn yng nghanlyniadau profion y CC ar ddiwedd CA2 pryd y bydd y disgyblion yn 11 oed, ac fe'i cadarnheir gan brofion eraill a weinyddir gan yr ysgol ei hun.

Yr oedd safonau cyflawni'r disgyblion o leiaf yn foddhaol yn 95 y cant o'r dosbarthiadau yr arsylwyd arnynt yn ystod yr arolygiad. Yn CA3, yr oeddent o leiaf yn dda yn 57 y cant o'r cyfanrif ac yn dda iawn yn saith y cant. Yn CA4, yr oedd y safonau'n dda neu well yn 76 y cant o'r dosbarthiadau, ac yn dda iawn yn naw y cant o'r rheiny. Y mae'r ystadegau hyn yn welliant ar y ffigurau a gofnodwyd yn adroddiad yr arolygiad diwethaf. Y pryd hwnnw, tua 52 y cant oedd cyfrannedd y safonau da neu dda iawn yn CA3 a CA4.

Yn CA3, y mae'r safonau cyflawni yn dda yn y Gymraeg, Saesneg, gwyddoniaeth, dylunio a thechnoleg, TGCh, hanes, daearyddiaeth a ieithoedd tramor modern. Boddhaol ydynt ym mathemateg, cerddoriaeth, addysg grefyddol ac addysg gorfforol. Nid arolygwyd celf.

Ym mhrofion y CC ar ddiwedd CA3 yn 2003, cafodd 63 y cant o'r disgyblion o leiaf lefel 5 ym mathemateg, gwyddoniaeth, a naill ai'r Gymraeg neu Saesneg (DPC) mewn cymhariaeth â 57 y cant yn y sir a 54 y cant yn genedlaethol. Yn Saesneg a gwyddoniaeth, yr oedd y canlyniadau'n uwch na chanlyniadau'r sir a Chymru; ym mathemateg, yr oeddent yn uwch na'r ganran genedlaethol ond

ychydig yn is na chanran y sir, ac yr oedd y canlyniadau yn y Gymraeg yn is na'r canlyniadau yn y sir ac yng Nghymru. Mewn cymhariaeth â chanlyniadau ysgolion â chefndiroedd cymdeithasol tebyg, y mae'r canlyniadau hyn yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol.

Y mae'r bwlch rhwng perfformiad y bechgyn ac eiddo'r merched yn fwy nag ydyw'n genedlaethol. Y canran o fechgyn a gafodd o leiaf lefel 5 yn y DPC oedd 55 y cant o gymharu â 71 y cant yn achos y merched. Y mae hyn yn fwlch o 16 y cant o'i gymharu â naw y cant yn genedlaethol.

Yn CA4, y mae safonau cyflawni'r disgyblion yn dda iawn yn TGCh ac astudiaethau'r cyfryngau. Y maent yn dda ym mhob pwnc arall ar wahân i addysg gorfforol lle y maent yn foddhaol. Nid arolygwyd celf nag astudiaethau busnes.

Y mae canlyniadau'r arholiadau ar ddiwedd CA4 dros y tair blynedd diwethaf ar gyfartaledd yn uwch na'r cyfartaleddau cenedlaethol ac yn unol â'r cyfartaleddau sirol. Serch hynny, yr oedd y canlyniadau yn 2003 dipyn yn is na'r canlyniadau a gafodd yr ysgol yn y blynyddoedd diweddar. Y canran o'r disgyblion a gafodd bump neu fwy o raddau A*-C yn TGAU yn 2003 oedd 52 y cant, o gymharu â 63 y cant yn y sir a 51 y cant yn genedlaethol. Yr oedd y canran a gafodd bump neu fwy o raddau A*-G (87 y cant) yn is na chyfartaledd y sir (89 y cant) ond yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol (85 y cant). Cafodd 44 y cant o'r disgyblion raddau A*-C ym mhob un o'r pynciau craidd, mathemateg, gwyddoniaeth, Cymraeg neu Saesneg, mewn cymhariaeth â 47 y cant yn y sir a 38 y cant yn genedlaethol. Y mae data gwerth ychwanegol yn dangos bod disgyblion B11 yn 2003 wedi perfformio yn well na'r disgwyl yn y mwyafrif o'r pynciau ar ddiwedd CA4 mewn cymhariaeth â'u cyflawniadau yn y TASau ar ddiwedd CA3. Serch hynny, yr oedd y canlyniadau mewn nifer o bynciau yn sylweddol is na'r targedau a osododd yr ysgol.

Y mae canlyniadau arholiad y Dystysgrif Lefel Mynediad (TLM) yn dda, ac y mae nifer briodol yn sefyll yr arholiad.

Y mae'r canran o fechgyn sy'n cyflawni dangosydd y pynciau craidd yn CA4 yn amlygu tuedd sydd wedi bod ar i lawr yn ystod y pedair blynedd diwethaf. Yr oedd y gwahaniaeth rhwng perfformiad y bechgyn a'r merched yn arholiad TGAU yn 2003 yn fwy na'r gwahaniaeth yn genedlaethol. Gwelir hyn yn y nifer o fechgyn a gyflawnodd o leiaf radd C ym mathemateg, gwyddoniaeth a naill ai'r Gymraeg neu Saesneg. Yn 2003, cyflawnodd 27 y cant o'r bechgyn hyn, tra cyflawnodd 47 y cant o'r merched hynny. Yn genedlaethol, y ffigur yn achos y bechgyn yw 34 y cant a 41 y cant yn achos y merched. Y mae'r gwahaniaeth hefyd yn amlwg yn y canrannau o'r disgyblion a gyflawnodd o leiaf bum gradd A*-C. Yn achos y bechgyn, 41 y cant oedd y ffigur (yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol o 45 y cant) ac yn achos y merched 69 y cant ydoedd (yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol o 57 y cant). Y mae proses hunan-werthuso'r ysgol yn amlygu tangyflawniad y bechgyn, yn enwedig yn CA4, ac y mae'n un o'r blaenoriaethau a ddynodir yn y CDY cyfredol.

Y mae'r safonau yn ABCh yn dda yn y ddau gyfnod allweddol ac y mae'r safonau yn y rhaglen o gyfarwydd gyrfaol yn dda hefyd.

Bydd y disgyblion o alluoedd uchel yn cyflawni safonau sy'n dda yn gyffredinol yn y mwyafrif o'r pynciau yn y ddau gyfnod allweddol. Yn TGCh a gwyddoniaeth cyflawnant safonau da iawn yn y ddau gyfnod allweddol, a hefyd yn naearyddiaeth yn CA3. Mewn rhai gwersi yn hanes, ni chaiff y disgyblion mwyaf galluog eu herio'n ddigonol.

Y mae'r disgyblion yn gwneud cynnydd da yn y mwyafrif mawr o'r pynciau, a chynnydd da iawn yng ngwyddoniaeth ac addysg grefyddol. Gwnânt yn dda yn y sesiynau a bennir i hybu llythrennedd a rhifedd yn ogystal ag mewn ystod o bynciau ar draws y cwricwlwm. Cânt gymorth a gofal cyson, a gwaith a addesir yn briodol i gwrdd â'u hanghenion.

Yn gyffredinol, nid yw'r disgyblion o allu cymedrol yn gwneud cystal, mewn perthynas â'u galluoedd, â'r mwyaf galluog nag â'r disgyblion ag AAA. Nid yw'r hyn a ddisgwylir ganddynt bob amser yn ddigon uchel, ac nid yw'r tasgau a gânt yn ddigon heriol. Yn rhai o'r pynciau, gan gynnwys y pynciau craidd i beth graddau, nid oes ganddynt ddealltwriaeth mor gadarn o gysyniadau sylfaenol. Y mae gwaith ysgrifenedig anorffen ac absenoldebau ysbeidiol yn arafu cyflymdra'r cynnydd a wnânt ac yn cael effaith andwyol ar eu safonau cyflawni.

3.2 Safonau a Gyflawnir yn y Sgiliau Allweddol ar draws y Cwricwlwm

Y mae safonau'r sgiliau allweddol yn dda ar draws CA3 a CA4. Yr ysgol hon oedd y gyntaf yng Ngheredigion i dderbyn y Dyfarniad Sgiliau Sylfaenol ac y mae pob adran yn gyfredol yn dilyn cynllun datblygu sgiliau sylfaenol yn baratoad i gynnig yr ysgol am y dyfarniad unwaith yn rhagor. Y mae gan y polisi llythrennedd ysgol-gyfan amcanion a nodau eglur, a chanllawiau ar gyfer yr adrannau parthed siarad a gwrando, darllen, ysgrifennu a datblygiad sgiliau TGCh. Monitrir gweithrediad y polisi drwy'r gweithdrefnau a sefydlwyd gan yr ysgol yn ddiweddar, ac sy'n cynnwys ystod o samplo gwaith disgyblion ac arsylwi ar wersi.

Gwrando, siarad, darllen ac ysgrifennu

Y mae cyd-drefnydd effeithiol y sgiliau sylfaenol yn goruchwylio nifer o flaengareddau parthed llythrennedd, ac fe'u monitrir yn dda. Darperir llyfryn llythrennedd ar gyfer rhieni disgyblion B6 a rhoddir cyfarwyddyd parthed datblygiad y sgiliau darllen. Byddir yn neilltuo disgyblion a ddynodir yn rhai â sgiliau llythrennedd gwael o'r gwersi ac fe gânt gymorth ychwanegol gan yr adran AAA. Y mae polisi darllen ysgol-gyfan yn rhoi 30 munud ar gyfer darllen drwy'r ysgol bob bore Gwener a chynhelir clinig sillafu am gymaint â 30 munud bob bore o ddydd Llun tan ddydd Iau. Y mae 'wythnosau ymosod' yn hybu ymwybyddiaeth ysgol-gyfan o dargedau penodol, megis y defnydd o briflythyren a chollnod, ac y mae'r 'cynllun cyfaill' yn cael ei weithredu yn gyfredol gyda chymorth myfyrwyr y chweched dosbarth. Serch hynny, y mae neilltuo disgyblion o'u gwersi arferol yn Saesneg a Chymraeg yn tanseilio gwerth sesiynau System Ddysgu Unigol *Successmaker* a sefydlwyd yn ddiweddar.

Y mae'r safonau siarad a gwrando yn dda ar draws y cwricwlwm. Yn y ddau gyfnod allweddol, bydd y disgyblion yn gwrando'n ofalus yn gyffredinol, er bod lleiafrif yn ei chael yn anodd i ganolbwyntio am yn hir ac i wrando'n ystyriol yn hytrach na thorri ar draws eraill. Bydd y rhan fwyaf yn ddigon parod i gyfrannu'n llafar yn y gwersi, ond y mae eu defnydd o iaith yn tueddu i fod yn anffurfiol a'u hymatebion braidd yn fyr. Y mae trafodaeth rhwng parau a thrafodaethau dosbarth-cyfan yn nodwedd amlwg ac effeithiol mewn llawer o'r gwersi.

Y mae'r safonau darllen yn dda. Bydd y rhan fwyaf o'r disgyblion yn darllen yn rhugl, gyda mynegiant a dealltwriaeth, ac y mae ganddynt y sgiliau ymchwil i gasglu tystiolaeth berthnasol o ystod o ffynonellau. Y mae'r adrannau Cymraeg a Saesneg yn annog y disgyblion i ddarllen er mwyn pleser, a dyrennir amser i holl ddisgyblion CA3 i ddefnyddio llyfrgell yr ysgol.

Y mae safonau'r gwaith ysgrifennu yn dda yn gyffredinol. Bydd y disgyblion yn ysgrifennu yn rheolaidd yn y rhan fwyaf o'r pynciau ac y mae ganddynt sgiliau gwneud nodiadau da. Ysgrifennant mewn amryfal arddulliau i ystod o ddibenion gwahanol, ac y mae ysgrifennu estynedig yn nodwedd drwy'r cyfnodau allweddol yn y Gymraeg a Saesneg. Y mae'r defnydd a wneir o fframiau ysgrifennu, drafftio ac adolygu, yn enwedig gyda chymorth TGCh, yn gwella cywirdeb a chyflwyniad y gwaith ysgrifenedig, ond y mae sillafu a mynegiant gwael yn para i amharu ar waith, nid yn unig y disgyblion sydd â sgiliau llythrennedd gwael, ond gwaith llawer o ddisgyblion o allu cymedrol a hyd yn oed rhai o'r disgyblion mwy galluog.

Rhifedd

Y mae'r safonau rhifedd ar draws y cwricwlwm yn dda drwy'r ysgol. Y mae polisi rhifedd yr ysgol yn eglur, a chyfrifoldeb y pennaeth mathemateg yw cyd-drefnu'r sgil allweddol hwn. Y mae gan bob adran ymron bolisi rhifedd yn gynwysedig yn eu cynlluniau gwaith. Yn addysg gorfforol, gall y disgyblion goladu a dadansoddi data ym mhob cyfnod allweddol ac y maent yn ymwybodol o unedau mesur. Yn addysg grefyddol, byddant yn delio â rhifau mewn testunau crefyddol, ac yn ieithoedd tramor modern byddant yn defnyddio graffiau. Yng ngwyddoniaeth, gall y disgyblion fformwleiddio ac ailddrefnu'n gywir, a lluniant graffiau i gynrychioli canlyniadau yn briodol. Yn nylunio a thechnoleg a TGCh, y mae gan yr athrawon ddisgwyliadau uchel ac y mae'r disgyblion yn pwyso ac yn mesur yn gywir. Yn y Gymraeg, bydd y disgyblion yn defnyddio graffiau gwahanol i gynrychioli data ac yn astudiaethau'r cyfryngau gwnânt ddefnydd da o siartiau cylch. Yn naearyddiaeth, gall y disgyblion ddehongli gwybodaeth yn rhifyddol a chyflwynant eu gwaith yn dda. Ym mathemateg, y mae'r agwedd hon wedi'i datblygu'n dda a gall disgyblion o bob gallu amcangyfrif yn effeithiol a llunio graffiau gyda gradd dderbyniol o gywirdeb. Gallant hefyd ddatrys hafaliadau ar lefelau sy'n

briodol i'w galluoedd. Gallai'r disgyblion sy'n llunio graffiau cwadratig ym mathemateg fod yn fwy cywir, gan nad yw eu cromliniau bob amser yn ddigon llyfn ar y pegwn isaf ac uchaf.

Technoleg gwybodaeth a chyfathrebu

Y mae safonau'r sgiliau TGCh ar draws y cwricwlwm o leiaf yn foddhaol ym mhob pwnc ar wahân i fathemateg. Y mae'r safonau'n dda yn nylunio a thechnoleg, daearyddiaeth, ieithoedd tramor modern, cerddoriaeth ac addysg grefyddol. Y mae'r safonau yn dda iawn yn naearyddiaeth yn CA4. Y mae'r sgiliau cyflwyno gwaith drwy ddefnyddio cyfrifiadur yn amlygu cryfderau'r disgyblion mewn sawl pwnc ac yn arbennig felly yn Saesneg, astudiaethau'r cyfryngau a hanes. Yn gyffredinol, y mae'r staff yn defnyddio TGCh yn hyderus a chyda chymhwysedd. Caiff y disgyblion ddigon o gyfleoedd i ddefnyddio a gwella eu gallu yn nhechnoleg gwybodaeth i brosesu geiriau ac wrth goladu gwybodaeth o wahanol ffynonellau a chyflwyno eu gwaith. Defnyddir y Rhyngrwyd i ymchwilio yn rhai o'r gwersi, yn arbennig yn hanes, daearyddiaeth ac ieithoedd tramor modern. Yn nylunio a thechnoleg, defnyddir meddalwedd graffeg yn dda gan y disgyblion i gynhyrchu golwg orthographig ac isomedrig o'u dyluniadau. Cânt gyfleoedd da hefyd i ddefnyddio cyfarpar cynorthwyo cyfrifiadur i gynhyrchu a gwella rhai agweddau ar eu cynhyrchion. Defnyddir cyfarpar a meddalwedd a gafwyd yn ddiweddar yn dda gan y disgyblion yn eu gwaith cyfansoddi yng ngherddoriaeth. Ni chaiff disgyblion ddigon o gyfleoedd i ddefnyddio synwyryddion i ddatblygu eu sgiliau mesur yng ngwyddoniaeth, tra ym mathemateg, ychydig iawn o ddefnydd a wneir o'r cyfrifiadur ar gyfer unrhyw waith.

Sgiliau creadigol

Y mae'r sgiliau creadigol yn dda. Cânt eu datblygu'n dda mewn nifer o bynciau. Y mae cardiau post, posteri a modelau tri-dimensiwn effeithiol yn nodwedd o'r gwaith yn yr adrannau Cymraeg, Saesneg, daearyddiaeth, addysg grefyddol a hanes. Yn y Gymraeg, Saesneg, ieithoedd tramor modern ac astudiaethau'r cyfryngau, ceir defnydd helaeth o ddialogau, chwarae rôl ac ysgrifennu dychmygus o amryfal fathau gan gynnwys sgriptiau drama, byrddau stori ac erthyglau papur newydd, a bydd y rhain oll yn cael eu gwella gan y defnydd a wneir o sgiliau TGCh datblygedig iawn.

Datrys problemau

Y mae datrys problemau yn nodwedd gynyddol gyffredin o nifer o wersi, yn enwedig yn Saesneg ac astudiaethau'r cyfryngau, a bydd y disgyblion yn archwilio ystod eang o broblemau, yn cynnwys cwestiynau crefyddol a moesol yn addysg grefyddol, ac wrth ddod i benderfyniadau megis lle y dylid codi archfarchnad, yn naearyddiaeth. Serch hynny, ni ddatblygir y sgiliau archwiliol yn ddigonol yng ngwyddoniaeth, ac ychydig enghreifftiau o waith ymarferol yn unig a welwyd. Y mae amser yn milwrio yn erbyn cynhyrchu modelau tri-dimensiwn, gwaith y bydd disgyblion yn ei ymgymryd fel arfer yn addysg grefyddol yn CA3.

4. ETHOS YR YSGOL

4.1 Datblygiad Ysbrydol, Moesol, Cymdeithasol a Diwylliannol y Disgyblion

Y mae datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion yn dda.

Datblygir ymwybyddiaeth ysbrydol y disgyblion yn briodol yn y cydaddoli dyddiol a gynllunnir yn dda ar themâu wythnosol. Y mae'r gwasanaethau hyn yn datblygu ymdeimlad o chwilfrydedd yn y disgyblion ac yn rhoi iddynt gyfle da i ddeall a chael mewnwelediad i faterion ysbrydol ac o werth moesol.

Y mae'r gwasanaethau dwyieithog, da eu trefniadaeth, yn cynnwys elfennau o'r ffydd Gristionogol a chrefyddau eraill. Rhoddant fforwm da hefyd i gydnabod a dathlu cyflawniadau nid bychan y disgyblion yn gerddorol ac ym maes chwaraeon. Bydd disgyblion o wahanol ddosbarthiadau yn cymryd eu tro i gyflwyno themâu diddorol.

Oherwydd yr acwsteg wael, ni fydd cyflwyniadau'r disgyblion yn ddigon hyglyw ar dro, yn enwedig yng nghefn y neuadd. Bydd y disgyblion yn aml yn perfformio'n unigol drwy roi datganiad ar y piano neu gymryd rhan mewn grŵp offerynnau chwyth. Ni fydd yr ysgol gyfan yn canu emyn, ac weithiau bydd hyd y gwasanaeth yn achos anesmwythyd corfforol gan mai ond ychydig o'r disgyblion sydd ar eu heistedd.

Y mae'r gweithredoedd cydaddoli hyn bellach yn cwrdd â'r gofynion statudol.

Caiff y disgyblion gyfleoedd da iawn i ddatblygu'n ysbrydol drwy gyfrwng y trafodaethau yng ngwersi addysg grefyddol yn CA3 a CA4 a thrwy adfyfyrio ar dopigau megis materion amgylcheddol a'u stiwardiaeth o'r blaned. Anogir y disgyblion yn llwyddiannus i ystyried cwestiynau sylfaenol bywyd. Cânt eu hannog hefyd i ddatblygu eu syniadau a'u gwerthoedd hwy eu hunain, ac y mae'r mewnbwn o ansawdd yn y trafodaethau yn gwella eu dealltwriaeth o ystod o safbwyntiau a chredoau crefyddol a geir ym Mhrydain.

Y mae datblygiad moesol y disgyblion yn dda. Y mae'r ysgol yn meithrin gwerthoedd megis gonestrwydd, tegwch a pharch i'r gwirionedd yn effeithiol. Y mae gan y disgyblion oll syniad clir o'r hyn a ddisgwylir ganddynt. Y mae'r mwyafrif ohonynt yn dangos parch tuag at eraill. Y mae gan yr ysgol draddodiad cryf o gefnogi achosion elusennol a chyfrannu'n hael i apeliadau.

Y mae'r berthynas rhwng y disgyblion a'r staff a rhyngddynt a'i gilydd yn dda yn gyffredinol ac weithiau'n dda iawn. Ym mhob cyfnod, caiff y disgyblion gyfle i gymryd rhan mewn penderfyniadau yn gorfforaethol drwy'r cyngor ysgol newydd ei sefydlu.

Y mae datblygiad diwylliannol y disgyblion yn dda, a bydd sawl pwnc megis cerddoriaeth, hanes, daearyddiaeth ac addysg grefyddol yn cyfrannu'n gadarn yn y cyswllt hwn. Drwy gymryd rhan yn weithredol yn eisteddfod yr ysgol, yng nghôr ac yng ngherddorfa'r ysgol a thrwy gael profiad o'r Cwricwlwm Cymreig ar draws sawl pwnc, y mae ymwybyddiaeth a dealltwriaeth y disgyblion o'u diwylliant a'u treftadaeth eu hunain yn datblygu'n dda.

Caiff y disgyblion gyfle i gael syniad da am ddiwylliannau eraill drwy gyfrwng eu hastudiaethau yng nghelf, Saesneg, hanes, daearyddiaeth ac addysg grefyddol a thrwy'r mynych ymweliadau a drefnir gan yr ysgol i orielau celf, amgueddfeydd a theatrau lleol ac yn enwedig drwy'r ymweliadau tramor estynedig.

Drwy weithrediad polisïau priodol, y mae'r ysgol yn hybu cyfleoedd cyfartal a chydraddoldeb hiliol yn effeithiol.

Y mae ymateb y disgyblion i ddarpariaeth yr ysgol ar gyfer eu datblygiad ysbrydol, moesol cymdeithasol a diwylliannol yn bositif iawn.

4.2 Ymddygiad ac Ymagweddau

Y mae ansawdd ymddygiad y disgyblion, eu hymagwedd tuag at ddysgu a'r diddordeb a amlygant yn eu gwaith yn foddhaol yn gyffredinol. Serch hynny, amrywiol yw ansawdd eu hymddygiad a'u hymagwedd rhwng gwahanol bynciau ac ynddynt. Ceir polisïau eglur a chlir eu hesboniad ynghyd â threfniadau a sefydlwyd i hybu ymddygiad da, ond y mae diffyg cysondeb yn eu gweithrediad.

Y mae gan yr ysgol bolisi manwl ar reoli ymddygiad, ac y mae prosbectws yr ysgol yn rhoi gwybodaeth eglur i'r rhieni parthed disgwyliadau'r ysgol a'i threfniadau gwobrwyo a gweithredu sancsiynau. Rhoddir pwyslais ar bwysigrwydd cefnogaeth a chydweithrediad y rhieni i reoli a newid ymddygiad. Gwelwyd trefniadaeth dosbarth dda mewn sawl gwers, ac yn y cyfryw wersi byddai'r disgyblion yn dal at eu tasgau ac yr oedd ganddynt ymagwedd bositif tuag at ddysgu.

Mewn lleiafrif o ddosbarthiadau, ni fyddir yn rheoli ymddygiad yn dda a bydd llawer unigolyn yn amharu ar ddysg eraill yn y grŵp. Cafwyd tystiolaeth o ddiffyg ymdrech ar ran nifer o ddisgyblion ar draws yr ysgol ac yn arbennig yn B8 ac i raddau llai yn B11.

Y mae ymddygiad y disgyblion o gwmpas yr ysgol ac yn y coridorau, yn yr egwyliau a'r awr ginio yn dda.

Y mae'r berthynas rhwng y disgyblion a'r staff yn dda yn gyffredinol ac yn seiliedig ar adnabyddiaeth drylwyr y staff o ddisgyblion unigol. O ganlyniad, bydd y rhan fwyaf o'r disgyblion yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u cymell yn dda, ac y mae eu hymagwedd tuag at fywyd yr ysgol yn cael effaith amlwg ar y safonau a'r cynnydd a gyflawnant.

Y mae yn yr ysgol system wobrwyo, ond ychydig o ddefnydd ohoni a welwyd yn ystod yr arolygiad. Y mae ganddi drefniadau adrodd, cyfeirio a sancsiynu eglur a chlir eu diffiniad ar gyfer disgyblion a fo'n torri rheolau'r ysgol neu'n amlygu ymddygiad annerbyniol, ond rhoddir pwyslais hefyd ar ofal a chymorth. Bydd y swyddog cyswllt ieuenctid yn cyfarfod yn wythnosol â'r disgyblion a gyfeirir ati

parthed eu problemau ymddygiadol, ymagweddol a'u hanniddigrwydd. Y mae hyn yn nodwedd dda iawn yn y rhaglen gymorth bugeiliol.

Y mae'r datganiad polisi ar gwrth-fwlio yn dda ac yn ei gwneud yn anodd i fwli weithredu, ac anogir pawb i gynorthwyo'r sawl a fo'n dioddef ac i adrodd am ei ofid. Mewn cyfweliadau, cadarnhaodd y disgyblion fod y strategaeth hon yn effeithiol.

Ystyrir mai'r cam olaf oll yw gwahardd disgybl, ac yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, gwaharddwyd 40 o fechgyn a chwech o ferched am dymor penodol. Yr oedd 25 o'r rhain yn ddisgyblion o B8 a B9. Gwaharddwyd dau ddisgybl o B10 yn barhaol.

4.3 Presenoldeb

Dros y tri thymor cyfan cyn yr arolygiad, yr oedd cyfraddau presenoldeb B7-11 (88.27 y cant) yn anfoddhaol ac y mae'n aros yn fater allweddol i'w weithredu fel ydoedd yn yr arolygiad diwethaf. Yn CA3, yr oedd y gyfradd yn 91.3 y cant ac yn CA4 yn 80.1 y cant. Yn ystod y ddau dymor diwethaf, bu'r staff hŷn, y penaethiaid blwyddyn ynghyd â'r swyddog addysg cynhwysol (SAC) a'r staff gweinyddol, yn gweithio'n galed i wella'r cyfraddau presenoldeb ac i leihau absenoldebau anawdurdodedig. Y mae'r rheolwyr hŷn a staff arall yn hollol ymwybodol fod angen gwella lefelau presenoldeb y disgyblion a datblygu strategaeth i ddelio â'r materion allweddol megis presenoldeb yn ystod tymor yr haf ac arfer gynyddol y rhieni o fynd â'u plant ar wyliau adeg ysgol sy'n cael effaith andwyol ar y cyfraddau presenoldeb.

Yn ei chyhoeddiadau ffurfiol ac wrth roi gwybodaeth arall i'r rhieni, y mae'r ysgol yn pwysleisio bod addysg lwyddiannus yn dibynnu ar bresenoldeb da. Rhoddir cyfarwyddyd manwl i'r staff, y disgyblion, y rheini a gwarchodwyr am y gweithdrefnau i'w dilyn os digwydd absenoldeb yn annisgwyl.

Y mae'r mwyafrif o'r rhieni yn ymateb yn dda i ymdrechion yr ysgol i wella'r cyfraddau presenoldeb. Y mae'r llywodraethwyr a'r rheolwyr hŷn wedi gosod targed i wella presenoldeb ymhellach ar draws yr ysgol gyfan, a gwneir cynnydd boddhaol i gyrraedd targed yr ysgol o gyfradd o 92 y cant ar gyfer y flwyddyn academaidd gyfredol.

Er y rhoddir pwyslais ar atgoffa'r rhieni o bwysigrwydd osgoi cymryd gwyliau adeg ysgol y mae nifer sylweddol o deuluoedd – mwy na chant yn ystod y flwyddyn - yn para i anwybyddu'r cyngor hwn.

Gwneir ymdrechion da yn gyfredol gan y dirprwy bennaeth (bugeiliol), y penaethiaid blwyddyn, aelodau o'r staff cynorthwyol a'r SAC i leihau absenoldeb creiddiol. Bwriedir targedu'n benodol disgyblion sydd â chyfraddau rhwng 80 a 90 y cant ynghyd â chynnal mwy o gyfarfodydd yn rheolaidd i fonitro presenoldeb.

Yn gyffredinol, y mae prydlondeb yn foddhaol drwy gydol y diwrnod ysgol, ac y mae'n dda ar ddechrau'r diwrnod, ond yn ystod yr arolygiad sylwyd bod nifer sylweddol o'r disgyblion yn cyrraedd eu gwersi yn hwyr.

Y mae'r ysgol yn cadw cofnod cywir o bresenoldeb ac y mae'r system gofnodi yn cydymffurfio yn llawn â'r gofynion statudol. Ni fyddir yn cofnodi presenoldeb disgyblion mewn gwersi unigol gyda chysondeb.

5. ANSAWDD YR ADDYSG

5.1 Addysgu

Yr oedd yr addysgu o leiaf yn foddhaol yn CA3 a CA4 yn 96 y cant o'r dosbarthiadau yr arsylwyd arnynt. Yn CA3, yr oedd o leiaf yn dda yn 62 y cant, ac yn dda iawn yn 13 y cant o'r rheiny. Yn CA4, yr oedd yn dda neu well yn 75 y cant ac yn dda iawn yn 20 y cant. Y mae'r ffigurau hyn yn uwch na disgwyliadau Llywodraeth Cynulliad Cymru yn 2002, sef 95 y cant yn foddhaol neu well a 50 y cant yn dda neu well. Y mae ansawdd yr addysgu yn CA4 wedi gwella o fod yn dda neu'n dda iawn yn 68 y cant fel y cofnodwyd yn adroddiad yr arolygiad diwethaf i 75 y cant yn yr arolygiad hwn, ac o 61 y cant i 62 y cant yn CA3.

Y mae'r addysgu yn dda iawn yn nhechnoleg gwybodaeth yn y ddau gyfnod allweddol. At ei gilydd, y mae'n dda yn y ddau gyfnod allweddol yn y Gymraeg, Saesneg, gwyddoniaeth, addysg grefyddol, ieithoedd tramor modern, hanes, daearyddiaeth, dylunio a thechnoleg ac ABCh, ac yn gyson dda yn CA4 ym mathemateg, cerddoriaeth, iechyd a gofal cymdeithasol ac astudiaethau'r cyfryngau, gyda rhai enghreifftiau o addysgu da iawn yng ngwyddoniaeth, addysg grefyddol, dylunio a thechnoleg ac astudiaethau'r cyfryngau. Yn addysg gorfforol, ceir enghreifftiau addysgu da ond boddhaol ydyw drwyddo draw. Ceir ychydig bach o addysgu anfoddhaol, gwersi sengl gan fwyaf, mewn ychydig o bynciau, rhyw bedwar y cant i gyd.

Nodwedd dda yn y mwyafrif mawr o wersi ar draws y cwricwlwm yw gwybodaeth bynciol dda yr athrawon, eu cynllunio eglur a'r berthynas dda rhyngddynt â'r disgyblion. Caiff y disgyblion lawer o gymorth bugeiliol yn ogystal â chymorth i'w cynnydd academaidd gan yr athrawon pwnc.

Yn y pynciau lle y mae'r addysgu yn gyson dda, ac mewn rhai gwersi yn y pynciau eraill, ceir rhai neu nifer o'r nodweddion da canlynol: arddull ddidactig fywiog; disgwyliadau uchel; defnydd da o adnoddau, yn cynnwys technoleg fwrdd-gwyn rhyngweithiol; cyflymdra da a'r defnydd o amryfal dechnegau.

Mewn nifer o wersi, serch hynny, y mae'r disgyblion yn rhy oddefol a heb gymryd rhan digonol yn eu dysg eu hunain. Ni rennir amcanion a nodau'r gwersi gyda hwy fel eu bod yn gwybod ymlaen llaw beth y mae'r athrawon yn ei ddisgwyl ganddynt. Y mae hyn yn ymwneud â'r holl lefelau o allu i raddau amrywiol. Mewn lleiafrif o wersi, y mae'r addysgu yn or-gyfarwyddol ac nid yw'n rhoi cyfle i'r disgyblion drafod eu dealltwriaeth a datblygu eu sgiliau archwiliol a llafar.

Yn y rhan fwyaf o'r dosbarthiadau, y mae'r gwaith yn cyfateb yn rhesymol â galluoedd y disgyblion, ac y mae'r system setio yn CA3 yn help yn hyn o beth. Y mae'r disgwyliadau parthed safonau'r disgyblion o allu cymedrol ac is yn foddhaol ar y cyfan, ac y mae'r ddarpariaeth ar gyfer y disgyblion ag AAA yn dda. Y mae ansawdd yr addysgu yn y gwersi y cânt eu neilltuo iddynt o'r brif ffrwd yn aml yn dda iawn.

Y mae ansawdd yr addysgu yn y gwersi ABCh yn dda yn gyffredinol. Gwna gyfraniad da i ddatblygiad personol a chymdeithasol y disgyblion. Y mae ansawdd addysg a chyfarwyddyd gyrfaol yn dda.

Mewn lleiafrif bach o wersi lle y mae'r addysgu yn anfoddhaol, ac mewn gwersi eraill lle y mae'n foddhaol yn gyffredinol, ceir rhai diffygion sy'n rhwystro cynnydd a chyflawniad y disgyblion. Y mae peth o'r addysgu anarbenigol yn y Gymraeg, addysg grefyddol ac addysg gorfforol yn cyfyngu ar ystod y gweithgareddau dysgu. Yn rhai o'r gwersi hyn a gwersi eraill ag ynddynt ddiffygion, ceir cyflymdra a her annigonol, disgwyliadau rhy isel, ac ymddygiad nas reolir yn dda. Yn rhai pynciau ac yn enwedig ym mathemateg, nid yw'r athrawon yn rhoi digon o gyfleoedd i'r disgyblion i ddefnyddio TGCh i wella eu sgiliau yn y pwnc nac i wella eu sgiliau yn yr agwedd hon ar ddatblygiad y sgiliau allweddol.

Y mae lleiafrif o ddisgyblion yn amlygu ymddygiad heriol, a phan fydd athrawon yn ddiffygiol o ran sgiliau rheoli dosbarth, y mae hynny'n cael effaith andwyol ar ddysgu pawb yn y dosbarth.

Yn y rhan fwyaf o'r dosbarthiadau, bydd yr athrawon yn gosod gwaith cartref i gyfnerthu ac estyn dysgu'r disgyblion. Ni fydd y disgyblion bob amser yn cydweithredu'n llawn a cheir enghreifftiau o fylchau a gwaith anorffen yn eu llyfrau.

5.2 Asesu, Cofnodi a Chyflwyno Adroddiadau

Y mae cywirdeb ac amlder asesu yn foddhaol yn gyffredinol. Y mae'r polisi asesu ysgol-gyfan yn rhoi'r amcanion a nodau'n glir, ac yn cynnwys canllawiau ar gyfer gosod gwaith cartref. Bydd y rhan fwyaf o'r adrannau yn defnyddio'r canllawiau hyn i gyfeirio eu harferion asesu eu hunain a defnyddir ystod llawn o dechnegau asesu. Ceir enghreifftiau o arfer dda, gan gynnwys sylwadau adeiladol ar waith disgyblion, hunan-werthusiad a gosod targedau yn hanes, daearyddiaeth a cherddoriaeth. Y mae'r defnydd o hunan-werthuso, gosod targedau a gwaith cartref yn rhai o'r adrannau yn anghyson, ond y mae'n gwella yn CA4 a chaiff y disgyblion syniad eglur o safon eu perfformiad mewn perthynas â meini prawf a graddau'r arholiadau.

Y mae'r defnydd a wneir o asesu i wella safonau yn dda yn rhai adrannau lle y dynodir cryfderau a diffygion disgyblion yn glir ac yn gyson. Mewn adrannau eraill, bydd yr arfer yn amrywio o athro i

athro. Serch hynny, y mae'r disgyblion yn hyderus yn gyffredinol eu bod yn gwybod sut y maent yn cyflawni a'u bod yn cael y cymorth a'r cyfarwyddyd angenrheidiol i wella. Bydd yr athrawon yn rhoi adborth llafar defnyddiol i ddisgyblion unigol ac i'r dosbarth cyfan a defnyddir dyddiaduron cyswllt i gofnodi perfformiad y disgyblion yn yr adolygiad hanner blynyddol. Rhydd hyn gofnod o ymdrech a chyrhaeddiad ac y mae'n gysylltiedig â nosweithiau'r rhieni lle y trafodir unrhyw gwestiwn perthnasol a gwyd o'r adolygiad. Y mae'r adolygiad hefyd yn gysylltiedig â system wobrwyo ysgol-gyfan newydd ei datblygu, er mai anghyson yw'r defnydd a wneir ohoni yn gyfredol o fewn adrannau.

Y mae'r trefniadau ar gyfer cofnodi cyflawniadau a chynnydd y disgyblion yn dda. Y mae'r cysylltiadau effeithiol gyda'r ysgolion cynradd cyfrannol yn sicrhau trosglwyddiad effeithlon o ddata asesu, yn cynnwys canlyniadau CA2, a bydd y rheiny, ynghyd â chanlyniadau profion mewnol yr ysgol yn B7, yn sylfaen i gofnodion asesu'r disgyblion. Y mae'r system o olrhain cynnydd disgyblion yn rhoi data am bob disgybl unigol o'r flwyddyn 2000 ymlaen. Gellir ymgynghori â'r system hon unrhyw bryd ac mae'n cael ei ddefnyddio yn y cyfnodau tiwtoraidd pryd y bydd athrawon yn monitro eu grwpiau dosbarth yn y cyfnod cofrestru estynedig bob bore Mawrth. Bydd y pennaeth blwyddyn yn derbyn allbrint o'r adolygiad diwethaf adeg y newid drosodd. Y mae'r system hon yn gweithio o fewn cylch yr asesu a'r cofnodi i roi gorolwg effeithiol i'r rhieni, y disgyblion a'r athrawon.

Bydd yr athrawon pwnc a'r system fugeiliol yn ymyrryd yn systematig pan fydd disgyblion yn tangyflawni a rhoddir cymorth ychwanegol iddynt mewn gwahanol ffyrdd. Dynodir disgyblion ag AAA yn effeithiol ar eu dyfodiad i'r ysgol a chynhwysir eu cynlluniau addysg unigol (CauAU) yn eu dyddiaduron cyswllt er mwyn cael mynediad hawdd iddynt.

Y mae'r defnydd a wneir o ddadansoddi data asesu mewnol ac arholiadau allanol yn dda ar lefel adran ac ysgol-gyfan. Cymherir canlyniadau arholiadau cyhoeddus yn fanwl â'r ffigurau sirol a chenedlaethol er mwyn pennu targedau.

Y mae'r adroddiadau i'r rhieni yn cwrdd â'r gofynion statudol. Bydd y rhieni yn derbyn un adroddiad llawn yn flynyddol yn ogystal â'r adolygiad hanner blwyddyn. Y mae fformat safonol i'r adroddiad blynyddol sy'n galluogi cofnodi cryfderau a diffygion y disgyblion. Ym mhob pwnc gwerthusir cyrhaeddiad, ymdrech a chynnydd cyffredinol, a gosodir targedau ar gyfer gwelliant. Serch hynny, nid yw'r adroddiadau yn gyson o fewn nac ar draws rai adrannau parthed rhoi sylwadau manwl ar y sgiliau pwnc perthnasol ac y mae peth o'r gosod targedau yn rhy gyffredinol. Rhoddir Cofnod o Gyflawniad (CoG) cynhwysfawr i bob disgybl ar ddiwedd CA4, ond nid adroddir am ddarpariaeth graidd TGCh, addysg gorfforol nac addysg grefyddol yn yr adroddiad blynyddol i'r rhieni yn CA4.

Gwnaed newidiadau yn y system adrodd ers yr arolygiad diwethaf ond ceir bod anghysondeb yn aros yn yr arferion mewn meysydd pwysig, gan gynnwys hunan-werthuso a gosod targedau.

5.3 Cwricwlwm

Ar y cyfan oll, y mae ansawdd y cwricwlwm yn dda drwy'r ysgol.

Y mae'r cwricwlwm yn CA3 yn eang ac yn gytbwys ac yn cwrdd â gofynion statudol y CC ac addysg grefyddol. Y mae cwricwlwm CA4 yn eang ac yn gytbwys ond ni fodlonir y gofynion statudol yn B11 gan na chaiff yr holl ddisgyblion gyfle i astudio addysg grefyddol. Y mae'r disgyblion sy'n astudio Almaeneg yn colli llawer o'r amser a ddyrennir i'w haddysg gorfforol ac y mae hynny'n cael effaith andwyol ar safonau yn y ddau gyfnod allweddol yn eu hachos hwy. Y mae effaith gyfunol colli amser er mwyn astudio Almaeneg a'r rheidrwydd i gerdded i'r meysydd chwarae ac yn ôl yn golygu na chyflawnir gofynion y CC yn achos y disgyblion hynny sy'n astudio Almaeneg. Y mae'r ddarpariaeth gwricwlaidd yn adlewyrchu amcanion cyffredinol yr ysgol yn ddigonol ac y mae'n gymdeithasol gynhwysol yn ogymaint â'i bod yn darparu ar gyfer diddordebau ac anghenion y disgyblion, ac ar wahân i'r materion a nodwyd, yn sicrhau mynediad cyfartal i'r holl ddisgyblion. Addysgir y disgyblion am y 25 o oriau'r wythnos a argymhellir.

Yn CA3, bydd y disgyblion yn astudio pob pwnc a restrir yn y CC ac addysg grefyddol. Yn B7, addysgir y disgyblion yn eu grwpiau dosbarth, ac y mae un grŵp dosbarth yn fach er mwyn cwrdd ag anghenion arbennig y disgyblion ynddo. Yn B8 a B9, darperir Almaeneg i un grŵp o bob hanner blwyddyn ar draul amser a gollir yn Saesneg, y Gymraeg, Ffrangeg, mathemateg a gwyddoniaeth. Yn B9, ni all disgyblion sy'n astudio Almaeneg fynychu tair o chwe gwers yn y bloc cylchdro sy'n cynnwys addysg grefyddol, ABCh, addysg gorfforol a TGCh. Ceir elfen o setio yn B8 ac estynnir hynny yn B9 i gynnwys yr holl bynciau ar wahân i gelf, cerddoriaeth, gemau a'r bloc cylchdro. Y

mae'r dyraniad amser i'r pynciau ar draws y cyfnod allweddol yn ddigonol ac yn cwrdd â'r argymhellion yn gyffredinol. Yng ngherddoriaeth, y mae'r dosbarthiadau yn CA3 yn fawr ac yn rhwystro gwaith grŵp effeithiol ac felly'n gostwng safonau.

Yn CA4, bydd y disgyblion yn astudio craidd o Saesneg, Cymraeg, gwyddoniaeth, mathemateg, dylunio a thechnoleg, gemau ac ABCh. Y mae'r olaf yn cynnwys addysg grefyddol, addysg yrfaoedd, addysg gorfforol a TGCh, ond nid yw'r rhaglen lawn ar gael i'r disgyblion sy'n astudio Almaeneg. Ymhellach, y mae'r disgyblion sy'n astudio Almaeneg yn mynychu dwy wers ar ôl ysgol, ond yn ystod yr amser hwn byddant hefyd yn cael y cyfle i ennill cymhwyster yn TGCh. Yn ychwanegol, y mae disgyblion CA4 yn dewis o dri bloc opsiwn lle y cynigir ystod eang o bynciau. Yn B10, gall y disgyblion astudio peirianneg, sydd mewn dau floc opsiwn. Cyflwynir y cwrs gan ddarparwr allanol. Caiff y disgyblion gyfle i optio i astudio iechyd a gofal cymdeithasol ac y mae hyn hefyd mewn dau floc opsiwn yn CA4. Y mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn astudio gwyddoniaeth ddwbl ond y mae'r cyfleusterau'n bod i'r mwyaf galluog ohonynt astudio tair gwyddoniaeth ar wahân.

Y mae ansawdd y cynllunio i ddatblygu sgiliau allweddol yn CA3 a CA4 yn dda iawn. Ceir bod polisïau ysgol-gyfan a chynhwysir y cynllunio yng nghynlluniau gwaith pob adran ymron. Y mae'r trefniadau ar gyfer ABCh hefyd yn dda ac y mae'r cyrsiau hyn yn rhoi i'r disgyblion brofiadau a chyfleoedd gwerthfawr. Caiff yr holl ddisgyblion yn B10 gyfleoedd profiad gwaith da.

Y mae effeithiolrwydd y ddarpariaeth gwricwlaidd yn dda ac y mae gan bob adran gynlluniau gwaith priodol a da ac sy'n dilyn argymhellion yn glòs. Y maent yn cynnwys gwaith gwahaniaethedig i ddisgyblion o wahanol alluoedd yn briodol. Ceir cysylltiadau da gyda'r ysgolion cynradd cyfrannol. Gosodir gwaith cartref yn briodol yn y rhan fwyaf o bynciau, ond ni fydd pawb o'r staff yn cadw at yr amserlen gwaith cartref. Y mae gosod gwaith cartref yn amrywio o fewn adrannau.

Y mae'r gweithgareddau allgyrsiol yn gwella datblygiad y disgyblion yn foddhaol. Y mae'r adran gerddoriaeth yn rhedeg band offerynnau chwyth, grŵp pres, grŵp llinynnau ac ensemble yn ogystal â chôr B7 a chôr y merched hŷn. Darperir hyfforddiant lleisiol ac offerynnol o ansawdd dda i un o bob wyth disgybl ar gofrestr yr ysgol, ac ynghyd â nifer o grwpiau allgyrsiol o safon dda y mae hyn yn cyflenwi gwaith yr adran gerddoriaeth. Gwnânt gyfraniad gwerthfawr i fywyd yr ysgol a'r gymuned. Cynhelir cyngherddau yn lleol ac y mae'r eisteddfod ysgol yn achlysur mawr yng nghalendr yr ysgol. Trefnir clybiau pwnc yn ôl y galw i roi cyfle i'r disgyblion wella eu perfformiad yn yr arholiadau allanol. Ceir amryw o dimoedd ysgol. Y mae'r rhain, yn enwedig timau merched, yn ennill llwyddiant eithriadol yn lleol ac yn genedlaethol yn rheolaidd. Y mae disgyblion unigol hefyd wedi ennill anrhydedd yn lleol ac yn genedlaethol mewn chwaraeon. Trefnir ymweliadau gan yr adrannau yn ôl y galw i wella cyfleoedd cwricwlaidd y disgyblion.

Y mae'r ddarpariaeth a wneir ar gyfer y disgyblion y mae'r CC wedi'i addasu yn eu hachos yn dda ac y mae'n dda iawn ar gyfer y rheiny y mae'r CC wedi'i ddatgymhwyso yn eu hachos.

5.4 Cymorth, Cyfarwyddyd a Lles y Disgyblion

Y mae ansawdd y cymorth a roddir i'r disgyblion yn dda. Y mae ethos gofalgar yr ysgol yn adlewyrchu'r cefndir cymdeithasol a diwylliannol y mae'n ei wasanaethu. Y mae'r berthynas rhwng y staff a'r disgyblion yn dda yn gyffredinol. Y mae'r staff bob amser yn barod i roi amser i gynorthwyo'r disgyblion gydag anawsterau personol neu academaidd.

Y mae gan yr ysgol system fugeiliol eglur ei diffiniad a reolir gan bennaeth cynorthwyol. Sefydlwyd tîm newydd o benaethiaid blwyddyn i weithio o fewn arferion a gweithdrefnau a gynlluniwyd yn ofalus iawn. Y mae yn yr ysgol weithiwr ieuenctid llawn-amser sydd â rôl cynghori, a gwerthfawrogir hynny'n fawr gan y disgyblion. Cyflwynwyd nifer o flaengareddau i gynorthwyo'r disgyblion, megis y rhaglen roi'r gorau i ysmygu a phrosiect ysgol-gyfan gyffredinol cadw'n heini a iach.

Y mae'r cysylltiadau â'r ysgolion cynradd yn hen sefydlog, ac y maent yn sicrhau trosglwyddiad esmwyth a llyfn o ddisgyblion i B7. Y mae'r ysgol wedi cymryd camau i godi proffil y tiwtor dosbarth. Y drefn hon sydd wrth wraidd y broses fugeiliol, yn defnyddio'r dyddiadur cyswllt a'r system gymeradwyo, yn monitro cynnydd ac yn cyfrannu yng nghyflwyniad y rhaglen sgiliau personol. Cyflwynir y rhaglen fugeiliol (rhan o'r rhaglen ABCh ehangach) mewn sesiwn hanner awr yn wythnosol i gyfrannu tuag at ddatblygiad personol y disgyblion. Yn CA3 a CA4, y mae'r rhaglen yn cynnwys pum maes, sy'n cynnwys gweithgareddau'r cyngor ysgol, hybu ymddygiad positif, sgiliau astudio, gweithio gydag eraill a dinasyddiaeth a chofnodi ac adrodd. Y mae'r rhaglenni wedi

gwneud cyfraniad sylweddol wrth gwrdd ag anghenion a gobeithion y disgyblion ac y maent yn pwysleisio'r gwerth a roddir ar y disgybl fel person.

Cyflenwir y rhaglen fugeiliol yn CA3 gydag awr o ABCh bob pythefnos. Y mae'r rhaglen hon yn cynnwys addysg rhyw a chyd-berthnasu, y camddefnydd o sylweddau, ac addysg iechyd a gyrfaol. Trefnir y rhaglen yn dda gan y cyd-drefnydd ac y mae'n unol â Fframwaith a Chyfarwyddyd ABCh Awdurdod Cymwysterau, Cwricwlwm ac Asesu Cymru (ACCAC). Addysgir y rhaglen ABCh gan staff ddynodedig sy'n addysgu grwpiau blwyddyn penodol. Fe'u cynorthwyir gan arbenigwyr a ddaw i mewn i gyflwyno addysg rhyw a'r camddefnydd o sylweddau. Yn CA4, y mae'r rhaglen yn ffurfio rhan o amserlen gylchdröol yn cynnwys TGCh, addysg yrfaol ac addysg gorfforol. Gwneir defnydd da iawn o siaradwyr gwâdd ac arbenigwyr megis y nyrs, swyddog cyswllt yr heddlu cyswllt a'r heddlu cymunedol.

Bydd grŵp aml-asiantaeth yn cwrdd yn rheolaidd i drafod y disgyblion y bernir eu bod 'mewn perygl' o ran eu hymddygiad, eu presenoldeb a'u cynnydd academaidd. Bydd y grŵp yn dynodi disgyblion unigol ac yn ffurfio strategaeth i'w cynorthwyo a'u rhieni er mwyn datrys yr anawsterau a gânt.

Y mae'r ddarpariaeth addysg a chyfarwyddyd gyrfaoedd yn dda, ac y mae yn ddiweddar wedi'i hadolygu'n unol â chyfarwyddyd a fframwaith Addysg Gwaith-gysylltiedig ACCAC. Y cyd-drefnydd addysg a chyfarwyddyd gyrfaoedd sy'n rheoli'r rhaglen. Y mae disgyblion CA3 yn cael addysg a chyfarwyddyd gyrfaoedd yn rhan o'r rhaglen ABCh y dyrennir iddi un awr bob pythefnos. Bydd disgyblion CA4 yn derbyn addysg a chyfarwyddyd gyrfaoedd yn rhan o'r rhaglen ABCh garwsél y dyrennir iddi hanner awr bob pythefnos. Cyflwynir rhai agweddau yn weithgareddau pryd yr atelir yr amserlen, megis gêm go iawn, mynd i'r gwaith, cyflogadwyedd/sgiliau/diwrnod cyfweliad, amser dewis a chynhyrchiad theatr ar opsiynau ôl-16. Rhoddir cyfarwyddyd manwl i B9 parthed eu dewisiadau o bynciau. Cynorthwyir yr ysgol yn dda iawn gan staff Gyrfaoedd Cymru'r Gorllewin.

Caiff disgyblion B10 eu paratoi'n drwyadl ar gyfer y pum niwrnod o brofiad gwaith sy'n brofiad cadarnhaol iawn i'r holl ddisgyblion sy'n cymryd rhan. Y mae rhaglen gynhwysfawr yn paratoi myfyrwyr ar gyfer bywyd ar ôl 16 a bydd yr holl ddisgyblion o B11 yn cael cyfweliad gyda staff Gyrfaoedd Cymru'r Gorllewin. Sicrheir bod pob gwybodaeth a chyfarwyddyd posibl ar gael i'r disgybl gael trosglwyddiad esmwyth i mewn i fyd gwaith neu addysg bellach. Gwneir defnydd helaeth o siaradwyr gwâdd, yn enwedig nyrs yr awdurdod lleol, yr heddlu, pobl fusnes lleol ac eraill sydd â sgiliau arbenigol. Trefnir rhaglen lawn o ffug gyfweliadau bob blwyddyn gan ddefnyddio sgiliau pobl fusnes lleol ac aelodau'r Clwb Rotari lleol. Y mae'r ysgol yn cymryd rhan mewn amrywiol flaengareddau megis y prosiect Dynamo.

Y mae gan yr ysgol bolisi manwl ar amddiffyn plant sydd yn cydymffurfio â Chylchlythyr 52/95. Gwneir darpariaeth ar gyfer plant a warchodir gan yr awdurdod lleol, a gweithredir yn llawn y gweithdrefnau parthed cynhyrchu ac adolygu cynlluniau gofal. Y mae'r polisïau a'r gweithdrefnau ar gyfer sicrhau iechyd a diogelwch y disgyblion yn dda a cheir bod polisïau manwl ar gyfer iechyd a diogelwch ac asesu perygl. Adroddwyd wrth y pennaeth am ychydig o faterion iechyd a diogelwch y sylwyd arnynt yn yr arolygiad.

5.5 Darpariaeth ar gyfer Disgyblion ag AAA

Y mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag AAA yn dda.

Gwna disgyblion ag AAA gynnydd da a chyflawnant yn dda ar draws y cwricwlwm yn y ddau gyfnod allweddol. Yn gyfredol, y mae 29 o ddisgyblion â datganiadau AAA; y mae'r CC wedi'i addasu'n briodol yn achos 11 ohonynt. Yn ychwanegol, y mae 110 o ddisgyblion ar y gofrestr AAA ar gamau amrywiol o'r Côd Ymarfer, yn estyn o Weithredu Ysgol i Weithredu Ysgol a mwy a wellwyd.

Y mae'r ysgol yn ysgol benodedig ar gyfer disgyblion ag anabledd corfforol, ac y mae ganddi bolisi anghenion arbennig manwl; y mae hynny'n esgor ar arfer dda, ac y mae'r holl ddisgyblion ag AAA yn cael mynediad i gwricwlwm eang a chytbwys. Ceir bod strategaethau effeithiol iawn ar gyfer asesu cynnar ac ymyrraeth gadarnhaol.

Cefnogir rôl y cydlynydd AAA a'i dîm yn gadarn gan y pennaeth a'r rheolwr atebol effeithlon, a datblygwyd rôl fonitro'r adran yn dda. Y mae'r cydlynydd AAA yn rhoi arweiniad da i'r athrawon cynorthwyol a'r cynorthwywyr cymorth dysgu (CCD) y bydd yn eu cyfarfod yn bythefnosol. Y mae'n gallu defnyddio ei amser nid yn unig i addysgu'n uniongyrchol ond hefyd i fonitro cynnydd disgyblion unigol a chysylltu gyda'r ysgolion cynradd cyfrannol ac asiantaethau allanol. Bydd yn

casglu data am y nifer o ddisgyblion ym mhob grŵp blwyddyn sydd ar gamau gwahanol y Côd Ymarfer newydd. Bydd hefyd yn rhoi mewnbwn yn rheolaidd yng nghyfarfodydd bwrdd academaidd yr ysgol a chyfarfodydd y llywodraethwyr, ac yn sicrhau bod yr holl staff a'r llywodraethwyr yn ymwybodol o'r datblygiadau diweddaraf yn y maes hwn. Rhydd y llywodraethwr sydd â chyfrifoldeb am AAA gymorth da i'r adran.

Y mae'r gofrestr AAA yn cael ei diweddaru bob hanner tymor, ac fe ddengys fod monitro gofalus yr ysgol yn golygu bod disgyblion yn cael eu hychwanegu arni a'u tynnu oddi arni yn rheolaidd ac yn gwbl briodol.

Yn ychwanegol i'r cydlynydd AAA, ceir dau athro cefnogi y mae eu gwaith o gynorthwyo disgyblion unigol a grwpiau bach yn sgiliau sillafu a darllen (yn y ddwy iaith) yn dda iawn.

Ceir athrawon cyswllt ym mhob adran bwnc. Y mae hyn yn sicrhau cydweithrediad clòs rhwng yr adran AAA a phob adran arall. Y mae'r tîm anghenion arbennig wedi cytuno ar nodau i dargedu cymorth disgyblion yn effeithiol ac i fonitro'n rheolaidd gynnydd pob disgybl ag AAA a addysgir yn nosbarthiadau'r brif ffrwd.

Y mae'r ysgol yn awyddus iawn i gwrdd â hawl pob disgybl i'r cwricwlwm yn llawn, ac y mae'r ystod eang o strategaethau addysgu a dysgu a ddefnyddir yn cael dylanwad cadarnhaol ar berfformiad y disgyblion. Ceir hefyd fod gan yr ysgol ymroddiad cryf i gynhwysedd er ei bod yn gwneud defnydd effeithiol hefyd o'r arfer o ymneilltuo disgyblion a grwpiau bach er mwyn iddynt gael cymorth ychwanegol yn ôl yr angen.

Bydd yr athrawon ym mhob adran yn cael gwybodaeth lawn am CauAU y disgyblion a bydd y rhan fwyaf ohonynt yn gwneud defnydd da ohoni wrth gynllunio gwaith y disgyblion. Gwneir sylwadau diagnostig eglur am anawsterau disgyblion unigol a dynodir nodau dysgu priodol. Gosodir targedau yn ystyriol ar gyfer gwelliant a bydd sawl adran yn ychwanegu targedau pwnc-benodol yn y CauAU. Gwneir defnydd effeithiol o waith gwahaniaethedig a defnydd llawn o'r adnoddau sydd ar gael.

Y mae yn yr ysgol 16 o staff cymorth dysgu (CCD) yn cynnwys pedwar aelod staff â chymwysterau NNEB. Y mae'r rhain yn gwneud cyfraniad positif a phositif iawn weithiau yng nghynnydd y disgyblion. Bydd rhai cynorthwywyr cymorth dysgu yn darparu 'Amser Cylch' bob pythefnos i'r disgyblion sydd â datganiad o AAA. Y mae'r sesiynau hyn yn fforwm effeithiol iawn i'r disgyblion roi llais i'w pryderon ac i ddangos cefnogaeth i'w gilydd drwy waith datblygiadol.

Ariennir y staff cymorth dysgu gan yr AU yn bennaf i gynorthwyo disgyblion â datganiadau. Y mae'r cymorth a rydd y CCD i'r cyfryw ddisgyblion yn glir ei annél ond nid yn ymwthiol a lle bynnag y bo'n bosibl byddant yn rhoi cymorth i ddisgyblion eraill yn y dosbarth, ac y mae hynny'n help i'r disgyblion â datganiadau beidio â bod yn or-ddibynnol arnynt am gymorth. Y mae gwaith da y CCD yn hyrwyddo mynediad y disgyblion i bob agwedd o'r cwricwlwm drwy addasu deunyddiau darllen a rhoi cymorth i'r disgyblion parthed ysgrifennu nodiadau a deall cyfarwyddiadau gwaith cartref. Byddant yn rheolaidd yn rhannu gwybodaeth gydag athrawon dosbarth am y gweithgareddau y buwyd yn ymgymryd â hwy gyda'r disgyblion ac yn archwilio eu hanawsterau a'u cynnydd. Y mae'r ysgol yn cynorthwyo pedwar CCD i ennill cymwysterau proffesiynol drwy ryddhad undydd i fynd i'r y coleg addysg bellach lleol.

Yng ngolwg yr ysgol, y mae datblygu llythrennedd y disgyblion yn fater creiddiol, a chyd-drefnir y systemau dysgu unigol (SDU) newydd ei sefydlu gan NNEB. Y mae'r cyfle a gaiff disgyblion i dreulio cyfnodau byr i weithio ar raglen ddysgu drwy gymorth cyfrifiadur sawl gwaith yr wythnos eisoes yn amlygu canlyniadau cadarnhaol yng nghyfnerthiad eu sgiliau llythrennedd a rhifedd.

Yn ychwanegol, ceir cynllun *Cyfeillion* a gyd-drefnir gan un o'r tîm AAA; yn y cynllun hwn bydd myfyrwyr B12 yn gwirfoddoli i gynorthwyo disgyblion iau yn ystod un o'r cyfnodau bugeiliol boreol. Dywed y disgyblion sy'n derbyn y cymorth ychwanegol hwn eu bod yn mwynhau gweithio gyda disgyblion hŷn, ond nid yw bob amser yn bosibl gwarantu bod pob gwirfoddolwr o B12 ar gael pan fyddant wedi eu hamserlennu i gynorthwyo.

Y mae gan yr ysgol gysylltiadau da â'r AU a sawl asiantaeth allanol arall. Y mae cydweithrediad Gyrfaoedd Cymru'r Gorllewin yn arbennig o effeithiol, yn enwedig wrth drosglwyddo o CA3 i CA4, a bydd cynrychiolydd o'r coleg addysg bellach hefyd yn mynychu y cyfarfodydd trosglwyddo hyn i sicrhau bod pob cyfle addysgol posibl a all fod o fudd i'r disgyblion yn cael ei archwilio. Caiff

disgyblion ag AAA gyfleoedd da i gael profiad gwaith yn B10 ac weithiau yng nghwmni CCD dynodedig.

Y mae ansawdd y cysylltiad â'r ysgolion cynradd cyfrannol a gynhelir gan y pennaeth a phennaeth B7 yn dda iawn. Bydd yr adran AAA yn gweithio'n agos gyda disgyblion a staff B5 a B6 yn yr ysgolion cynradd cyfrannol i sicrhau bod y trosglwyddo i'r cyfnod uwchradd mor llyfn â phosibl. Gwahoddir disgyblion B5 a B6 i ymweld â'r ysgol gyda'u CCD am sesiwn fore neu fwy i gynefino gyda'r amgylchedd a gweld pa fath ddarpariaeth sydd ar gael.

Ceir bod cysylltiadau da gydag athrawon arbenigol y sir, swyddog mudoledd y sir (sy'n cynorthwyo disgybl dall) a'r tîm Cymorth Teulu, sydd oll yn rhoi mewnbwn gwerthfawr i waith yr ysgol. Ceir bod cydweithrediad da hefyd gyda seicolegydd addysgol, ac y mae pediatryddon wedi rhoi cymorth da i'r ysgol wrth ddelio â phroblemau meddygol y disgyblion.

Y mae'r cydweithrediad rhwng yr ysgol, rhieni maeth ac amryw adrannau'r Gwasanaethau Cymdeithasol parthed '*Looked after Children' (LAC*) yn dda iawn, ac yn sicrhau bod y cyfryw blant yn cael y cymorth dysgu a bugeiliol gorau posibl yn ystod eu harhosiad yn yr ysgol.

5.6 Partneriaeth gyda Rhieni a'r Gymuned, Ysgolion a Sefydliadau Eraill

Y mae'r bartneriaeth â'r gymuned lleol, yr ysgolion cynradd cyfrannol ac asiantaethau allanol eraill yn dda iawn. Y mae'r bartneriaeth â'r rhieni a sefydliadau hyfforddiant cychwynnol athrawon yn dda.

Rhydd yr ysgol bwyslais mawr ar hybu partneriaeth ysgol-cartref glòs. Fe rydd wybodaeth gynhwysfawr dda iawn i'r rhieni yn cynnwys pamffledyn ysgol da ei ddyluniad, llyfryn croeso i ddisgyblion B6 a llyfryn i gynorthwyo disgyblion B7 mewn llythrennedd. Cynhyrchir dyddiadur o ddigwyddiadau ysgol yn rheolaidd ynghyd â chylchlythyr yn dymhorol. Nodwedd arbennig yw cynhyrchiad y cylchgrawn ysgol, *'Y Ddolen',* a noddir gan fusnesau lleol. Y mae'r ysgol yn cadw mewn cysylltiad â'r holl rieni yn rheolaidd a chynhwysir y cytundeb cartref-ysgol yn nyddiaduron cyswllt y disgyblion. Y mae adroddiad blynyddol y llywodraethwyr i'r rhieni yn gynhwysfawr ac yn llawn gwybodaeth, yn estyn y tu hwnt i'r eitemau penodol gofynnol.

Yn ychwanegol i nosweithiau'r rhieni, nosweithiau agored a sefydlu, perfformiadau'r ysgol a digwyddiadau gyrfaol, caiff y rhieni groeso bob amser i drefnu cyfweliad i drafod gwaith eu plant. Y mae'r rhieni a'r gwarchodwyr yn gefnogol iawn i'r holl weithgareddau hyn a bydd sawl un ymhlith y rhieni yn helpu gyda threfniadaeth clybiau ar ôl ysgol a threfnu lleoliadau profiad gwaith i ddisgyblion, gweithgareddau gwyliau, paratoi ar gyfer cystadlaethau a pherfformiadau ysgol, ond ar hyn o bryd nid oes cymdeithas rhieni-athrawon. Dengys ymateb y rhieni i'r holiadur cyn-arolwg fod nifer sylweddol ohonynt yn anfodlon gyda rhai materion yn ymwneud â threfniadaeth yr ysgol, yn enwedig ymddygiad y disgyblion, gwerthoedd ac ymagweddau'r ysgol, a'u bod yn teimlo na chânt unrhyw anogaeth i gymryd rhan weithredol ym mywyd yr ysgol.

Y mae'r bartneriaeth â'r gymuned yn dda iawn ac yn nodwedd arbennig o waith a bywyd yr ysgol. Y mae calendr digwyddiadau'r ysgol, yr arddangosfeydd o gwmpas y coridorau a manylion a gynhwysir yn y wasg lleol, yn amlygu ystod eang cyfranogiad y disgyblion ym mywyd y gymuned. Y mae digwyddiadau ysgol megis yr eisteddfod, cynhyrchiadau cerddorol, dawns a drama yn boblogaidd gyda'r rhieni ac aelodau o'r cyhoedd. Y mae partneriaeth agos hefyd â phensiynwyr y dref, a threfnir cyngerdd a the iddynt yn yr ysgol yn flynyddol. Gwahoddir amryw bartïon o'r ysgol i berfformio yn nigwyddiadau diwylliannol a dinesig ar draws y sir yn aml. Bydd disgyblion hefyd yn ymweld â sefydliadau lleol megis ysbytai, canolfannau dydd a chartrefi preswyl.

Ceir bod cysylltiadau da â Gyrfaoedd Cymru'r Gorllewin sy'n cynorthwyo disgyblion i ddatblygu gwybodaeth a sgiliau priodol. Hefyd, ceir cydweithredu clòs gyda sawl asiantaeth gymorth yr awdurdod lleol. Bydd llawer o aelodau'r gymuned, gan gynnwys pobl fusnes lleol, asiantaethau gwirfoddol ac elusennol, beirdd, artistiaid a cherddorion lleol, y gwasanaeth tân, yr heddlu a'r lluoedd arfog yn rhannu eu harbenigedd gyda'r disgyblion a'r staff ac yn rhoi cymorth da i'r ysgol yng nghyflwyniad rhaglenni gyrfaol, a'r rhaglen ABCh personol.

Gwna'r ysgol ddefnydd da iawn o gyfleusterau sydd yn y dref a'r ardal o gwmpas, yn cynnwys capeli ac eglwysi lleol, y Neuadd Goffa a lleoliadau perfformio eraill. Yn ogystal â pherfformio yn yr ysgol bydd y disgyblion hefyd yn cefnogi grwpiau dawns a theatraidd eraill. Bydd y gymuned yn gwneud

defnydd helaeth o gyfleusterau ac adnoddau'r ysgol ar gyfer ymarfer cerddorol, dosbarthiadau nos, gweithgareddau mudiadau gwirfoddol, clwb ieuenctid lleol a chymdeithasau chwaraeon.

Cymeradwyir yr ysgol am ei hymdrechion i godi symiau sylweddol o arian ar gyfer ystod o elusennau lleol a chenedlaethol drwy gydol y flwyddyn. Achlysur codi arian o bwys mawr a drefnir gan yr ysgol yw'r daith gerdded noddedig sy'n codi dros ddeng mil o bunnoedd a bydd yr ysgol a'r disgyblion yn derbyn cefnogaeth hael rhieni, cyfeillion a busnesau lleol yn y fenter.

Y mae'r cysylltiadau bugeiliol ac eraill gyda'r ysgolion cynradd cyfrannol yn dda iawn, ac y mae cyfnerthu pellach o drefniadau parhad a chynnydd o CA2 i CA3 yn para i fod yn flaenoriaeth ddatblygol yng ngolwg yr ysgol. Trefnir rhaglen strwythuredig o ddigwyddiadau ar gyfer disgyblion B6 o'r 17 o ysgolion cynradd cyfrannol er mwyn iddynt ymgyfarwyddo â'r ysgol. Y mae'n cynnwys ystod o gyfleoedd ar gyfer deialogau agored rhwng y staff. Dylunnir pecynnau croeso a iaith dda i'r disgyblion a'r rhieni. Rhoddir gwybod i'r ysgolion am gynnydd eu disgyblion blaenorol yn B7. Y mae'r cysylltiadau rhwng penaethiaid a staff arall yr ysgol uwchradd a'r ysgolion cynradd yn datblygu'n dda iawn. Nodwedd dda iawn yw'r gweithgor sy'n gweithredu cynllun tair blynedd ar gyfer cynnydd o CA2 i CA3. Bydd staff hŷn ac athrawon pwnc eraill yn cymryd rhan yn weithredol yn y cysylltiadau cwricwlaidd, yn enwedig yn y pynciau craidd. Yn dilyn penodiad athrawon cyswllt CA2/3, datblygwyd prosiectau mathemategol a ieithyddol yn llwyddiannus a chwblhawyd unedau pontio yn y pedwar pwnc craidd.

Ceir bod trefniadau partneru da rhwng yr ysgol a hyfforddiant cychwynnol athrawon ym Mhrifysgol Aberystwyth. Ceir rhaglen sefydlu fanwl ei pharatoad, mentora, adborth a threfniadau adrodd da i'r myfyrwyr ar draws sawl maes pwnc.

5.7 Partneriaeth gyda Diwydiant

Y mae'r trefniadau partneru sy'n bod gyda diwydiant yn dda ac yn gwneud cyfraniad da i'r ddarpariaeth gwricwlaidd ac i wybodaeth a dealltwriaeth y disgyblion o fyd gwaith.

Y mae'r ysgol eto i gyflwyno polisi ysgol-gyfan parthed addysg gwaith-gysylltiedig ac nid oes ganddi strategaeth gyd-drefnedig i'r staff ei weithredu. Serch hynny, y mae ystod eang o gysylltiadau a gweithgareddau yn bod gyda'r byd gwaith. Ni chafodd un o'r staff brofiad lleoliad ym myd gwaith, ond y mae rhai athrawon wedi cael profiad o ddiwydiant cyn dod yn athrawon.

Y mae'r ysgol yn gweithio tuag at ennill Dyfarniad Ansawdd Gyrfaoedd Cymru. Y mae gan rai meysydd pwnc, yn arbennig dylunio a thechnoleg, peirianneg, ieithoedd tramor modern ac astudiaethau galwedigaethol gysylltiadau da â byd gwaith sy'n gwella gwybodaeth y disgyblion o ddiwydiant a masnach yn fawr. Y mae disgyblion ar draws sawl grŵp blwyddyn ynghlwm wrth ymweliadau, gwaith prosiect, cystadlaethau lleol a chenedlaethol a gwobrau am ddyfeisiadau arloesol. Y mae'r holl weithgareddau hyn yn galluogi'r disgyblion i ehangu sylfaen eu sgiliau a dyfnhau eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o gysyniadau a phrosesau byd gwaith.

Ceir bod cysylltiadau clòs gydag ystod o fusnesau diwydiannol a masnachol yn y sir. Rhoddant gymorth i'r ysgol yn y cyfnodau codi ymwybyddiaeth o ddiwydiant yn B8, sesiynau Mynd i'r Gwaith yn B9, rhaglen brofiad gwaith yn B10 a chyfweliadau ffug yn B11. Nodwedd dda yw'r cytundeb gyda phobl feddygol broffesiynol Ysbyty Aberystwyth.

Trefnir a gweithredir rhaglen brofiad gwaith B10 yn effeithiol iawn. Ceir trefniadau partneriaethol da gyda Gyrfaoedd Cymru'r Gorllewin a gwneir defnydd da o raglenni busnes-addysg megis Menter yr Ifanc a Phrosiect Dynamo. Bydd y disgyblion yn cymryd rhan hefyd yng nghynllun addysg beirianneg Cymru.

6. RHEOLAETH

6.1 Ansawdd hunan-werthuso a Chynllunio ar gyfer Gwelliant

Y mae cwmpas a chynllunio gweithdrefnau gwerthuso'r safonau a gyflawnwyd ac ansawdd darpariaeth yr ysgol yn dda. Serch hynny, boddhaol yw ystod a natur y nodau a osododd yr ysgol iddi ei hun wrth ymateb i'w hunan-werthusiad. Hyd yma, nid oes diwylliant hunan-werthusol gyda strategaethau clir ar gyfer gwelliant wedi'i sefydlu'n ddigon cadarn drwy'r ysgol gyfan.

Yn dilyn yr arolygiad diwethaf, lluniwyd cynllun gweithredu manwl. Gwnaeth yr ysgol gynnydd da wrth drin rhai o'r materion a ddynodwyd ar gyfer eu gweithredu yn adroddiad yr arolygiad hwnnw, ond y mae eraill yn feysydd sy'n aros am ddatblygiad pellach.

Y mae adroddiad hunan-werthusiad yr ysgol yn ddogfen sylweddol a luniwyd drwy gasglu gwybodaeth o ystod o ffynonellau.

Coledir perfformiad yr ysgol yn y profion a'r arholiadau allanol a'i ddadansoddi'n drylwyr gan bennaeth cynorthwyol. Archwilir y canlyniadau'n fanwl, deuir i gasgliadau a gosodir targedau. Byddir yn delio â materion yn onest ac yn realistig, ac y mae'r ysgol yn cymryd camau i wella a chywiro'r mannau lle y dynodwyd diffygion. Rhoddir pwyslais arbennig ar y dirywiad ym mherfformiad y bechgyn dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Y mae adroddiad yr ysgol yn fanwl ddadansoddol ac yn realistig parthed y mater hwn, ac yn dynodi cryfderau a meysydd i'w gwella ac yn gosod targedau.

Byddir yn archwilio ansawdd yr addysgu a'r dysgu mewn amryw ffyrdd, gan gynnwys monitro gwaith y disgyblion, monitro gwersi a gwerthuso unedau addysgu. Cesglir llyfrau'r disgyblion gan yr adrannau, eu harchwilio a'u rhoi i'r uwch dîm rheoli (UDRh) i'w gwirio ymhellach. Ysgrifennir adroddiad a thrafodir y canfyddiadau gydag athrawon unigol. Anogir penaethiaid adrannau i arsylwi ar wersi a gyflwynir gan aelodau eraill eu hadrannau. Y mae rhai adrannau wedi meithrin diwylliant hunan-werthusol a byddant yn arsylwi ar wersi. Bydd llawer o'r adrannau yn gwerthuso eu cynlluniau gwersi ac yn eu haddasu yn ôl y galw. Y mae adrannau eraill yn y broses o weithredu gweithdrefnau hunan-werthuso neu yn graddol dderbyn bod angen iddynt weithredu eu polisïau'n drwyadl. Yn Chwefror, gofynnwyd i'r adrannau arolygu ansawdd yr addysgu yn eu hadrannau ynghyd â materion yn ymwneud â'u hystafelloedd a'u hadnoddau. Y mae'r ysgol wedi symud yn ei blaen parthed y mater hwn ond y mae peth ffordd i fynd eto i sicrhau cysondeb ymarfer.

Yn ddiweddar, defnyddiodd yr ysgol holiadur a luniwyd gan yr AU am ddulliau addysgu er mwyn cael barn disgyblion. Rhoes hynny adborth gwerthfawr am yr arddulliau addysgu ffafriedig. Dosbarthwyd y wybodaeth hon ymhlith y staff.

Y mae effeithiolrwydd y cynllunio ar gyfer datblygiad a'r gosod o dargedau yn dda, ond boddhaol yw gweithrediad y monitro. Y mae gan yr ysgol gynlluniau datblygu blynyddol a thymor-canol ers 1998. Bydd y pennaeth yn adrodd am gynnydd i'r llywodraethwyr bob tymor a gwerthusir y cynllun yn flynyddol gan y llywodraethwyr a byddir yn gwirio cynnydd yn erbyn targedau. Y mae'r cynlluniau yn realistig a heriol.

Sefydlwyd y cyngor ysgol iau (disgyblion CA3) a'r cyngor ysgol hŷn (disgyblion CA4 a myfyrwyr y chweched dosbarth) fis Medi diwethaf a byddant yn cyfarfod bob pythefnos. Codir materion yn y cyfnodau tiwtoraidd gyda'r athro dosbarth a bydd cynrychiolwyr yn eu dwyn ymlaen i'w trafod yn y cynghorau. Y mae materion a godir yn cynnwys argaeledd cadeiriau yng ngwasanaethau'r disgyblion iau a darparu meinciau ar gyfer y disgyblion yn yr awyr agored yn ystod yr egwyl ac amser cinio. Weithiau bydd yr UDRh yn gofyn i'r cyngor ysgol drafod materion er mwyn cael gwybod eu safbwyntiau a chael awgrymiadau ar gyfer datrys problemau. Y mae hyn yn ddatblygiad positif ac yn rhoi cyfle i'r disgyblion gyfranogi yn y broses o wneud penderfyniadau.

6.2 Arweinyddiaeth ac Effeithlonrwydd

Y mae ethos gofalgar a chefnogol yn yr ysgol sy'n adlewyrchu'r cefndir diwylliannol y mae'n ei wasanaethu. Y mae'r ysgol yn cael ei harwain a'i rheoli'n foddhaol. Y mae'r pennaeth, y staff a'r llywodraethwyr yn ymroi i sicrhau bod y disgyblion yn llwyddo ac yn cyflawni eu potensial.

Y mae'r corff llywodraethol yn cymryd diddordeb gweithredol ym mywyd a gwaith yr ysgol. Y mae ganddo strwythur priodol o bwyllgorau a chynhelir cyfarfodydd o'r corff llywodraethol llawn i wneud penderfyniadau. Dengys cofnodion y cyfarfodydd hyn fod yr aelodau yn rhoi sylw trwyadl a phriodol i adroddiadau, adolygiadau a chyflwyniadau y pennaeth, aelodau'r staff ac asiantaethau allanol. Yn ddiweddar, cysylltwyd aelodau o'r corff llywodraethol ag adrannau unigol i'w galluogi i ymwneud yn fwy uniongyrchol â phroses hunan-werthuso'r ysgol a rhoi mewnbwn i'r broses honno.

Y mae'r tîm arweinyddiaeth yn cynnwys y pennaeth, un dirprwy bennaeth a thri phennaeth cynorthwyol. Penodwyd y pennaeth yn 1995 yn dilyn ei chyfnod yn ddirprwy bennaeth ers 1984. Y mae'r dirprwy bennaeth cyfredol yn aelod profiadol o'r tîm rheoli, wedi bod yn y swydd am ddwy flynedd ar bymtheg. Penodiadau diweddar yw'r tri phennaeth cynorthwyol, er eu bod wedi bod ar

staff yr ysgol am gyfnod sylweddol. O ganlyniad i ail-strwythuro'r UDRh, ail-ddiffiniwyd cyfrifoldebau aelodau'r tîm fel bod ar hyn o bryd ddetholiad o gyfrifoldebau adrannol, goruchwylio materion ysgol-gyfan a chysylltiadau gwahanol systemau trefniadaethol. Er gwaethaf y strwythur rheoli diffiniedig, nid yw'r goruchwylio na'r monitro ar lefel y pennaeth a'r UDRh yn ddigon manwl i sicrhau gweithrediad cyson ac effeithiol y polisïau, yr arferion a'r gweithdrefnau ysgol-gyfan.

Y mae dull yr ysgol o gynllunio i'r dyfodol yn hen sefydlog. Y mae'r UDRh yn arf effeithiol i gynllunio a chyfarwyddo datblygiadau ysgol-gyfan. Datblygir cynlluniau drwy'r staff a'r UDRh cyn eu cyflwyno ar ffurf drafft i'r corff llywodraethol. Y mae'r broses yn cynnwys adolygiad blynyddol sy'n cwmpasu cynlluniau datblygu ysgol ac adran a hefyd yn cymryd i ystyriaeth Gynllun Strategol Addysg yr AU. Mireinir y broses ymhellach gan adolygiadau adrannol gydag aelodau'r UDRh, ynghyd ag archwiliadau adrannau unigol.

Y mae ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth yr adrannau yn amrywiol. Y mae gan y rhan fwyaf o'r adrannau ymwybyddiaeth o'r hyn y mae angen ei wneud i sicrhau cynnydd a gwelliant, ond ceir anghysondeb arferion o fewn ac ar draws adrannau. Arweinir adrannau technoleg gwybodaeth, dylunio a thechnoleg, daearyddiaeth ac addysg grefyddol yn dda iawn, a cheir nodweddion da yn arweinyddiaeth yr adrannau hanes, Saesneg, mathemateg ac yn y meysydd galwedigaethol. O fewn yr adrannau hyn, rhennir arfer dda a rheolaeth ac arweinyddiaeth effeithlon, a chaiff hynny ddylanwad eglur ar y safonau cyflawni da ac weithiau da iawn. Mewn adrannau eraill, nid oes eto ddiwylliant o gyfrifoldeb corfforaethol digon cadarn, yn enwedig ym maes hunan-werthuso a chynllunio ar gyfer gwelliant.

Y mae'r arweinyddiaeth ym maes gofal bugeiliol yn dda. Y mae'r strwythurau cymorth a chyfarwyddyd o'r athro dosbarth at benaethiaid blwyddyn a'r UDRh yn gwneud cyfraniad gwerthfawr i ddatblygiad personol ac academaidd y disgyblion.

Ceir cylch cynlluniedig o gyfarfodydd y timau academaidd a bugeiliol, sy'n galluogi'r staff i gyfathrebu a symud ymlaen. Y mae sawl gweithgor o athrawon, megis gweithgor asesu, bwrdd bugeiliol, bwrdd academaidd, gwella effeithiolrwydd ysgol, addoli ar y cyd, a iechyd a diogelwch. Y mae'r rhain yn nodweddion da. Y mae'r cyfarfodydd adrannol wedi canolbwyntio mwy ar flaenoriaethau a gwyd o'r CDY megis codi safonau a materion addysgu a dysgu, ond ni roddir digon o bwyslais ar rai ohonynt.

Y mae'r cynllunio ariannol yn ddoeth ac fe'i rheolir yn effeithiol gan y pennaeth a'r swyddog gweinyddol sy'n monitro gwariant yn rheolaidd. Pennir y gyllideb drwy gyfeirio'n briodol at anghenion y cwricwlwm, ac o ganlyniad anghenion staffio, lle ac adnoddau dysgu. Cysylltir gwariant yn glòs â'r blaenoriaethau a ddynodir yn y CDY. Bydd yr is-bwyllgor cyllid yn cyfarfod yn rheolaidd i fonitro gwariant ac i asesu effaith hynny ar ddatblygiadau ac ar safonau. Caiff yr adrannau eu lwfansau drwy system fformwla ddisgybl-gysylltiedig. Bydd symiau ychwanegol o arian ar gael i adrannau hefyd drwy system o wneud cynigion.

Y mae trefniadaeth a gweinyddiad yr ysgol o ddydd i ddydd yn effeithiol ac effeithlon, ac y mae'r staff gweinyddol a chynorthwyol yn chwarae rhan bwysig a gwerthfawr yn hynny o beth.

Y mae'r ysgol yn cwrdd â'r gofynion statudol parthed hawl y disgyblion i holl bynciau'r cwricwlwm ac eithrio diffyg darparu addysg grefyddol ar gyfer holl ddisgyblion B11 a myfyrwyr y chweched dosbarth. Y mae'r ysgol yn dilyn y canllawiau a osodir i lawr yng nghylchlythyron Llywodraeth Cynulliad Cymru ac yn rhoi sylw teilwng i gyngor a rydd ACCAC.

6.3 Staffio, Ystafelloedd ac Adnoddau Dysgu

Staffio

Y mae yn yr ysgol staff o 47.9 cywerth amser llawn; dyry hyn gymhareb ddisgybl:athro o 15.62:1 sy'n well na'r cyfartaledd cenedlaethol o 16.7:1 ac ychydig yn well hefyd na'r gymhareb o 16:1 a fodolai yn yr ysgol yn 1998. Ceir cydbwysedd rhesymol o ran oed a phrofiad ymhlith y staff. Y mae gan yr athrawon gymwysterau da sy'n cyfateb â'r pynciau a addysgir yn achos y mwyafrif mawr o'r meysydd pwnc. Y mae'r gymhareb gyswllt o 81.3 y cant ychydig yn is nag ydoedd yn 1998 (82 y cant) ac y mae'n rhesymol mewn ysgol o faintioli hon.

Y mae 16 o gynorthwywyr cymorth dysgu wedi eu hariannu gan yr AU i gefnogi disgyblion sydd â datganiad AAA. Rhydd y CwyrCD hyn ofal a chymorth arbennig a da i'r disgyblion yn eu gofal ac i ddisgyblion eraill yn ôl y galw a'u hargaeledd.

Rhydd y staff clerigol a thechnegol gymorth da iawn ac y mae eu cyfraniad yn hanfodol yn rhediad llyfn yr ysgol.

Y mae'r rheolwr safle, y gofalydd a'r staff glanhau yn sicrhau bod adeiladau'r ysgol yn cael eu cadw a'u cynnal, ac yn lân a diogel ar gyfer y disgyblion.

Y mae datblygiad proffesiynol y staff yn dda. Bydd y staff yn mynychu amryfal gyrsiau, ac y mae Cydbwyllgor Addysg Cymru yn gyfrifol am drefnu rhai ohonynt a'r AU am eraill. Y mae'r ysgol wedi prynu i mewn i raglen ddatblygu proffesiynol yr AU. Y mae'r dirprwy bennaeth wedi trosglwyddo'r cyfrifoldeb am ddatblygiad proffesiynol aelodau staff arbennig i'r adrannau ond ceidw gofnod cywir o'r holl gyrsiau y bydd yr athrawon wedi bod arnynt. Gwerthusir yr holl gyrsiau yn ofalus a chedwir cofnodion.

Trefnir y rhaglen sefydlu athrawon newydd eu cymhwyso gan is bennaeth cynorthwyol. Y mae trefniant y rhaglen yn dda iawn a rhydd gymorth da i'r athrawon newydd eu cymhwyso. Cynhyrchwyd polisi rheoli perfformiad ac fe'i gweithredir yn effeithiol.

Ystafelloedd

Yn gyffredinol, y mae'r adeiladau yn ddigonol ar gyfer y nifer o ddisgyblion. Bu cryn welliant ers yr arolygiad diwethaf ac yn y mwyafrif o achosion y mae'r adeiladau'n dda iawn. Serch hynny, i ddefnyddio cyfleusterau awyr agored yn chwaraeon ac athletau y mae gofyn bod y disgyblion yn cerdded cryn bellter i'r meysydd chwarae, ac y mae hynny'n cael effaith andwyol ar y safonau cyflawni yn addysg gorfforol.

Y mae'r rhaglen adnewyddu ac adeiladu newydd wedi cael effaith ar bob rhan o'r ysgol ymron ac o ganlyniad y mae gan y mwyafrif mawr o'r adrannau ystafelloedd rhagorol a chan y mwyafrif llethol o'r staff eu hystafelloedd arbenigol eu hunain. Y mae'r rhaglen hefyd wedi galluogi'r ysgol i drefnu adrannau yn gyfresi o ystafelloedd, gan wneud y cyfathrebu a'r rhannu adnoddau yn haws.

Y mae'r ystafelloedd ar gyfer disgyblion ag AAA yn dda iawn.

Y mae llawer o'r ystafelloedd dosbarth yn cynnwys arddangosfeydd diddorol, sy'n creu amgylchedd ysgogol ar gyfer y dysgu. Yn y coridorau ceir arddangosfeydd sy'n dathlu llwyddiannau a chyflawniadau disgyblion.

Y mae'r disgyblion yn dangos parch i ffabrig yr adeiladau ac y mae safle'r ysgol yn rhydd o graffiti a sbwriel.

Adnoddau

Y mae'r adnoddau sydd ar gael i'r staff yn dda ac o leiaf yn ddigonol a phriodol i gynnal y cwricwlwm. Cânt effaith dda ar safonau cyflawni'r disgyblion. Dyrennir arian i'r adrannau yn ôl fformiwla sy'n seiliedig ar y niferoedd o ddisgyblion a'r nifer o wersi, a bwysolir yn achos y pynciau ymarferol. Gall yr adrannau geisio am gyllid ychwanegol hefyd.

Y mae pum ystafell TGCh yn yr ysgol a cheir cyfrifiaduron eraill mewn ystafelloedd dosbarth, labordai a llyfrgell yr ysgol. Defnyddir yr ystafelloedd TGCh yn yr adran ddylunio a thechnoleg yn bennaf gan yr adran honno, ond defnyddir eraill yn dda gan adrannau eraill mewn system archebu. Y mae'r ysgol wedi'i darparu'n dda â 166 o gyfrifiaduron, sy'n rhoi cymhareb ddisgybl:cyfrifiadur o 4.5:1.

Y mae llyfrgellydd llawn-amser yn rheoli'r llyfrgell a'r defnydd ohoni fel ystafell dawel yn effeithiol. Ynddi ceir tua 10 llyfr ar gyfer pob un disgybl ar y gofrestr ond y mae ansawdd ac ystod y testunau ffeithiol yn dda yn Saesneg a'r Gymraeg. Bydd rhai adrannau'n gwneud defnydd o'r llyfrgell a'r ystafell adnoddau TGCh gysylltiedig. Gwneir llai o ddefnydd o'r ystafell hon yn awr gan fod cyfres o ystafelloedd TGCh ychwanegol ar gael.

Ceir llyfrgell fach yrfaoedd da ei chyflenwad o adnoddau, ond nid yw'r cyfleusterau mewn technoleg gyfrifiadurol a phecynnau meddalwedd yn ddigonol i gynyddu effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd ymchwil a chyfarwyddyd.

7. PYNCIAU A MEYSYDD DYSGU

Safonau a gyflawnir gan y disgyblion

Cymraeg

Y mae'r safonau cyflawni yn CA3 a CA4 yn dda.

Nodweddion da

CA3

- Y mae disgyblion yn gwrando'n dda ac yn ymateb yn estynedig i'w hathrawon ac i ddisgyblion eraill, gan ddefnyddio iaith gywir a phwrpasol.
- Gall disgyblion ddarllen ystod o ddeunydd darllen yn ystyrlon. Mae'r disgyblion mwyaf galluog yn gallu cymharu gwahanol destunau o ran cynnwys ac arddull.
- Gall llawer o ddisgyblion gynnal sgyrsiau ar ystod da o dopigau a thrafod llenyddiaeth gan ddefnyddio iaith gywir a dyfynnu'n bwrpasol.
- Y mae llawer o ddisgyblion yn gallu ysgrifennu darnau ffeithiol a chreadigol o ansawdd da. Fel rheol, mae eu sillafu a'u hatalnodi'n gywir, a defnyddiant rai gystrawennau cyfoethog.
- Y mae'r disgyblion mwyaf galluog yn gwneud cynnydd da iawn yn yr holl sgiliau iaith.

CA4

- Y mae mwyafrif y disgyblion yn gallu trafod pynciau llosg yn eithaf hyderus.
- Y mae'r disgyblion mwyaf galluog yn gallu dadansoddi cynnwys ac arddull cerddi ar lafar ac yn ysgrifenedig gan gyfiawnhau eu safbwyntiau.
- Y mae mwyafrif y disgyblion yn darllen yn glir ac yn ystyrlon gyda goslef ac ynganiad da iawn.
- Y mae'r disgyblion mamiaith a'r dysgwyr da yn gallu ysgrifennu'n estynedig at wahanol bwrpasau. Gallant ddatblygu cymeriadau, syniadau a dadleuon yn effeithiol. Mae gafael eithaf cadarn ganddynt ar batrymau brawddegol, sillafu ac atalnodi.

Diffygion

CA3

- Ceir lleiafrif o ddisgyblion, is eu gallu, yn y dosbarthiadau ail-iaith, na allant gyflwyno ymatebion digon ymestynnol a chywir ar lafar nac yn ysgrifenedig.

CA4

- Y mae ymatebion ysgrifenedig lleiafrif o ddisgyblion yn gyfyng ac yn wallus.
- Y mae gan rai o'r disgyblion ail-iaith y sgiliau i ddilyn cyrsiau iaith gyntaf, ac felly, maent yn tangyflawni.

Saesneg

Y mae'r safonau cyflawni yn dda yn CA3 a CA4.

Nodweddion da

- Y mae'r disgyblion yn amlygu cymhelliant da ar draws yr ystod gallu ac yn cymryd diddordeb yn eu gwersi Saesneg, ac y mae'r disgyblion ag AAA yn gwneud cynnydd da, gan elwa'n fawr ar y cymorth a gânt.
- Y mae'r disgyblion o bob gallu yn hyderus yn eu gwaith llafar; y mae eu sgiliau gwrando yn dda a gallant ofyn ac ateb cwestiynau yn bwrpasol.

- Yn y gwaith pâr a'r gwaith grŵp mynych, bydd y disgyblion yn y ddau gyfnod allweddol yn cyfnewid syniadau a barn yn rhydd a byddant yn cydweithio i ddatrys problem ac y mae eu dealltwriaeth yn dyfnhau wrth drafod gyda'i gilydd.
- Bydd y disgyblion yn amlygu sgiliau adnabod geiriau da, a darllenant yn rhwydd a chyda mynegiant.
- Datblygant eu sgiliau darllen o allu darllen gyda dealltwriaeth i ddeall yr hyn sy'n ymhlyg mewn testun ffeithiol a llenyddol.
- Y mae gan y disgyblion o allu uwch sgiliau dadansoddol datblygedig a gallant ddadadeiladu testunau o fathau gwahanol. Y mae eu hymatebion wrth drafod ystod eang o destunau yn amlygu eu hymwybyddiaeth ddatblygol o'r ffyrdd y bydd iaith yn gweithio ac effaith dewisiadau arddulliadol i greu naws a thargedu cynulleidfa arbennig.
- Yn CA4, y mae'r disgyblion ar draws yr ystod gallu yn amlygu gwybodaeth a dealltwriaeth dda o'r llyfrau gosod a bydd y disgyblion galluog yn dehongli gwahanol destunau ac yn adfyfyrio arnynt yn dreiddgar ac yn sensitif.
- Bydd y disgyblion yn y ddau gyfnod allweddol yn ymgymryd ag ystod eang o waith ysgrifennu i wahanol ddibenion a gwahanol gynulleidfaoedd, gan amlygu hyder cynyddol wrth fynegi a chyfiawnhau eu safbwyntiau yn ysgrifenedig.
- Y mae eu ffeiliau yn CA4 yn cynnwys darnau o waith ysgrifenedig creadigol a ffeithiol a ddrafftiwyd yn dda, a defnyddir TGCh yn effeithiol gan y rhan fwyaf o'r disgyblion i wella eu gwaith.

Diffygion

- Y mae bwlch sylweddol rhwng perfformiad y bechgyn a pherfformiad y merched.
- Y mae cyfraniadau'r disgyblion yn tueddu i fod yn fyr a braidd yn anffurfiol ar wahân i gyfraniadau'r mwyaf galluog.
- Ymhlith y disgyblion o allu cymedrol ac is, yn enwedig y bechgyn, ceir tuedd i lithr-ddarllen er mwyn osgoi wynebu geirfa ac ymadroddion anghyfarwydd.
- Bydd atebion ysgrifenedig y disgyblion gwannaf yn aml yn ddiffygiol o ran eglurder ac yn ansicr o ran sillafu ac atalnodi, ac y mae hynny'n andwyo gwaith ysgrifenedig llawer o'r disgyblion ar draws yr ystod gallu yn gyson.

Mathemateg

Y mae'r safonau cyflawni yn foddhaol yn CA3 ac yn dda yn CA4.

Nodweddion da

CA3

- Gall y disgyblion ddelio'n effeithiol gyda holl agweddau rhif ar lefelau priodol i'w gallu a'u dealltwriaeth. Y mae hyn yn cynnwys ffracsiynau, degolion a chanrannau yn ogystal â rhif yn gyffredinol.
- Y maent yn gallu ateb cwestiynau yn eu pennau'n ddeheuig ym mhob agwedd o'r pwnc heb orfod dibynnu ar gyfrifiannell. Ar brydiau, golyga hyn eu bod yn datrys cwestiynau digon cymhleth yn eu pennau.
- Gall y disgyblion ddatrys hafaliadau ar lefel briodol i'w gallu a gallant ddehongli fformwlâu a'u nodi gan ddefnyddio symbolau mathemategol.
- Gall pob disgybl enwi siapau dau a thri-deimensiwn, a llunio graffiau yn gywir a defnyddio cyfesurynnau i ddangos lleoliad pwynt.
- Byddant yn delio'n effeithiol gyda thebygolrwydd a gallant esbonio ystyr hap-ddigwyddiad yn gywir.

- Gall y disgyblion ag AAA ddelio'n effeithiol gydag arwynebedd a pherimedr, gan ddangos diddordeb yn eu gwaith, ac y mae ganddynt hefyd y gallu i ymwneud â gwaith mwy cymhleth.
- Bydd rhai disgyblion, yn enwedig y mwyaf galluog, yn gwneud swmp sylweddol o waith yn y cyfnod allweddol hwn a chyflawnant safonau da.
- Gall y disgyblion o allu cymedrol ac uwch ddefnyddio dulliau treialu a gwella i ddatrys hafaliadau.

CA4

- Gall disgyblion ddelio'n effeithiol gyda hafaliadau cydamserol a chwadratig yn ôl eu galluoedd a gallant ddatrys yr hafaliadau hynny drwy ddulliau graffigol yn ogystal.
- Y mae gan y disgyblion ddealltwriaeth dda o'r gwaith a wnaed ar siapau a gallant fesur arwynebedd, perimedr a chyfaint yn briodol. Gallant ddelio gyda siapiau dau a thri-deimensiwn yn briodol.
- Gall y mwyaf galluog yn y cyfnod allweddol hwn ddelio'n gywir gyda gwaith mwy cymhleth a'i gwblhau i safon dda. Gallant ddelio'n effeithiol gyda chwestiynau sy'n gofyn am weithio drwy ddwy neu dair proses i bennu eu hatebion.
- Gall y disgyblion is eu gallu gynyddu neu leihau gwerth rhifol neu ariannol o ganran arbennig ac y mae hyn yn cynnwys canrannau nad ydynt yn rhifau cyfan.
- Gall y disgyblion gofnodi data arwahanol mewn tablau amledd a deallant sut i ddod o hyd i gymedr, canolrif a modd set o werthoedd, a gallant ddatrys cwestiynau'n ymwneud â thebygolrwydd sy'n gofyn am ddefnyddio diagramau canghennog ac adio neu luosi tebygolrwydd.
- Y mae'r disgyblion yn deall ystyr locws pwynt a gallant ddefnyddio cwmpawd neu ddull arall i lunio llwybr pwynt.

Diffygion

CA3

- Ceir cryn dipyn o waith anorffen yn llyfrau ymarfer y disgyblion, ac ni fyddant oll yn ceisio gwneud y gwaith cartref na'i orffen.
- Mae diffygion yn ansawdd cyflwyniad gwaith nifer sylweddol o ddisgyblion. Nid yw'r gwaith yn cynnwys bob amser y ffordd y daethpwyd at ateb.
- Nid yw rhai disgyblion o alluoedd cymedrol yn gwneud digon o gynnydd gan fod eu gallu i ganolbwyntio yn gyfyngedig ac yn amrywiol.
- Ni all y disgyblion bob amser aralw gwaith a wnaed yn flaenorol na'i esbonio.

CA4

- Nid yw disgyblion CA4 bob amser yn abl i aralw'n gyflym waith a wnaed yn flaenorol.
- Rhwystrir cynnydd gan y swm sylweddol o waith anorffen mewn llawer o'r llyfrau ymarfer.
- Ni fydd y disgyblion bob amser yn gosod eu hatebion allan yn llawn, ac felly nid yw eu gwaith mor ddefnyddiol pan fydd gofyn iddynt adolygu.
- Ni fydd y disgyblion bob amser yn gwneud sylw o'r gwaith a marcir gan eu hathrawon i sicrhau eu bod wedi deall yn llawn dopig a astudiwyd.

Gwyddoniaeth

Y mae'r safonau cyflawni yn dda yn CA3 ac yn dda yn gyffredinol yn CA4.

Nodweddion da

CA3

- Y mae gan y mwyafrif o'r disgyblion ddealltwriaeth dda o'r topigau hanfodol a drafodir ym mhob grŵp blwyddyn.
- Gall y disgyblion aralw cysyniadau allweddol a'u cymhwyso mewn ystod o broblemau bywyd bob dydd.
- Y mae'r disgyblion ag AAA yn cael cymorth da a gwnânt gynnydd da.
- Y mae trafodaethau adeiladol yn galluogi'r disgyblion i gadarnhau eu dealltwriaeth o gysyniadau gwyddonol.
- Y mae'r disgyblion wedi datblygu geirfa wyddonol dda.
- Y mae'r disgyblion yn arddangos sgiliau ysgrifennu da drwy ymgymryd ag ystod o dasgau ysgrifenedig yn ôl eu galluoedd.

CA4

- Astudir y rhaglenni astudio yn drwyadl ac o ganlyniad y mae safonau cyflawni'r disgyblion yn dda yn gyffredinol.
- Yng ngrŵp gwyddoniaeth ddyfarniad triphlyg y mae'r safonau'n uchel ac y mae gan y disgyblion ddealltwriaeth dda o gysyniadau. Gallant gymhwyso eu gwybodaeth wrth drin problemau bywyd bob dydd.
- Y mae'r safonau a gyflawnir gan y disgyblion ag AAA yn dda.
- Y mae'r disgyblion yn cadarnhau eu dealltwriaeth drwy drafod cysyniadau gwyddonol yn adeiladol.
- Gwna'r disgyblion gynnydd da yn gyffredinol yn eu sgiliau rhifedd a thrin data.

Diffygion

CA3

- Y mae gan leiafrif o ddisgyblion ddealltwriaeth ychydig yn llai sicr o'r gwaith ac o ganlyniad cânt fwy o anhawster i gymhwyso eu gwybodaeth i broblemau bywyd bob dydd.
- Boddhaol yn unig yw sgiliau cynllunio, arsylwi a gwerthuso mewn cysylltiad â sgiliau ymchwiliol.
- Ceir rhai enghreifftiau o'r defnydd o TGCh yng ngwyddoniaeth, ond boddhaol yn unig yw cynnydd yn y maes hwn yn gyffredol.

CA4

- Y mae'r bechgyn yn tangyflawni gan fechgyn fel y gwelwyd yng nghanlyniadau Dyfarniad Dwbl TGAU yn 2003 pan gyflawnodd 65.2 y cant o'r merched, ond dim mwy na 36.55 y cant o'r bechgyn, radd C neu well. Y mae problemau ymddygiad yn o leiaf un grŵp o fechgyn yng ngharfan gyfredol B11 yn cael effaith andwyol ar safonau.
- Nid yw sgiliau archwilio gwyddonol y disgyblion wedi eu datblygu'n llawn.
- Nid yw sgiliau TGCh y disgyblion wedi'u datblygu'n ddigonol.

Dylunio a thechnoleg

Y mae'r safonau cyflawni yn dda yn CA3 a CA4.

Nodweddion da

CA3

- Y mae gan y rhan fwyaf o'r disgyblion ddealltwriaeth dda o broses ac egwyddorion dylunio, a byddant yn ei chymhwyso yn llwyddiannus wrth ddylunio. Y mae sgiliau creadigol a dyfeisgar y disgyblion yn foddhaol yn gyffredinol ac weithiau'n dda, ond y mae'r cyfle i ddangos creadigrwydd yn gyfyngedig yn rhai o'r tasgau. Y mae'r safonau modelu, addasu, gwella a gwerthuso prosiectau yn foddhaol.
- Y mae'r safonau gwneud yn foddhaol ac yn achos y disgyblion mwy galluog yn dda. Bydd y disgyblion yn gweithio gydag ystod eang o ddeunyddiau a chydrannau wrth gynhyrchu yn gywir ac yn orffenedig i safon foddhaol. Bydd y mwy galluog yn amlygu gwybodaeth a dealltwriaeth dda iawn o ddeunyddiau a'u cydrannau a'r defnydd a wneir ohonynt, fel gyda'r profwr lleithder electronig yn B7 er enghraifft. Y mae'r cynnyrch terfynol yn unol â'r gofynion gwreiddiol.
- Yn y rhan fwyaf o'r modiwlau, bydd y disgyblion yn defnyddio rhaglenni TGCh yn dda. Y mae'r mwy galluog yn amlygu sgiliau a chymhwysedd da iawn wrth ymchwilio eu gwaith a'i gyflwyno. Amlygant sgiliau da hefyd wrth ddefnyddio cyfarpar dylunio drwy gymorth cyfrifiadur (CAD) a gwneud drwy gymorth cyfrifiadur (CAM) i ddylunio ac addurno peth ar eu cynhyrchion.
- Bydd disgyblion o bob gallu yn amlygu cymhwysedd wrth goginio'n ymarferol ac y mae ganddynt wybodaeth sylfaenol gadarn o werth maetholion mewn diet.
- Wrth ddylunio a gwneud eitemau gan ddefnyddio tecstilau, bydd y disgyblion yn amlygu cryn dipyn o ddychymyg a blaengaredd yn enwedig yn B9 wrth ddefnyddio deunyddiau wedi eu hailgylchu a chyflawnant safonau da.

CA4 – Deunyddiau gwrthiannol a thecstilau

- Y mae'r rhan fwyaf o'r elfennau o waith dylunio y disgyblion yn dda ac yn aml yn dda iawn. Cânt eu hannog i ddylunio a gwneud cynhyrchion sy'n berthnasol iddynt hwythau, ac â phwrpas real, ac y mae hynny'n cryfhau eu cymhelliant ac yn esgor ar ganlyniadau a datrysiadau dyluniadol da. Bydd y mwy galluog yn datblygu prosiectau sydd yn aml yn ddyfeisgar iawn eu natur.
- Yn eu gwaith prosiect, bydd y disgyblion yn defnyddio ystod boddhaol o dechnegau cyflwyno i safon dda. Gwneir defnydd da iawn o TGCh wrth ymchwilio, dylunio, a CAD/CAM wrth fodelu a chyflwyno.
- Y mae'r sgiliau gwneud yn dda ac yn aml yn dda iawn. Bydd y disgyblion yn gweithio'n gywir ac yn gorffen eu gwaith yn dda. Y mae ganddynt ddealltwriaeth dda o dechnegau gwneud.

Diffygion

CA3

- Yn yr holl agweddau o'u gwaith, y mae safonau graffigedd yn rhai o bortffolios y disgyblion yn ddiffygiol ac ni cheir fawr medr na dychymyg yn y ffordd y byddant yn cyflwyno eu syniadau'n weledol.
- Mewn rhai achosion, nid yw syniadau dylunio rhai disgyblion yn ddigon creadigol, a bydd natur or-benodol y dasg yn eu cyfyngu.

CA4

- Gwan yw safonau braslunio datrysiadau creadigol cyflym fel y bydd y prosiectau dylunio'n datblygu. Bydd y disgyblion yn gor-ddibynnu ar ddulliau cyflwyno traddodiadol, ac nid yn aml y byddant yn cyflwyno gwaith gyda chreadigrwydd, dychymyg a dawn arbennig.

Technoleg gwybodaeth

Y mae'r safonau cyflawni yn dda yn CA3 ac yn dda iawn yn CA4.

Nodweddion da

CA3

- Bydd y disgyblion yn trin cyfrifiaduron yn effeithlon ac yn effeithiol. Amlygant gryn hyder a lefelau uchel o gymhwysedd wrth ymgymryd â thasgau sylfaenol megis mewngofnodi, galw i fyny a chadw eu gwaith a chyrchu cymwysiadau priodol a'r Rhyngrwyd. Gall y disgyblion hefyd esbonio beth y maent yn ei wneud gan ddefnyddio geirfa dechnegol o safon dda.
- Y mae safonau cyfathrebu gwybodaeth yn dda. Bydd y disgyblion yn cyfuno testun a delwedd yn hyderus, ac yn newid a threfnu ffontiau, lliwiau a gosodiadau mewn cyfuniadau priodol, yn unol â'u dyluniadau unigol. Yn ychwanegol, bydd y rhan fwyaf o'r disgyblion erbyn eu bod yn B9 yn amlygu safonau a sgiliau da wrth ddefnyddio ystod eang iawn o feddalwedd gan gynnwys y Rhyngrwyd i ymchwilio. Defnyddiant daenlenni a chronfeydd data yn dda. Byddant yn dangos safonau da wrth ddefnyddio meddalwedd CAD i gynhyrchu lluniadau cywir a gwyddant sut i raglennu peiriant i gynhyrchu canlyniadau o ansawdd dda. Bydd y disgyblion mwy galluog yn defnyddio llwybrau archwilio cymharol gymhleth i brofi damcaniaethau dynodedig wrth ddefnyddio cronfeydd data a thaenlenni.
- Wrth weithio ar brosiectau a chynhyrchu ystod o ganlyniadau, y mae'r disgyblion yn dangos ymwybyddiaeth glir o'u cynulleidfa a pha fath argraff y dymunant ei greu. Amlygant ymwybyddiaeth dda o arlliw a lliw a sgiliau llythrennedd da yn eu gwaith ysgrifenedig.

CA4

- Bydd yr holl ddisgyblion yn cynllunio prosiectau eu gwaith cwrs i safon dda gan ddefnyddio meini prawf clir a rhesymol i ddynodi'r nodweddion dyluniadol y dymunant eu datblygu a phaham.
- Canlyniadau meddalwedd dyluniadau real yw'r prosiectau gwaith cwrs terfynol yn gysylltiedig â gofynion real busnesau a chlybiau. Gwna'r disgyblion ddefnydd da iawn o'r adborth a gânt gan eu cleientau wrth ddatblygu eu datrysiadau dyluniadol. Y mae sgriniau casglu data yn esthetaidd ddymunol a dangosant wybodaeth a dealltwriaeth dda'r disgyblion o'r fformatau sy'n ofynnol wrth fewnbynnu data. Y mae'r disgyblion yn defnyddio ystod o wiriadau dilyniant yn dda i sicrhau bod y data yn y fformat cywir ar gyfer prosesu, ac y mae eu gwaith yn amlygu dealltwriaeth dda iawn o'r defnydd o'r gwiriadau hyn.
- Wrth weithio ar eu prosiectau, bydd y disgyblion yn defnyddio'r eirfa a'r derminoleg dechnegol yn gywir wrth esbonio'r prosesau a'r gweithdrefnau a ddefnyddiant wrth ddatblygu eu dyluniadau.

Diffygion

- Nid oes diffygion arwyddocaol yn y naill na'r llall o'r cyfnodau allweddol.

Hanes

Y mae'r safonau cyflawni yn dda yn CA3 a CA4.

Nodweddion da

CA3

- Y mae'r disgyblion yn gallu gwerthuso ffynonellau tystiolaeth yn rhwydd, a byddant yn trafod y gronoleg a berthyn i'r cyfnodau a astudiant gyda sicrwydd.
- Gwrandawant yn dda ar eu hathrawon ac ar ei gilydd.
- Y mae eu hymatebion llafar yn rhugl ac yn hyderus a byddant yn elwa ar waith pâr a gwaith grŵp cynlluniedig.
- Y mae eu gwaith ysgrifenedig yn adlewyrchu yn gywir alluoedd y disgyblion ac yn amlygu eu gwybodaeth cefndirol dda o'r topigau a astudir.

- Y mae sgiliau hanesyddol yn datblygu'n dda drwy'r defnydd o TGCh.
- Y mae'r disgyblion ag AAA yn cyflawni safonau da.

CA4

- Y mae'r gwaith ysgrifenedig o safon dda ac yn adlewyrchu gallu'r disgyblion yn gywir.
- Y mae safonau'r gwrando a'r siarad yn dda, a dengys y disgyblion wybodaeth cefndirol dda o'r topigau a astudir.
- Y mae'r disgyblion yn gyfarwydd â'r problemau a'r materion a gwyd wrth werthuso ystod o ffynonellau, ac amlygant sgiliau tystiolaethol da yn eu hymatebion ysgrifenedig.
- Dengys y disgyblion afael gadarn ar gysyniadau hanesyddol yn eu hymatebion llafar ac ysgrifenedig.
- Gall y disgyblion ddethol, aralw a threfnu gwybodaeth hanesyddol yn dda.
- Amlyga'r disgyblion ddealltwriaeth dda o ddatblygiad cronolegol ac ymwybyddiaeth o newid ac o barhad dros amser.

Diffygion

CA3

- Yn gyffredinol, nid oes gan y disgyblion wybodaeth ddigonol o dopigau penodol drwy wneud gwaith cynhyrchiol estynedig (er enghraifft prosiectau/topigau ymchwil).

CA3 a CA4

- Y mae'r strategaeth ddysgu weithredol a chymeradwy a ddatblygwyd gan yr adran heb ganolbwyntio'n ddigonol ar baratoi tasgau gwahaniaethedig, ac o ganlyniad, nid yw'r disgyblion mwy galluog yn cael eu herio'n ddigonol.

Daearyddiaeth

Y mae'r safonau cyflawni yn dda yn CA3 a CA4.

Nodweddion da

CA3

- Bydd y rhan fwyaf o'r disgyblion yn dehongli mapiau a data ystadegol yn gywir ac yn cael gafael ar ystod da o sgiliau daearyddiaeth.
- Bydd y mwyafrif ohonynt yn cael gafael ar ddealltwriaeth a gwybodaeth dda o'r ardal lleol ac o Gymru drwy eu hastudiaeth o sawl thema briodol.
- Bydd y rhan fwyaf yn amlygu dealltwriaeth dda a datblygol o eirfa a thermau daearyddol. Gallant eu defnyddio yn gywir ac yn eu cyd-destun.
- Y mae'r disgyblion yn dangos gwybodaeth dda o leoliad lleoedd. Amlygant ddealltwriaeth dda iawn o ddaearyddiaeth yr Eidal a daearyddiaeth ffisegol Brasil. Y mae'r gwaith prosiect ar yr Eidal ac ar siopa yn Aberaeron yn gyffredinol o ansawdd dda, yn amlygu sgiliau archwilio uchel eu safon yn achos y rhan fwyaf o'r disgyblion.
- Y mae gan lawer o'r disgyblion ddealltwriaeth dda o fodelau cymhleth. Y mae gwaith disgyblion B8 ar ddynodi rhanbarthau o ddefnydd tir trefol, gan ddefnyddio ffotograffau, yn arbennig o dda.

CA4

- Y mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn amlygu lefel dda o sgiliau dadansoddi a dehongli data daearyddol gymhleth, a'r gallu i fynegi eu penderfyniadau mewn fformatau ysgrifenedig, graffigol neu ar fap neu'n ystadegol.
- Y mae ganddynt ddealltwriaeth ddatblygol o'r berthynas rhwng pobl a'r amgylchedd. Deallant y ffactorau sy'n dylanwadu ar dyfiant patrymau o ddefnyddio tir trefol.

- Y mae gwaith maes a phrosiectau seiliedig ar archwilio yn cyfrannu i ddealltwriaeth fanwl y disgyblion o broses yn naearyddiaeth ffisegol a dynol. Y mae'r aseiniadau cwrs yn amlygu eu dealltwriaeth o brosesau sydd ar waith yn ffurfiant patrymau ac arweddau a fo'n gysylltiedig â gweithgaredd afonydd a datblygiad trefol. Y mae rhai o'r aseiniadau yn dda iawn.
- Y mae gan y rhan fwyaf o'r disgyblion ddealltwriaeth dda o ddatblygiad fel y'i defnyddir mewn cysylltiad â Gwledydd Mwy Datblygedig yn Economaidd (GMDE) a Gwledydd Llai Datblygedig yn Economaidd (GLlDE). Deallant y 'datblygiad gwahaniaethedig' o fewn gwledydd megis Brasil lle y mae gan nifer o ddangosyddion datblygiad nodweddion GMDE a chan eraill nodweddion GLlDE.
- Y mae'r mwyafrif o'r disgyblion yn defnyddio ystod eang o dermau daearyddol yn fedrus. Defnyddiant dermau gyda manyldeb a chywirdeb cynyddol.

Diffygion

CA3

- Y mae lleiafrif o'r disgyblion yn ansicr o ystyr nifer o dermau sylfaenol daearyddiaeth.
- Y mae ymddygiad lleiafrif o ddisgyblion yn cael effaith andwyol ar y safonau cyflawni yn rhai dosbarthiadau.
- Y mae gwaith anorffen yn rhwystro cynnydd nifer fach o ddisgyblion.

CA4

- Y mae ffeiliau rhai disgyblion yn amlygu sgiliau cyflwyno aflêr a swm sylweddol o waith anorffen neu ar goll.
- Y mae ymddygiad ac agweddau negyddol lleiafrif o ddisgyblion tuag at waith yn arwain at safonau is o waith.

Ieithoedd tramor modern

Yn gyffredinol, y mae'r safonau cyflawni yn dda yn CA3 a CA4.

Nodweddion da

CA3

- Y mae'r mwyafrif o'r disgyblion yn amlygu cyflawniadau sy'n cyfateb â safonau priodol y CC yn y pedwar sgil yn Ffrangeg ac yn Almaeneg.
- Y mae'r disgyblion sy'n astudio Almaeneg yn gwneud cynnydd cyflym yn B8 a B9 yn enwedig yn eu gwaith darllen ac ysgrifennu.
- Bydd rhai disgyblion, yn Ffrangeg ac Almaeneg, yn siarad yn hyderus ac y mae'r rhan fwyaf yn ynganu yn gywir.
- Y mae'r disgyblion yn amlygu ymwybyddiaeth gynyddol o gysyniadau gramadegol ar draws y cyfnod allweddol a chynhyrchant frawddegau cymhleth wrth ysgrifennu.

CA4

- Y mae'r disgyblion yn gwneud cynnydd sylweddol yn y pedwar sgil ar draws y cyfnod allweddol.
- Y mae cywirdeb o radd uchel yn nodwedd o'r gwaith ysgrifenedig yn y ddwy iaith.
- Dengys y disgyblion allu cynyddol i ddeall testunau dilys.
- Y mae acenion y disgyblion yn dda yn gyffredinol.
- Bydd y mwyaf galluog yn amlygu cywirdeb ac ehangder ystod wrth siarad ac ysgrifennu.
- Gall y disgyblion ailgylchu iaith o gyd-destun blaenorol i wella eu lleferydd a'u gwaith ysgrifennu.

Diffygion

CA3

- Y mae rhai disgyblion yn y setiau canol ac is yn ei chael yn anodd i ailgylchu iaith o gyd-destun blaenorol, ac ychydig o ddefnydd o'r iaith darged a wnânt yn y gwersi.
- Y mae nifer fach o ddisgyblion yn B8 a B9 yn brin o hyder a chymhelliant, ac y mae amhariad bach mewn gwers yn cael effaith negyddol ar eu safonau gwrando a siarad.
- Ychydig o flaengaredd a ddengys y disgyblion yn eu defnydd llafar o'r iaith darged.

CA4

- Y mae lleiafrif o'r disgyblion yn brin o hyder ac yn amharod i gymryd rhan mewn cyfnewidiadau llafar mwy estynedig.
- Y mae rhai disgyblion yn cael trafferth i ddeall siarad annarogan yn yr iaith darged.
- Ychydig o flaengaredd a ddengys y mwyafrif o'r disgyblion yn eu defnydd o'r iaith darged yn y gwersi.

Cerddoriaeth

Y mae'r safonau cyflawni yn foddhaol yn CA3 ac yn dda yn CA4.

Nodweddion da

CA3

- Y mae disgyblion B7 yn canu'n unsain gyda thôn ddymunol a geirio clir.
- Ar draws y cyfnod allweddol, bydd y disgyblion yn perfformio amryw ddarnau offerynnol gyda gradd dda o gywirdeb, a byddant yn gyffredinol yn cynnal ensemble yn sicr wrth berfformio mewn parau neu fel dosbarth cyfan.
- Y mae llawer o gyfansoddiadau rhythmig B7, a ffanfferau yn Y8 ac ychydig o ddarnau disgrifiadol 'Cerddoriaeth Ffilm' yn B9 yn dangos dychymyg yn y cyfuno o wahanol batrymau, motiffau a synau.
- Y mae gan y disgyblion ymwybyddiaeth o elfennau cerddorol. Gallant ddynodi offerynnau a nodweddion sylfaenol wrth werthuso gwahanol ddarnau o gerddoriaeth recordiedig. Bydd ychydig yn gwneud sylwadau perthnasol am eu gwaith ymarferol eu hunain.

CA4

- Gwna'r disgyblion gynnydd priodol wrth berfformio yn lleisiol ac yn offerynnol, a chyflawnant safonau da iawn yn gyffredinol.
- Y mae disgyblion B10 yn gwneud cynnydd da yn elfennau eraill y cwrs.
- Y mae cyfansoddiadau disgyblion B11 yn aml yn amlygu triniaeth ddychmygus o syniadau cerddorol a dealltwriaeth dda o arddull a strwythur. Bydd llawer o'r disgyblion yn gwneud defnydd da o TGCh i wella ansawdd eu gwaith.
- Yn gyffredinol, gall y disgyblion ddynodi nodweddion technegol a mynegiannol yn dda wrth werthuso cerddoriaeth o'r gwahanol feysydd astudiaeth.

Diffygion

CA3

- Y mae'r safonau perfformio, cyfansoddi a gwerthuso yn foddhaol ond y mae llawer o ddisgyblion yn tangyflawni, yn enwedig yn rhai dosbarthiadau mawr yn B8 a B9.
- Yn rhai dosbarthiadau, nid yw'r canu yn ddigon mirain nag yn ddigon argyhoeddedig. Y mae ychydig o ddisgyblion yn anabl i chwarae mewn amser gydag eraill wrth berfformio fel grŵp.

- Y mae lleiafrif sylweddol o ddisgyblion, yn rhai dosbarthiadau yn B8 a B9, yn ei chael yn anodd i wneud cynnydd yng ngwaith cyfansoddi heb gymorth athro. Y mae cynnydd yn araf a chyfyng yn aml. Yn gyffredinol, nid yw sgiliau byrfyfyr melodaidd a chyfansoddi'r disgyblion wedi eu datblygu'n dda.
- Yn aml y mae gwerthusiadau llawer o ddisgyblion wrth werthuso eu gwaith ymarferol eu hunain yn fyr ac yn arwynebol. Y mae llawer yn amharod i fynegi barn.

CA4

- Y mae ychydig o gyfansoddiadau B11 yn llai ddiddorol.
- Anwastad yw sgiliau gwerthuso'r disgyblion. Y maent yn dda gyda rhai tasgau ond nid bob amser yn sicr gydag eraill.

Addysg gorfforol

Y mae'r safonau cyflawni yn foddhaol yn CA3 a CA4.

Y mae'r ysgol yn darparu rhaglen allgyrsiol foddhaol ac y mae nifer o ddisgyblion unigol a thimau'r ysgol wedi ennill anrhydeddau cynrychioli. Y mae rhai o'r merched wedi cyflawni llwyddiannau eithriadol yn lleol ac yn genedlaethol.

Ar gyfer nifer sylweddol o weithgareddau awyr-agored, mae'r disgyblion yn teithio i gyfleusterau i ffwrdd o safle'r ysgol. Mae hyn yn cael effaith andwyol ar gynnwys y gwersi ac ar gyflymdra'r dysgu, ac yn CA4, i rai disgyblion sy'n astudio Almaeneg, mae'n golygu nad yw gofynion y CC yn cael eu boddhau yn llawn.

Nodweddion da

CA3

- Y mae'r disgyblion yn deall ac yn defnyddio egwyddorion cynhesu o fewn gweithgaredd corfforol.
- Yn athletau, y mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion wedi cael gafael ar ystod boddhaol o sgiliau. Y mae'r disgyblion mwy galluog yn amlygu effeithlonrwydd cynyddol wrth redeg, neidio a thaflu. Bydd y rhan fwyaf o'r disgyblion cymedrol ac is eu gallu yn gweithio'n galed i wella eu perfformiad.
- Yn tenis, bydd y disgyblion yn cydweithio'n dda yn barau ac yn grwpiau. Y mae'r mwy galluog yn amlygu cywirdeb a manylder wrth chwarae gêm a gallant gynnal rali am gryn hyd.

CA4

- Yn athletau, bydd y rhan fwyaf o'r disgyblion yn amlygu ystod boddhaol o dechnegau. Bydd y mwy galluog yn defnyddio sgiliau gyda mwy o gysondeb a chywreinrwydd. Ymhellach, gallant gynnal y nodweddion hyn mewn sefyllfaoedd cystadleuol.
- Ym mhêl-droed, bydd y rhan fwyaf o'r disgyblion yn gallu pasio a derbyn pêl wrth chwarae gêm.
- Yn badminton, y mae'r disgyblion yn amlygu ymwybyddiaeth o reolau'r gêm. Y mae'r mwy galluog yn meddu ar repertoire da o ergydion, ac mewn sefyllfa gystadleuol byddant yn ceisio twyllo a threchu eu gwrthwynebwyr.
- Y mae'r disgyblion sy'n dilyn y cwrs TGAU yn cyfrannu'n ddeallus ac yn eglur mewn trafodaeth ddosbarth. Gan fwyaf, y mae cyflwyniad y ffeiliau TGAU yn dda.

Diffygion

CA3

- Y mae rheolaeth rhai disgyblion yn brin wrth berfformio sgiliau athletaidd sylfaenol a chânt anhawster i lynu wrth y dasg.
- Yn anfynych y bydd y disgyblion yn defnyddio sgiliau arsylwi wrth wneud sylwadau ar berfformiadau ei gilydd.

CA4

- Yn anaml y bydd y disgyblion yn arfarnu perfformiad a defnyddio eu gwerthusiad i wella effeithlonrwydd ac ansawdd eu gwaith.
- Yn chwaraeon, ni fydd rhai disgyblion yn defnyddio gofod yn effeithiol, ac y mae eu hymwybyddiaeth o dacteg yn gyfyngedig.
- Ychydig o ddefnydd o TGCh a wna disgyblion TGAU i wella eu gwaith.

Addysg grefyddol

Y mae darpariaeth addysg grefyddol yr ysgol yn gadarn seiliedig ar y maes llafur cytunedig lleol (1996) ac yn ymdrin â'r prif dargedau cyflawni yn CA3. Serch hynny, nid yw'n cyflawni gofynion y maes llafur cytunedig yn achos rhai disgyblion yn CA4. Ychydig o welliant a fu ers yr arolygiad diwethaf.

Y mae'r safonau'n foddhaol yn CA3, yn dda yn y gwaith llafar a'r gwaith aseiniedig yn CA4.

Nodweddion da

- Y mae gan ddisgyblion B7 ddealltwriaeth dda o arwyddocâd mannau allweddol yn Iddewiaeth. Y maent yn gyfarwydd â strwythur y *Torah* ac o adrannau eraill o'r Beibl Iddewig. Yn y rhan fwyaf o'r dosbarthiadau, y mae disgyblion o bob gallu yn gwneud cynnydd da o ganlyniad i'r cynllunio manwl o'r gwersi a'r defnydd o TGCh ac arteffactau.
- Yn eu hastudiaeth o Iddewiaeth y mae'r disgyblion yn gynefin â rhai nodweddion o'r iaith Hebraeg ac â'r ffurf o addoli sy'n digwydd mewn synagog. Gallant esbonio arwyddocâd pethau a theclynnau allweddol megis yr Arch, y sgroliau, y siôl weddïo a'r *yad*.
- Yn eu hastudiaeth o Iesu fel arweinydd, y mae disgyblion B8 yn gyfarwydd â'r ffordd y portreadwyd Iesu yng nghelfyddyd amryfal ddiwylliannau. Gwyddant am ddirgelwch parhaol amdo Turin a'r argraffiadau a grëwyd gan bortread Hol man Hun o Oleuni'r Byd.
- Gwnânt sylwadau perthnasol iawn a mynegant eu barn yn hyderus am gredoau a chynigiant ddehongliadau diddorol o ddigwyddiadau. Gallant gyfleu syniadau a theimladau yn hyderus a thrafod syniadau yn effeithiol mewn grwpiau bach. Gwyddant am ddathliadau megis *Rhos Hashanah* (blwyddyn newydd yr Iddew), *Yom Kippur* (Dydd y Cymod) a *Seder* Gŵyl y Bara Croyw neu'r Pasg.
- Y mae disgyblion B9 yn archwilio gwahanol ddehongliadau Cristionogol o'r Cwymp a phechod gwreiddiol. Gallant gymharu'n effeithiol y gwahaniaeth rhwng y cysyniad Islamaidd o'r creu a'r cysyniadau deuol Iddewig ohono. Astudiant y rhan y gred Cristionogion y dylent ei chael yng nghadwraeth cread Duw a phwysigrwydd stiwardiaeth a derbyn cyfrifoldeb. Archwiliant ran dyn yn y gwaith o gadw yn hytrach nag amhuro, a deallant pam y mae'n bwysig sicrhau na fydd amryfal rywogaethau o anifeiliaid ac adar yn darfod amdanynt oherwydd esgeulustod, camdriniaeth neu ffactorau economaidd.
- Yn CA4, bydd disgyblion B10 yn archwilio'r cysylltiad rhwng crefydd a'r wladwriaeth. Dangosant ddealltwriaeth dda o ran y gyfraith a threfn mewn crefydd ac mewn cymdeithas secwlar. Archwiliant enghreifftiau cyfoes o hiliaeth a rhagfarn.
- Y mae disgyblion B11 yn ystyried y dadleuon dros ac yn erbyn y gosb eithaf, a thrwy ddadansoddi manwl o erthyglau papur newydd a chyflwyniadau fideo a dangosant wybodaeth dda o safbwyntiau cyfoes ar faterion byw a marw.

Diffygion

- Nid yw'r disgyblion CA4 yn cynhyrchu digon o waith ysgrifennu estynedig.

Addysg bersonol a chymdeithasol

Y mae'r safonau cyflawni yn dda yn CA3 a CA4.

Nodweddion da

- Y mae'r mwyafrif o'r disgyblion yn ennill gwybodaeth a dealltwriaeth o ystod eang o faterion megis addysg iechyd a rhyw, camdrin sylweddau, sgiliau astudio, materion amgylcheddol ac addysg yrfaol.
- Y mae'r mwyafrif yn siarad yn hyderus ac yn gwrando'n dda ar eu hathrawon ac ar ei gilydd a siaradwyr gwâdd.
- Gwyddant am beryglon ysmygu a'r canlyniadau o ran iechyd. Cafwyd cyflwyniad dramatig da iawn am bwysau grŵp cyfoed ac effeithiau negyddol ysmygu gan ddosbarth yn B7.
- Caiff y disgyblion gyfle i feddwl am eu cynnydd. Byddant yn casglu ac yn cofnodi tystiolaeth am eu cyflawniadau academaidd a bugeiliol eu hunain.
- Bydd y rhan fwyaf o'r disgyblion yn amlygu dealltwriaeth dda o fyd gwaith, y cyfleoedd sydd ar gael i gael gwaith a'r cyfleoedd sydd ar gael yn addysg bellach.

Diffygion

- Nid yw lleiafrif yn canolbwyntio ar dasgau gosod ac felly'n peri bod y safonau cyflawni yn gostwng.

Iechyd a gofal cymdeithasol (TGAU)

Y mae'r safonau cyflawni yn dda.

Nodweddion da

- Y mae'r disgyblion yn cael gafael ar wybodaeth sylfaenol ond cadarn o anghenion ffisegol pobl ar wahanol adegau yn eu bywyd pryd y bydd gofyn bod staff proffesiynol hyfforddedig yn gofalu amdanynt.
- Y maent yn gwybod am yr ystod eang o wasanaethau gofal sy'n bod yn yr ardal.
- Amlygant ddealltwriaeth o'r gofyn bod staff o fewn sector gyflogaeth iechyd a gofal cymdeithasol bob amser yn ymddwyn yn gywir ac yn parchu preifatrwydd y cleifion yn eu gofal.

Diffygion

- Y mae rhai disgyblion yn dangos gradd o anaeddfedrwydd wrth ddelio gyda rhai materion a gwyd fel rhan o'u hastudiaethau.

Economeg y cartref – Bwyd a Maethiad (TGAU)

Y mae'r safonau cyflawni yn dda.

Nodweddion da

- Y mae'r disgyblion yn deall gwerth cynhyrchion a goginir gartref o'u cymharu â chynhyrchion masnachol.
- Y mae ganddynt sgiliau coginio ymarferol da ac y maent yn deall gwerth cynllunio gofalus yn ogystal â dilyn siart-llif.
- Y maent yn ymchwilio yn drwyadl pan fyddant yn y broses o ddatblygu syniadau a bydd y mwyafrif ohonynt yn cymryd cyfrifoldeb am eu rhaglen ddysgu eu hunain pryd y byddant yn ymwneud â gwaith prosiect.

Diffygion

- Nid yw sgiliau graffigol y disgyblion wedi eu datblygu'n dda; o ganlyniad, nid yw'r gwaith a gofnodir yn eu ffolios wedi ei gyflwyno'n dda weithiau, ac y mae'n cynnwys gwallau sillafu yn ogystal.

Astudiaethau'r cyfryngau

Y mae'r safonau cyflawni yn dda iawn yn CA4.

Nodweddion da

- Y mae'r disgyblion yn datblygu eu diddordeb mewn amryfal gyfryngau wrth gyfnewid syniadau a safbwyntiau yn fywiog.
- Gallant archwilio'r cyfryngau yn feirniadol, a deallant godau a chonfensiynau cynhyrchu cyfryngol.
- Deallant sut y dylanwedir ar y cyfryngau gan wahanol gynulleidfaoedd ac y maent yn deall arferion y cyfryngau.
- Y maent yn cynllunio a chreu arteffactau ar gyfer gwahanol gynulleidfaoedd, gan wneud defnydd meddylgar a chreadigol o elfennau allweddol cyflwyno.
- Gwerthusant eu gwaith cynhyrchu eu hunain ac eiddo eu cymheiriaid gan amlygu parch a goddefgarwch i'w gilydd.
- Y maent yn archwilio cwmnïoedd cyfryngol, megis cynhyrchwyr hysbysebion a'r diwydiant teledu, ac ymgyfarwyddant â'r strwythurau sy'n ffurfio'r cynnyrch cyfryngol.

Diffygion

- Nid oes diffygion arwyddocaol.

Peirianneg CGC

Y mae'r safonau cyflawni yn dda.

Nodweddion da

- Y mae safonau'r disgyblion yn dda. Y maent yn gadarn eu cymhelliant a dangosant ddiddordeb brwd yn eu gwaith. Y mae'r mwyaf galluog yn cynhyrchu gwaith o safon dda iawn. Dyfalbarhânt wrth eu tasgau yn dda gan geisio perffeithio eu cynnyrch terfynol.
- Y mae gan ymron yr oll ohonynt sgiliau ymarferol da a defnyddiant offer a chyfarpar yn hyderus a chyda chymhwysedd, fel y dangosodd grŵp bach wrth ddefnyddio cyfarpar weldio yn ddiogel ac yn gywir i uno metel. Gall y rhan fwyaf siarad am a wnânt gydag argyhoeddiad, er enghraifft wrth esbonio terfynau goddefiant derbyniol pan fyddir yn cywiro tapedi ym mheiriant car, er enghraifft.

Diffygion

- Nid yw'r disgyblion oll yn gwybod pa mor dda y gwnânt, yn enwedig mewn perthynas ag agweddau theori'r cwrs ac y mae hyn yn cael effaith ar safonau yn achos disgyblion unigol gan na wyddant beth i'w wneud i wella eu gwaith.

8. GWELLA'R YSGOL

8.1 Cynnydd ers yr arolygiad diwethaf

Y mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd da wrth drin rhai o'r materion allweddol a godwyd yn yr arolygiad diwethaf; y mae eraill yn aros yn feysydd i'w datblygu ymhellach.

1. **Cymryd camau i godi safonau cyflawni yn nrama ac addysg grefyddol statudol yn CA4 a'r ansawdd a'r ddarpariaeth yng nghymdeithaseg.**

   Y mae'r cynllun gweithredu ôl-arolwg yn cynnwys targedau ar gyfer gwella safonau yn nrama, ond dilëwyd drama o'r cwricwlwm yn dilyn adolygiad o'r ddarpariaeth gwricwlaidd yn 2002. Ystyriwyd gwahanol opsiynau er mwyn estyn y dyraniad amser ar gyfer addysg grefyddol yn CA4, ond yr unig opsiwn oedd mabwysiadu cyrchddull cynadleddol a chysylltiadau

trawsgwricwlaidd cryfach. Gwnaed trefniadau amgen i'r disgyblion sydd yn astudio Almaeneg yn CA4 gael yr un cyfle i astudio addysg grefyddol ag a gaiff disgyblion eraill yn yr un grŵp blwyddyn. Serch hynny, nid yw'r trefniadau hynny yn berthnasol i'r grŵp cyfredol yng ngharfan B11. Adolygwyd cynlluniau gwaith a'u haddasu a chyflwyno aseiniadau ysgrifenedig i ddibenion asesu wrth wynebu'r mater o godi safonau. Dilëwyd cymdeithaseg o'r cwricwlwm yn 1998/1999.

2. **Ail-edrych ar drefniadau dewis pynciau yn CA4 a B12-B13 – i oresgyn rhai anawsterau yn achos rhai disgyblion a datrys y broblem mewn perthynas ag Almaeneg ac effaith y dewis hwn ar bynciau eraill.**

   Ers yr arolygiad diwethaf, adolygwyd y trefniadau pwnc yn CA4. Y mae bellach yn bosibl i ddisgyblion astudio daearyddiaeth a hanes; cyflwynwyd cyrsiau galwedigaethol, sef peirianneg a iechyd a gofal cymdeithasol yn ogystal â modiwlau'r Coleg Agored er mwyn ateb problem ymddiethriad disgyblion yn CA4. Cyflwynwyd pynciau newydd yn y chweched dosbarth: ymarfer corff safon Uwch ac Uwch Gyfrannol (UG), hamdden ac adloniant TAAU a TGCh, a hanes drwy gyfrwng y Gymraeg. Rhoddwyd ystyriaeth ofalus i'r dewis o Almaeneg yn ail iaith fodern ac effaith hynny ar bynciau eraill yn B8, B9 a CA4, ond penderfynwyd na fyddid yn gwneud unrhyw newid i'r trefniadau cwricwlaidd.

3. **Ystyried ymarferoldeb dosbarthiadau bach yn rhai pynciau yn B12-B13 a phosibilrwydd rhesymoli rhai agweddau ar y ddarpariaeth.**

   Y mae'r ysgol wedi ystyried amryw opsiynau parthed rhesymoli'r ddarpariaeth yn y chweched dosbarth gan gynnwys y defnydd o gyfleusterau cynadledda-fideo fel yn achos cyflwyno electroneg i safon Uwch. Y mae trafodaethau yn para rhwng yr ysgol â sefydliadau addysgol a darparwyr eraill am gydweithrediad ôl-16. Y mae'r ysgol hefyd yn chwarae rhan yn weithredol yng nghynllunio addysg 14-19 o fewn yr awdurdod. Serch hynny, y mae rhai dosbarthiadau yn para i fod yn fach yn rhai pynciau ac felly'n ddrud o ran staffio ac adnoddau.

4. **Estyn y defnydd o sgiliau da y disgyblion yn TGCh i'r holl bynciau.**

   Y mae cwblhad y rhaglen adeiladu wedi gwella cyfleusterau TGCh yr ysgol yn sylweddol. Penodwyd technegydd TGCh i gynorthwyo gwaith yr adran TGCh a'r ddarpariaeth a wnaed yn yr adrannau eraill ar draws yr ysgol. Darparwyd swît newydd ag ynddi 30 o gyfrifiaduron a bwrdd gwyn rhyngweithiol a thaflunydd, a bu'r rhain yn cael eu defnyddio ers Medi 2002. Anogir y disgyblion a'r myfyrwyr i ddefnyddio'r cyfleusterau rhagorach hyn a'r rhaglen SDU sydd wedi cael eu hail-gartrefu yn agos i'r swît TGCh newydd. Y mae'r staff wedi derbyn hyfforddiant ac y mae adrannau wedi cynnwys gweithgareddau TGCh yn eu cynlluniau gwaith. Yn yr arolygiad hwn, arfarnwyd bod y defnydd a wneir o TGCh yn amrywio rhwng ac o fewn adrannau a bod y safonau felly'n anwastad.

5. **Sicrhau cydymffurfiad llawn â'r gofynion statudol parthed gweithred o gydaddoli dyddiol ac adolygu amseriad myfyrdod y dydd ac ystyried ei briodoldeb yn lle gweithred o gydaddoli.**

   Newidiwyd patrwm y diwrnod ysgol; y mae'r weithred o gydaddoli bellach yn digwydd ar ddechrau'r dydd mewn gwasanaethau ysgol-gyfan, grŵp blwyddyn neu wasanaeth dosbarth. Arfarnwyd bod ansawdd y weithred o gydaddoli yn dda yn ystod yr arolygiad hwn ac y mae'r ysgol yn cydymffurfio â'r gofynion statudol.

6. **Parhau gyda'r polisïau presennol i wella cyfraddau presenoldeb.**

   Y mae'r ysgol wedi cynhyrchu polisi presenoldeb newydd. Cyflwynwyd system o deleffonio i'r rhieni roi gwybod am absenoldeb ac i'r staff roi gwybod am absenoldeb o wers. Y mae ymateb cynnar 'Diwrnod Cyntaf' i absenoldebau wedi gostwng y nifer o absenoldebau anawdurdodedig, a chaiff y rhieni eu hatgoffa yn y cylchlythyr tymhorol am bwysigrwydd presenoldeb cyson ac fe'u hanogir i drefnu bod gwyliau'r teulu yn cyd-ddigwydd â'r gwyliau ysgol. Gofynnir i'r disgyblion hefyd gofnodi cyfanrif eu presenoldeb am wythnos yn eu dyddiaduron cyswllt, a cheir hefyd system wobrwyo presenoldeb da. Y mae gan ddirprwy cynorthwyol gyfrifoldeb am ofal bugeiliol a cheir cysylltu clòs rhwng penaethiaid blwyddyn, athrawon dosbarth, y SAC a'r gweithiwr ieuenctid ar y safle. Cyflwynwyd system astudio gartref ar gyfer myfyrwyr y chweched dosbarth yn 1999 ond fe'i dilëwyd yn 2003. Er gwaethaf y blaengareddau hyn, y mae'r cyfraddau

presenoldeb yn para'n anfoddhaol ar draws yr ysgol. Y mae'r cyfraddau presenoldeb yn B11, B12 a B13 yn bryder.

7. **Gwella ansawdd yr adrodd i'r rhieni fel eu bod yn cael manylion am gynnydd a gwybodaeth ddefnyddiol am ffyrdd i wella; gwneud gwell defnydd o'r 'llyfr cyswllt' i ddatblygu cysylltiadau cartref-ysgol.**

   Adolygwyd adroddiadau ar ddisgyblion B7 i B11 fel y gellir cynnwys sylwadau am gynnydd a ffyrdd i wella cyflawniad ynddynt. Caiff y disgyblion y cyfle i wneud sylw personol eu hunain yn eu hadroddiadau. Serch hynny, yn CA4, nid adroddir am ddarpariaetrh graidd yn TGCh, addysg gorfforol nac addysg grefyddol. Yn 2000, cyflwynwyd cronfa sylwadau yn CoG y disgyblion yn B11 ac fe'u hanogwyd i gynnwys datganiad personol yn eu CoG. Addaswyd adroddiadau ar ddisgyblion B12 hefyd yn 2001/2 i gynnwys datganiad crynodol.

   Cyflwynwyd dyddiaduron cyswllt newydd yn 2003. Cymerwyd amryw gamau i'w gwella fel cyfrwng cyfathrebu â'r rhieni. Y maent hefyd yn cynnwys canlyniadau'r Arolwg Ysgol-gyfan sy'n monitro cynnydd y disgyblion ddwywaith y flwyddyn.

8. **Gweithredu polisi gwerthuso staff.**

   Disodlwyd y polisi gwerthuso staff bellach gan drefniadau rheoli perfformiad. Y mae pob aelod staff wedi cael hyfforddiant yn y trefniadau newydd sydd yn awr yn rhan o weithdrefnau hunan-werthuso ysgol-gyfan.

8.2 Materion allweddol i'w gweithredu

Er mwyn adeiladu ar ei chyflawniadau cyfredol, dylai'r ysgol:

1. Barhau i wella safonau'n gyffredinol, ac yn enwedig:
   - Safonau yn addysg gorfforol yn y chweched dosbarth.
   - Safonau yn y pynciau hynny yr arfernir eu bod yn foddhaol yn hytrach na da yn rhai cyfnodau allweddol.
   - Berfformiad y bechgyn, yn arbennig yn CA4. *****
   - Y defnydd o TGCh yn rhai pynciau.
2. Sicrhau bod y gweithdrefnau goruchwylio a monitro a weithredir ar lefel rheolwyr uwch yn canolbwyntio yn benodol ar sicrhau gweithrediad effeithiol a chyson o'r holl arferion a pholisïau ysgol-gyfan.
3. Ddatblygu ymhellach rôl rheolaeth ganol. *****
4. Sicrhau bod hyfforddiant staff yn cyfrannu'n adeiladol i alluogi'r holl aelodau i gadw at bolisïau ac arferion yr ysgol parthed disgyblaeth ac ymddygiad.
5. Gyfnerthu strategaethau i wella'r cyfraddau presenoldeb. Adolygu gweithdrefnau ar gyfer cofnodi presenoldeb myfyrwyr y chweched dosbarth, a phresenoldeb yn gyffredinol yn y gwersi ar draws yr ysgol.
6. Gofnodi cynnydd a chyflawniadau'r disgyblion yn TGCh, addysg gorfforol ac addysg grefyddol craidd yn CA4 yn yr adroddiadau blynyddol i'r rhieni.
7. Gydymffurfio â'r gofynion statudol drwy ddarparu addysg grefyddol i'r holl o ddisgyblion B11 a myfyrwyr y chweched dosbarth.
8. Roi sylw i'r materion iechyd a diogelwch yr adroddwyd amdanynt i'r pennaeth yn ystod yr arolygiad.

***** Y mae'r materion hyn yn gynwysedig yn y CDY cyfredol.

ATODIAD

A. Gwybodaeth sylfaenol am yr ysgol

Enw'r Ysgol	Ysgol Gyfun Aberaeron
Math o ysgol	Cymunedol
Ystod oed y disgyblion	11 – 18
Cyfeiriad yr ysgol	Stryd y Fro Aberaeron Ceredigion
Côd post	SA46 0DT
Rhif Teleffon	01545 570217

Pennaeth	Miss J Marina James
Dyddiad penodi	Tachwedd 1995
Cadeirydd y llywodraethwyr	Dr Julian Evans
Arolygydd cofrestredig	Mr D Gwynfor Evans
Dyddiad yr arolygiad	26–29 Ebrill 2004

B. Data a Dangosyddion yr Ysgol

Nifer o ddisgyblion ym mhob grŵp blwyddyn								
Grŵp blwyddyn	B7	B8	B9	B10	B11	B12	B13	Cyfanrif
Nifer o ddisgyblion	115	138	120	114	146	55	60	748

Cyanrif o athrawon			
	Llawn-amser	Rhan-amser	Cywerth amser llawn (call)
Nifer o athrawon	46	2	47.9

Gwybodaeth Staffio	
Cymhareb ddisgybl:athro (call) (ac eithrio dosbarthiadau arbennig)	15.62:1
Maintioli grŵp addysgu	19.22
Cymhareb gyswllt gyffredinol	81.3%

Canran presenoldeb am y tri thymor cyfan cyn yr arolygiad								
Tymor	**B7**	**B8**	**B9**	**B10**	**B11**	**B12**	**B13**	**Ysgol-gyfan**
Haf 2003	89.7	90.8	89.8	86.3	33.6	34.6	18.2	78.2
Hydref 2003	93.4	91.0	91.4	92.4	85.5	86.5	75.1	90.7
Gwanwyn 2004	92.7	91.1	92.3	92.6	90.8	81.6	64.8	88.8

Nifer o ddisgyblion a waharddwyd yn ystod y 12 mis cyn yr arolygiad.	46 Dros dro 2 Yn barhaus

C. Canlyniadau Asesiadau'r Cwricwlwm Cenedlaethol a'r Arholiadau Cyhoeddus

Canlyniadau Asesiadau'r Cwricwlwm Cenedlaethol yn CA3: 2003															
Cyfanrif o ddisgyblion yn B9: 115															
Canran o ddisgyblion ar bob lefel															
			D	**A**	**F**	**W**	**1**	**2**	**3**	**4**	**5**	**6**	**7**	**8**	**EP**
SA	Asesiad athro	Ysgol	0	0	0	0	0	0	5	21	44	19	11	0	0
		Cenedlaethol	0	1	1	0	0	2	9	22	34	22	9	0	0
	Prawf	Ysgol	0	3	0	0	0	0	4	22	36	27	9	0	0
		Cenedlaethol	0	3	2	2	0	0	8	21	31	23	10	n	0
CY	Asesiad athro	Ysgol	0	1	0	0	0	1	11	24	30	29	3	0	0
		Cenedlaethol	0	0	0	0	0	1	6	19	34	29	10	0	0
	Prawf	Ysgol	0	4	2	0	0	0	0	26	39	27	1	0	0
		Cenedlaethol	0	2	1	1	0	0	4	19	35	28	10	0	0
MA	Asesiad athro	Ysgol	0	1	0	0	0	0	6	17	27	27	22	0	0
		Cenedlaethol	0	1	0	0	0	1	8	20	25	29	14	0	0
	Prawf	Ysgol	0	5	0	0	0	0	5	19	23	30	18	0	0
		Cenedlaethol	0	5	1	1	0	0	7	19	21	32	14	0	0
GW	Asesiad athro	Ysgol	0	1	0	0	0	0	3	10	44	29	13	0	0
		Cenedlaethol	0	1	1	0	0	0	8	21	32	25	11	0	0
	Prawf	Ysgol	0	3	0	0	0	0	2	9	40	27	20	0	0
		Cenedlaethol	0	4	1	1	0	0	6	19	31	25	14	n	0

Canran o ddisgyblion yn cyflawni o leiaf lefel 5 ym mathemateg, gwyddoniaeth a naill ai Saesneg neu Cymraeg (iaith gyntaf)			
Drwy asesiad athro		**Drwy brawf**	
Yn yr ysgol:	67	Yn yr ysgol:	62.6
Yn genedlaethol:	54.4	Yn genedlaethol:	53.5

D - Pupils excepted under statutory arrangements from part of the National Curriculum
A - Pupils who have failed to register a level because of absence
F - Pupils who have failed to register a level for reasons other than absence
W - Pupils who are working towards level 1
EP - Exceptional Performance, where pupils at Key Stage 3 perform above level 8.

Disgyblion 15 oed, canlyniadau TGAU, TA, CGCC a CGC			
Nifer oddisgyblion oed 15 ar gifrestr yr ysgol yn Ionawr 2003: 116			
Y canran o ddisgyblion 15 oed yn 2003 a:			
	Ysgol	**AU**	**Cymru**
Safodd 5 neu fwy arholiad TGAU	87	89	87
Gyflawnodd 5 neu fwy radd A*-C TGAU	52	63	51
Gyflawnodd 5 neu fwy radd A*-G TGAU	87	89	85
Gyflawnodd raddau A*-C TGAU ym mathemateg, gwyddoniaeth, Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf)	44	47	38
Safodd o leiaf un arholiad TA, cwrs byr TGAU neu TGAU	96	97	97
Gyflawnodd un neu fwy o raddau A*-C TGAU	81	82	74
Gyflawnodd un neu fwy o raddau A*-G TGAU	96	94	93
Na chyflawnodd un radd TGAU	4	6	7
Gyflawnodd un TA neu fwty yn unig	0	2	3
Gyflawnodd CGCC Rhan 1, CGCC lefel sylfaen neu CGC lefel 1			
Gyflawnodd CGCC Rhan 1, GNVQ lefel ganolradd neu CGHC lefel 2			
Gyflawnodd o leiaf 5 gradd A* - C TGAU neu gymwysterau galwedigaethol cyfwerth neu gyfuniad o'r ddau	52		
Gyflawnodd o leiaf 5 gradd A* - G TGAU neu gymwysterau galwedigaethol cyfwerth neu gyfuniad o'r ddau	87		

Myfyrwyr 17 oed, canlyniadau TGA safon Uwch, CGCC a CGC.			
Nifer o fyfyrwyr yn sefyll 2 neu fwy o arholiadau TGA safon Uwch neu gyfwerth yn 2003: 58			
Nifer o fyfyrwyr yn sefyll 2 neu lai o arholiadau TGA safon Uwch neu gyfwerth yn 2003: 10			
	Ysgol	**AU**	**Cymru**
Canran o ymgeiswyr a gafodd 2 radd A-C neu fwy	83	77	68
Canran o ymgeiswyr a gafodd 2 radd A-E neu fwy	100	97	94
Sgôr pwyntiau cyfartalog y pen	22	21	20
Nifer o fyfyrwyr a gyflawnodd CGCC Canolradd neu CGC ar lefel 2	0		
Nifer o fyfyrwyr a gyflawnodd CGCC Uwch neu CGC ar lefel 3	6		

D. Sylfaen Tystiolaeth yr Arolygaid

Yr oedd 15 o arolygwyr yn y tîm arolygu; ymwelsant â'r ysgol am gyfanrif o 50 o ddiwrnodau arolygu. Yn ystod y cyfnod hwnnw, arsylwyd ar 185 o wersi. Ymwelodd yr arolygwyr â'r sesiynau cydaddoli, sesiynau tiwtora a chofrestru, a rhai gweithgareddau allgyrsiol. Archwiliwyd gwaith ysgrifenedig pob grŵp blwyddyn gan y tîm arolygu. Cynhaliwyd trafodaethau ffurfiol gyda grwpiau o ddisgyblion a myfyrwyr o B7 i B13, a thrafodaethau anffurfiol gyda sawl disgybl a myfyriwr arall. Arsylwodd yr arolygwyr ar ymddygiad y disgyblion y tu allan i'w gwersi yn ystod egwyliau ac amser cinio ac amserau eraill. Cynhaliwyd cyfweliadau gyda'r pennaeth, y dirprwy bennaeth, y tri phennaeth cynorthwyol, penaethiaid adran, cyd-drefnyddion, aelodau eraill o'r staff â chyfrifoldebau penodol, a gyda'r staff nad ydynt yn addysgu. Mynychodd yr arolygydd cofrestredig, ynghyd ag aelod arall o'r tîm arolygu, gyfarfod y llywodraethwyr a chyfarfod gyda 21 o'r rhieni cyn yr arolygiad. Dadansoddodd y tîm arolygu 135 o ymatebion i holiadur y rhieni cyn yr arolygiad. Darparodd yr ysgol ddogfennaeth gynhwysfawr cyn ac yn ystod yr arolygiad. Cynhaliwyd cyfarfodydd ôl-arolygiad gyda'r adrannau, yr UDRh a'r corff llywodraethol.

E. Cyfansoddiad a Chyfrifoldebau'r Tim Arolygu

Arolygydd	Math	Cyfrifoldebau agwedd	Cyfrifoldebau pwnc
Mr D G Evans	ACof	1. Cyd-destun 2. Prif ganfyddiadau 3.1 Safonau addysgol a gyflawnir gan y disgyblion 5.1 Addysgu 6.2 Arweinyddiaeth ac effeithlonrwydd 8.1 Gwella'r ysgol	Cymraeg ABCh Addysg gorfforol
Mr G G Jones	Lleyg	4.2 Ymddygiad ac ymagweddau 4.3 Presenoldeb 5.6 Partneriaeth â'r rhieni a'r gymuned, ysgolion a sefydliadau eraill 5.7 Partneriaeth â diwydiant	
Mr D Treharne	Craidd	4.1 Datblygaid ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion 5.5 Darpariaeth i ddisgyblion ag AAA	Addysg grefyddol
Dr J Hughes	Craidd	6.1 Ansawdd hunan-werthuso a chynllunio ar gyfer gwelliant 6.3 Staffio, ystafelloedd ac adnoddau dysgu	Gwyddoniaeth Electroneg
Mr Peredur Francis	Craidd	5.3 Cwricwlwm Cyd-drefnydd y chweched dosbarth Rhifedd	Mathemateg
Mrs M M Williams	Craidd	5.2 Asesu, cofnodi ac adrodd 3.2 Sgiliau allweddol	Saesneg Astudiaethau'r cyfryngau
Mr H Llewelyn	Craidd	5.4 Cymorth, cyfarwyddyd a lles y disgyblion	Daearyddiaeth Hamdden ac Adloniant ABCh
Mr Z Davies	Tîm		Cymraeg
Mrs A Williams	Tîm		Gwyddoniaeth
Mrs E Jones	Tîm		Dylunio a thechnoleg, Economeg y cartref, gofal plant, iechyd a gofal cymdeithasol
Mr K Hopkins	Tîm	Technoleg gwybodaeth a chyfathrebu	Technoleg gwybodaeth Cyfrifiaduro Dylunio a thechnoleg Peirianneg
Mr D Barnes	Tîm		Hanes
Mrs L Meiring	Tîm		Ieithoedd tramor modern
Mr A W Jones	Tîm		Cerddoriaeth
Dr N E Thomas	Tîm		Addysg gorfforol

Dymuna'r arolygwyr a ymwelodd â'r ysgol ddiolch i'r llywodraethwyr, y pennaeth a'r holl staff am y cydweithrediad a'r cwrteisi a estynnwyd iddynt yn ystod yr arolygiad.

YSGOL GYFUN ABERAERON – Y CHWECHED DOSBARTH

CYD-DESTUN

Ysgol gymysg ar gyfer disgyblion a myfyrwyr 11-18 ac a gynhelir gan yr AU yw Ysgol Gyfun Aberaeron, ac y mae'n gwasanaethu tref arfordirol a'r ardal o gwmpas sydd gan fwyaf yn wledig.

Ysgol ddwyieithog draddodiadol ydyw ac er mai prif iaith dim mwy na thua chwarter o'r disgyblion yw'r Gymraeg, y mae'r ysgol yn cyfrif bod tua hanner ohonynt yn siarad y Gymraeg yn iaith gyntaf neu i safon gyfwerth.

Yn gyfredol, y mae 115 o fyfyrwyr yn y chweched dosbarth. Y mae 55 o fyfyrwyr yn B12 a 60 yn B13. Maentumia'r ysgol fod y myfyrwyr yn dod o ardal nad yw nac yn llewyrchus nac o dan anfantais yn economaidd. Y mae gan tua 13 y cant o'r myfyrwyr hawl i ginio ysgol yn rhad ac am ddim.

Y mae gan yr ysgol bolisi mynediad agored i'r chweched dosbarth. Y mae'n cynnig cwricwlwm eang i'r myfyrwyr ynghyd ag ystod da o brofiadau.

Cenhadaeth yr ysgol yw 'darparu canolfan o ragoriaeth o fewn cymuned ddwyieithog yr anogir pob unigolyn ynddi i ddatblygu i'w potensial yn llawn'. Y mae ganddi nodau ac amcanion priodol i gyflawni ei chenhadaeth, ac y mae CDY am y cyfnod 2002 i 2005 yn cyfeirio at anghenion a materion ysgol-gyfan. Fel ysgol ddwyieithog draddodiadol y mae hefyd yn amcanu sicrhau darpariaeth ddwyieithog ym mhob agwedd o'i bywyd fel y bo'r disgyblion yn gallu integreiddio'n foddhaol ac yn hapus mewn cymuned ddwyieithog.

PRIF GANFYDDIADAU

Yn gyffredinol, bydd y myfyrwyr yn cyflawni safonau da, ac yn rhai pynciau, safonau da iawn. Yn 91 y cant o'r dosbarthiadau yr arsylwyd arnynt, yr oedd y safonau o leiaf yn dda, gan gynnwys 16 y cant lle yr oeddent yn dda iawn. Y mae'r ffigurau hyn yn rhai uchel iawn. Yr oedd y safonau'n anfoddhaol mewn lleiafrif bach iawn o ddosbarthiadau.

Y mae canlyniadau arholiad TGAU o ran graddau A-C ac A-E wedi bod yn uwch na chyfartaleddau'r AU a'r rhai cenedlaethol dros y tair blynedd diwethaf. Ni fu blaengareddau'r sgiliau allweddol yn llwyddiannus yn y blynyddoedd diweddar, ac ni safodd un myfyriwr arholiad.

Y mae ansawdd yr addysgu yn dda yn gyffredinol, ac yr oedd yn dda iawn yn chwarter o'r dosbarthiadau yr arsylwyd arnynt. Yr oedd yn dda mewn 58 y cant pellach, yn foddhaol yn 14 y cant ac yn anfoddhaol yn nhri y cant. Yn y mwyafrif o'r gwersi, y mae addysgu da a da iawn yn sicrhau bod y myfyrwyr yn cael eu paratoi yn dda ar gyfer arholiadau, profion ymarferol ac aseiniadau gwaith cwrs; y mae'r cyfleoedd a gânt i ddod yn ddysgwyr annibynnol yn datblygu. Y mae'r berthynas rhwng myfyrwyr ac athrawon yn dda.

Gyda phennaeth B12 a Phennaeth B13 y mae'r cyfrifoldeb am y chweched dosbarth. Y mae'r ddwy wedi bod yn eu swyddi ers Medi 2003 ac y maent felly yn y broses o ddatblygu eu rolau arwain a rheoli gyda'r grwpiau oedran hyn. Mae gan un aelod o'r UDRh gyfrifoldeb cyffredinol am y chweched dosbarth. Y mae'r monitro o gynnydd y myfyrwyr yn dda, a theimla'r myfyrwyr eu bod yn cael eu cynorthwyo yn dda yn eu datblygiad academaidd a phersonol. Serch hynny, nid arsylwir ar wersi'r chweched dosbarth yn rheolaidd fel rhan o'r rhaglen hunan-werthuso ysgol-gyfan.

Y mae'r myfyrwyr yn gyffredinol yn falch o'u hysgol ac yn gefnogol iddi, a bydd tua 60 y cant o ddisgyblion B11 yn ymuno â'r chweched dosbarth. Y mae cytundeb yn bod rhwng yr ysgol, y myfyrwyr a'u rhieni, ond y mae angen ei adolygu i gynnwys gwybodaeth fwy penodol am yr hyn a ddisgwylir gan y myfyrwyr.

Y mae'r myfyrwyr yn aeddfed, yn agored a chyfeillgar. Byddant yn ymddwyn yn dda yn eu gwersi a thrwy'r ysgol; y maent yn awyddus i ddysgu ac yn gyffredinol byddant yn mwynhau eu hamser yn yr ysgol. Y mae rhai myfyrwyr B12 wedi cwblhau cwrs anabledd mewn chwaraeon a byddant yn gwirfoddoli i gynorthwyo eraill ar un Sadwrn bob mis. Y mae eraill wedi cwblhau cwrs arweinwyr pêl-droed neu gwrs chwaraeon y Ddraig, ac y maent yn gymwys i fynd allan i ysgol gynradd i roi cymorth yn hyfforddiant pêl-droed neu gyda chwaraeon eraill. Derbyniwyd nifer o ferched i gynorthwyo'r WRVS gyda'r gwasanaeth 'pryd ar glud' lleol. Y mae nifer o'r myfyrwyr hefyd yn dilyn y cwrs 'trwydded yrru cyfrifiadur Ewropeaidd' a gynhelir gan y Brifysgol yn Llanbedr Pont Steffan. Y mae rhai hefyd yn cymryd rhan yn y Cyngor Ysgol a dyry hynny gyfle iddynt gyfrannu yn y broses o wneud penderfyniadau.

Y mae'r cymorth a'r cyfarwyddyd a roddir i'r myfyrwyr yn dda. Cânt adborth da yn gyson ar eu cynnydd a gosodir targedau penodol iddynt wella ansawdd eu gwaith.

Bydd yr holl athrawon pwnc yn adrodd am y myfyrwyr bob hanner tymor. Dilynir hynny gan gyfweliad gyda phennaeth B12 neu bennaeth B13. Pan ddigwydd tangyflawni, bydd yr athro pwnc yn rhoi adroddiad pellach ar ôl tair wythnos. Lle y bo'r gofyn, trefnir cyfweliadau pellach gyda phennaeth B12 neu B13 ac fe ymgynghorir gyda'r rhieni. Y mae'r adroddiadau i'r rhieni yn fanwl ac yn dynodi'r cynnydd a wneir a'r targedau a osodir ar gyfer gwelliant yn y rhan fwyaf o bynciau.

Y mae natur, cwmpas a dyluniad y cwricwlwm ôl-16 yn dda ac yn rhoi llawer o gyfleoedd i'r myfyrwyr. Rhoddir dewis eang o gyrsiau iddynt. Gallant ddewis o restr o 22 o bynciau yn cynnwys y cwrs safon uwch diarholiad Safon Sylfaen, ac y mae hyn yn nifer dda o gyrsiau i ysgol o faintioli hon.

Rhoddir cyngor da i'r myfyrwyr parthed pa gwrs y dylent ei ddilyn yn y chweched dosbarth. Y mae'r cyfarwyddyd gyrfaol yn dda ac yn gyffredinol bydd y myfyrwyr yn cael eu paratoi'n dda ar gyfer y dewisiadau y mae'n rhaid iddynt eu gwneud am addysg uwch neu gyflogaeth. Y mae mewnbwn Gyrfaoedd Cymru'r Gorllewin ac ystod o siaradwyr gwâdd yn cyfoethogi'r rhaglen. Bydd yr holl fyfyrwyr yn cael lleiafswm o bum niwrnod o brofiad gwaith.

Y mae'r cyrsiau wedi eu staffio'n briodol ac y mae'r cyfleusterau a'r adnoddau addysgu o safon dda. Y mae'r ystafelloedd sydd ar gael i'r chweched dosbarth yn dda ac y mae ganddynt ystafell gyffredin benodedig gyda bwrdd pŵl a chyfleusterau chwarae cerddoriaeth. Y mae ansawdd y celfi yn yr ystafell hon yn foddhaol. Bydd y myfyrwyr yn astudio'n breifat yn y llyfrgell sydd ar gael yn wastadol ond am un wers y dydd. Y mae'r myfyrwyr yn elwa ar gyflenwad da o werslyfrau priodol, canllawiau astudio ac adnoddau eraill.

Anfoddhaol yw'r cyfraddau presenoldeb yn y chweched dosbarth yn B12 a gwael ydyw yn B13. Yn ystod y tri thymor cyfan cyn yr arolygiad yr oedd y gyfradd yn B12 yn 67.5 y cant ac yn B13 yn 52.7 y cant. Y mae'r cyfraddau yn nhymor arholiadau'r haf yn fater o bryder. Y mae'r trefniadau cofrestru yn ddryslyd ac er y gofynnir i'r myfyrwyr arwyddo i mewn ac allan, a bod presenoldeb yn y gwersi'n cael ei gofnodi fel arfer, y mae'n amlwg nad oes gan yr ysgol gofnod ar ei union a gwiriadwy yn ganolog o bresenoldeb myfyrwyr y chweched dosbarth.

Y mae'r myfyrwyr yn chwarae rhan lawn ym mywyd yr ysgol a byddant yn cyfrannu yn ei gweithgareddau diwylliannol, mewn chwaraeon ac wrth godi arian a chynnal achlysuron elusennol. Byddant hefyd yn cymryd rhan fawr yng nghynhyrchiadau'r ysgol, yr eisteddfod ac mewn gweithgareddau yn y gymuned lleol. Myfyrwyr B12 sy'n cynhyrchu'r cylchgrawn ysgol blynyddol. Y mae nifer yn cymryd rhan yn y 'Cynllun Cyfeillion' lle y byddant yn cynorthwyo disgyblion B7 gyda'u darllen.

Caiff myfyrwyr y chweched dosbarth nifer o gyfleoedd i gael profiad o fyd gwaith. Cymerant ran yng Nghynllun Menter yr Ifanc a sefydlwyd gyda chymorth y Clwb Rotari lleol, ym mhrosiect Dyfodol Newydd Banc Barclays a Dyfarniad Dug Caeredin. Y mae myfyrwyr o'r adran ieithoedd tramor modern ac o'r adran wyddoniaeth wedi cael profiad o fyd gwaith drwy eu cysylltiad â'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol a'r Gymdeithas Gemeg Frenhinol.

SAFONAU

Safonau a gyflawnir yn y pynciau a meysydd dysgu

Yn y dosbarthiadau yr arsylwyd arnynt yn yr arolygiad, yr oedd y safonau'n dda neu'n dda iawn yn 16 y cant o'r cyfanrif, yn dda yn 75 y cant, yn foddhaol yn 3 y cant ac yn anfoddhaol yn 6 y cant.

Y mae'r safonau a gyflawnir gan y myfyrwyr yn eu cyrsiau fel a ganlyn isod:

Pwnc	**Y chweched dosbarth**
Cymraeg	Da
Saesneg	Da
Mathemateg	Da
Gwyddoniaeth	Da
Dylunio a Thechnoleg	Da
Cyfrifiaduro	Da iawn
Technoleg gwybodaeth TAAU	Da
Hanes	Da
Daearyddiaeth	Da iawn
Ieiothoedd tramor modern	Da
Celf a dylunio	Nid arolygwyd
Cerddoriaeth	Da iawn
Addysg gorfforol	Anfoddhaol
Astudiaethau crefyddol	Da
Addysg bersonol a Chymdeithasol	Da
Iechyd a Gofal Cymdeithasol TAAU	Da
Economeg	Nid arolygwyd
Electroneg	Dim arfarniad
Astudiaethau'r cyfryngau	Da iawn
Hamdden ac Adloniant TAAU	Da
Gofal Plant (Lefel Mynediad)	Da

Safonau yn y sgiliau allweddol ar draws y cwricwlwm

Gwrando	Da Iawn
Siarad	Da
Darllen	Da Iawn
Ysgrifennu	Da
Rhifedd	Da
Technoleg gwybodaeth a chyfathrebu	Boddhaol
Gweithio gydag eraill	Da
Sgiliau creadigol	Da
Datrys problemau	Da

Yn gyffredinol, bydd y myfyrwyr yn cyflawni safonau da yn eu cyrsiau. Y mae canlyniadau'r arholiad safon Uwch o ran graddau A-C ac A-E wedi bod yn uwch na'r cyfartaleddau yn yr AU a'r cyfartaleddau cenedlaethol dros y tair blynedd diwethaf. Y mae'r holl ymgeiswyr wedi cyflawni cyfradd lwyddiant o 100 y cant (Graddau A-E) yn y tair blynedd diwethaf. Yn 2003, cyflawnodd 83 y cant o'r myfyrwyr o leiaf ddwy radd A-C, mewn cymhariaeth â 77 y cant yn sirol a 68 y cant yn genedlaethol. Yr oedd y sgôr cyfartalog y pen o 22 yn uwch na'r ffigur sirol (21) a'r ffigur cenedlaethol (20). Dros y tair blynedd diwethaf, y mae'r myfyrwyr gwryw wedi perfformio'n well na'r merched yn arholiadau safon Uwch.

Bydd y rhan fwyaf o'r myfyrwyr yn gwneud cynnydd da o CA4 ymlaen a bydd llawer ohonynt yn cymryd llawer o'r cyfrifoldeb o gynnal y cynnydd hwn drwy ymchwil annibynnol. Yn y gwaith cyfrifiaduro, cerddoriaeth, daearyddiaeth ac astudiaethau'r cyfryngau, byddant yn cyflawni safonau da iawn yn holl agweddau eu hastudiaethau safon Uwch. Yn y pynciau eraill, ar wahân i addysg gorfforol, y mae ganddynt ddealltwriaeth dda o'r cysyniadau allweddol, ac y mae cyflwyniad a

threfniant eu gwaith ysgrifenedig o safon dda. Y mae'r gwaith yn y meysydd galwedigaethol o safon dda.

Y mae sgiliau llythrennedd y myfyrwyr yn dda yn gyffredinol. Y mae ganddynt sgiliau gwrando a darllen da iawn, ac y mae eu sgiliau siarad ac ysgrifennu yn dda. Gweithiant mewn grwpiau yn effeithiol, gan wrando'n astud ar eu hathrawon ac ar gyflwyniadau a chyfraniadau ei gilydd mewn trafodaethau. Archwiliant faterion yn hyderus, gan adeiladu'n effeithiol ar eu syniadau eu hunain a syniadau ei gilydd.

Byddant yn ymgymryd ag ymchwil a gwaith prosiect yn annibynnol, gan gasglu gwybodaeth o ystod eang o ffynonellau i'w chynnwys yn eu gwaith. Ymatebant yn dda i amryfal destunau a astudiant, ond yn hanes nid yw eu darllen estynedig wedi'i ddatblygu'n ddigonol.

Gallant gymryd nodiadau yn fedrus ac ysgrifennant yn estynedig, i ddibenion astudiaeth ar y pryd ac ar gyfer y tasgau gwaith cwrs hir eu parhad sy'n rhan sylweddol o'r asesu yn holl bynciau yn safon Uwch ac UG.

Defnyddiant eu sgiliau TGCh yn gymwys mewn ystod o gyd-destunau mewn nifer o bynciau, yn enwedig i wella cyflwyniad eu gwaith. Dyry cylchlythyr yr ysgol a gynhyrchir gan fyfyrwyr sy'n astudio'r cyfryngau enghreifftiau ardderchog o ymarferiad o'r sgiliau hynny. Byddant yn dethol meddalwedd priodol i gwblhau amryfal dasgau, ond ym mathemateg nid yw'r defnydd o TGCh wedi'i ddatblygu'n ddigonol.

Y mae'r safonau rhifedd yn dda. Y mae'r sgiliau creadigol wedi cael eu datblygu'n dda mewn nifer o bynciau ac y mae datrys problemau yn nodwedd gynyddol gyffredin yn llawer o'r gwersi. Yn gyffredinol, bydd y myfyrwyr yn cymryd cyfrifoldeb am eu dysg eu hunain, pa un a fyddant yn dilyn cwrs UG, safon Uwch neu gwrs galwedigaethol.

Ceir gostyngiad yn y nifer sy'n para i ddilyn eu cyrsiau o B12 i B13. Y llynedd, gadawodd 13 o fyfyrwyr ar ddiwedd B12 am amryw resymau, i gael gwaith oedd un ohonynt. Cânt eu paratoi'n briodol ar gyfer y dewisiadau y mae'n rhaid iddynt eu gwneud ar gyfer addysg uwch neu gyflogaeth.

ANSAWDD YR ADDYSG A'R HYFFORDDIANT

Yr Addysgu a'r Asesu

Y mae ansawdd yr addysgu yn gyffredinol yn dda. Yr oedd yr addysgu o leiaf yn foddhaol yn 97 y cant o'r dosbarthiadau yr arsylwyd arnynt. Yr oedd yn dda neu'n dda iawn yn 93 y cant ohonynt, gan gynnwys 25 y cant yr arfarnwyd eu bod yn dda iawn. Y mae'r rhain yn ffigurau uchel.

Y mae gan yr athrawon yn gyffredinol wybodaeth dda o'u pwnc ac o ofynion y cyrsiau. Y mae'r berthynas rhyngddynt a'r myfyrwyr yn dda iawn ac y mae hynny'n creu amgylchedd dysgu positif iawn yn y mwyafrif o'r dosbarthiadau. Caiff y myfyrwyr eu paratoi'n dda ar gyfer arholiadau, profion ymarferol, ac aseiniadau gwaith cwrs, ac eithrio addysg gorfforol, lle y mae eu gwaith yn anorffen.

Yn y rhan fwyaf o'r gwersi, bydd yr athrawon yn defnyddio ystod eang o dechnegau addysgu ac adnoddau dysgu i gyflwyno gwybodaeth ac annog trafodaeth. Y mae gan yr ysgol ddigon o adnoddau a bydd y myfyrwyr yn derbyn deunyddiau defnyddiol i'w cynorthwyo yn eu hastudiaethau. Y mae gan yr ysgol gyfleusterau cyfrifiadurol da, ond ni chânt eu defnyddio'n llawn yn y gwersi hyd yma.

Mewn nifer o wersi, ceir lefel uchel o gyfranogiad myfyrwyr ac y mae hynny'n cadarnhau eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth. Ceir hefyd bwyslais cynyddol ar ddysgu annibynnol yn y chweched dosbarth. Mewn ychydig o wersi, y mae'r ystod o dechnegau addysgu yn rhy gyfyng ac y mae rhai o'r tasgau y brin o ran her a dyfnder.

Bydd y rhan fwyaf o'r athrawon yn marcio gwaith dosbarth a gwaith cartref yn drwyadl ac yn rhoi adborth llafar ac ysgrifenedig effeithiol i'r myfyrwyr. Y mae'r adborth ysgrifenedig yn fanwl ac yn llawn gwybodaeth, yn dangos i'r myfyrwyr sut i wella eu gwaith drwy ddynodi diffygion yn ogystal â chryfderau. Yn addysg gorfforol, serch hynny, y mae'r ffeiliau UG a safon Uwch yn cael eu marcio'n wael ac y mae'r system raddio yn anghyson. Y mae'r adborth yn brin o fanylion ac ni chaiff y myfyrwyr gyfarwyddyd parthed sut i wella.

Defnyddir y broses ddrafftio yn effeithiol i wella safonau cyflawni, a defnyddir profion a ffug arholiadau yn gyson yn y broses asesu i baratoi'r myfyrwyr ar gyfer asesu allanol ac i ddarogan

llwyddiant yn y dyfodol. Y mae gan y myfyrwyr yn gyffredinol syniad clir o'r radd y maent yn ei chyrchu. Ar y cyfan, y mae'r adroddiadau i'r rhieni o ansawdd dda, yn rhoi digon o fanylion am dargedau a thargedau ar gyfer gwelliant.

Profiadau dysgu

Y mae ansawdd cwricwlwm y chweched dosbarth yn dda yn gyffredinol.

Y mae natur, cwmpas a dyluniad y cwricwlwm ôl-16 yn dda ac yn rhoi llawer cyfle i'r myfyrwyr. Cynigir iddynt ystod eang o gyrsiau yn cynnwys rhai galwedigaethol. Gall y myfyrwyr ddewis o restr o 22 o bynciau gan gynnwys y cwrs safon uwch diarholiad Safon Sylfaen ac y mae hynny'n nifer dda mewn ysgol o faintioli hon. Yn B12, ceir cynlluniau i'r disgyblion ddilyn cyrsiau sgiliau allweddol a gobeithir gweithredu'r cynlluniau hynny ar ôl yr arholiadau allanol. Ar hyn o bryd nid oes cynllun sy'n galluogi'r myfyrwyr i ennill cymwysterau yn yr agwedd hon o'u hastudiaeth. Y mae'r amser a ddyrennir i'r pynciau yn amrywio, ac ni chaiff Almaeneg yn B12 ddim mwy na phum gwers er y dyrennir wyth gwers i'r pynciau eraill. Dyrennir dim mwy nag wyth gwers i gerddoriaeth a hamdden ac adloniant yn B13, er y dyrennir 10 gwers i'r pynciau eraill. Pedair gwers a ddyrennir i un cwrs yn nylunio a thechnoleg. Ni ddarperir addysg grefyddol i'r chweched dosbarth; gan hynny, nid yw'r ysgol yn cwrdd â'r gofynion statudol. Amlygwyd hyn hefyd yn fater allweddol i'w weithredu yn adroddiad yr arolygiad diwethaf. Ni chaiff y myfyrwyr gyfle i ddilyn cwrs addysg gorfforol diarholiad.

Y mae'r trefniadau ar gyfer ABCh yn y chweched dosbarth yn dda. Y mae'r rhaglen yn cynnwys amryfal brofiadau i'r myfyrwyr oll. Y mae'n cynnwys addysg a chyfarwyddyd gyrfaol a chyngor parthed mynediad i addysg uwch. Trefnir bod ABCh yn cael ei chyflwyno mewn gwers hanner awr. Y mae cyfraniadau siaradwyr gwâdd yn cyfoethogi'r rhaglen. Caiff y myfyrwyr leiafswm o bum niwrnod o brofiad gwaith.

Yn ddiweddar, y mae'r ysgol wedi cyflwyno cwrs 'Sgiliau Cyntaf' – cwrs sgiliau personol a chymdeithasol ar gyfer myfyrwyr ag AAA yn B12 a B13. Y mae'r cwrs hwn yn arbennig o effeithiol a gwnaed cynnydd da iawn gan y pedwar myfyriwr (y mae tri ag AAA) sy'n ei ddilyn, yn enwedig yn y modiwlau a gwblhawyd ar *Iechyd a Hylendid* a *Myfi ac Eraill*. Y mae'r gwaith a wneir o safon dda. Y mae un o'r myfyrwyr yn ymgymryd â phrofiad gwaith gwerthfawr yn yr ysgol fel CCD am un diwrnod bob wythnos.

Ychydig iawn o ddarpariaeth allgyrsiol sydd i'r chweched dosbarth, a daeth hynny i'r amlwg mewn trafodaethau gyda'r myfyrwyr yn ystod yr arolygiad. Yn y rhestr a gafwyd gan yr ysgol, un ddarpariaeth allgyrsiol yn unig a gofnodwyd yn ystod wythnos yr arolygiad. Serch hynny, y mae nifer sylweddol o fyfyrwyr y chweched dosbarth yn cymryd rhan yn weithredol yn y gymuned ac y maent yn cyfrannu at y swm sylweddol o arian a gwyd yr ysgol ar gyfer elusennau ac achosion da.

Cymorth a chyfarwyddyd

Y mae ansawdd y cymorth a'r cyfarwyddyd yn dda. Adlewyrchir ethos gofalgar yr ysgol a'r ymdeimlad o gymuned ym mywyd y chweched dosbarth. Y mae'r athrawon yn adnabod y myfyrwyr yn dda ac y mae'r berthynas rhyngddynt yn y dosbarth yn dda iawn. Y mae'r myfyrwyr yn gwerthfawrogi'r cymorth cadarn a gofalgar a gânt gan eu hathrawon, yn y gwersi a'r tu allan iddynt. Y mae penaethiaid B12 a B13 yn arwain tîm o diwtoriaid sy'n dangos gofal am y myfyrwyr ac yn monitro eu cynnydd. Bydd yr holl athrawon pwnc yn adolygu cynnydd bob hanner tymor; dilynir hynny gan gyfweliad gyda phennaeth y grŵp blwyddyn perthnasol. Trefnir cyfweliadau pellach gyda phenaethiaid B12 a B13 os bydd amgen, ac ymgynghorir â'r rhieni.

Y mae rhaglen ABCh amserlenedig yn para drwy'r chweched dosbarth. Caiff y myfyrwyr gyngor ar faterion yn ymwneud â rheolaeth amser, sgiliau astudio, materion iechyd, profiad gwaith, gyrfaoedd a chyfleoedd yn addysg uwch. Y mae cyfraniadau siaradwyr gwâdd yn cyfoethogi'r rhaglen.

Y mae'r addysg yrfaol yn dda. Caiff y myfyrwyr eu paratoi'n dda ar y dewisiadau y mae'n rhaid iddynt eu gwneud parthed addysg uwch a chyflogaeth. Cânt gymorth gwerthfawr gan benaethiaid B12 a B13, eu tiwtoriaid dosbarth a'r gwasanaeth gyrfaol.

Gwna'r ysgol ddefnydd da o'i pherthynas agos â Gyrfaoedd Cymru'r Gorllewin. Y mae rhaglen brofiad gwaith B12 wedi'i threfnu'n dda a chaiff y myfyrwyr gyngor da parthed cwblhau ffurflenni cais, cyfddyddio CV a'i baratoi ar gyfer cyfweliad. Cânt gyfleoedd i ymweld â sefydliadau addysg uwch ac i fynychu cynadleddau gyrfaoedd.

Arweinyddiaeth a rheolaeth

Pennaeth B12 a phennaeth B13 sydd â chyfrifoldeb am y chweched dosbarth yn gyffredinol. Y mae'r ddwy wedi bod yn eu swyddi ers Medi 2003 ac y maent felly yn y broses o ddatblygu eu rôl fel arweinwyr a rheolwyr y grŵp oed arbennig hwn. Bu ganddynt, gynt, gyfrifoldebau bugeiliol gyda grwpiau iau yn yr ysgol. Gyrrir cenhadaeth yr ysgol o "ddarparu canolfan o ragoriaeth o fewn cymuned ddwyieithog lle yr anogir pob unigolyn i ddatblygu i'w botensial yn llawn" gan CDY effeithiol a staff ymroddedig. Y mae canlyniadau arholiadau safon Uwch yn cadarnhau bod yr ysgol yn llwyddo i gyflawni ei hamcanion yn gyffredinol.

Mae gan un aelod o'r UDRh gyfrifoldeb am y chweched dosbarth. Ceir bod cysylltiadau da gyda chyd-drefnyddion gyrfaoedd, ABCh a sgiliau allweddol. Y mae cynlluniau datblygu'r adrannau yn gosod targedau i'r myfyrwyr yn seiliedig ar ddadansoddiad o berfformiad arholiadol ac adnabyddiaeth yr athrawon ohonynt.

Dynodwyd ymarferoldeb cynnal dosbarthiadau bach yn rhai pynciau yn B12 a B13 yn fater allweddol i'w weithredu yn yr arolygiad diwethaf. Yn gyfredol, cyflwynir electroneg drwy gyfrwng cynadledda-fideo, ac y mae'r ysgol hefyd wedi ystyried opsiynau eraill, yn cynnwys cysylltiadau gyda darparwyr a sefydliadau eraill er mwyn rhesymoli rhai agweddau ar y ddarpariaeth. Serch hynny, y mae maintioli'r dosbarthiadau yn para'n fach mewn sawl pwnc ac felly'n ddrud o ran staff ac adnoddau. Yn gyffredinol, y mae'r cynllunio a'r rheolaeth ariannol yn dda. Trafodir y gyllideb yn ddoeth ac yn effeithlon, a gwneir penderfyniadau am wariant yn dilyn ystyriaeth ofalus o'r blaenoriaethau a ddynodir yn y CDY.

Y mae'r ysgol yn y broses o sefydlu gweithdrefnau priodol ar gyfer gwerthuso ei pherfformiad a chynllunio datblygiadau pellach yn y chweched dosbarth. Ceir dadansoddiad da o ganlyniadau arholiadau allanol yn y chweched dosbarth ac fe'i cynhwysir yn adroddiad hunan-werthuso'r ysgol. Y mae'r monitro o gynnydd y myfyrwyr yn dda a bydd y myfyrwyr yn teimlo eu bod yn cael cymorth da yn eu datblygiad personol ac academaidd. Cymerir barn y myfyrwyr i ystyriaeth yn y cyngor ysgol newydd ei sefydlu. Nid arsylwir ar wersi'r chweched dosbarth yn rheolaidd fel rhan o raglen hunan-werthuso'r ysgol.

Yn gyffredinol, ceir cydbwysedd da o ran oed a phrofiad ymhlith y staff sy'n addysgu B12 a B13. Y mae arbenigedd y staff yn cyfateb â gofynion cwricwlwm y chweched dosbarth. Caiff y myfyrwyr gymorth da gan y staff clerigol a thechnegol ym mhob maes pwnc. Y mae'r staff yn cymryd rhan mewn rhaglen ddatblygiad proffesiynol a reolir yn dda ac a werthusir yn ofalus.

Y mae gan y myfyrwyr ofod astudio a lle i gymdeithasu. Y mae rheolwr y safle a'r staff glanhau yn sicrhau bod ystafelloedd y chweched dosbarth yn cael eu cadw mewn cyflwr da, yn lân iawn ac mor ddiogel ag sy'n bosibl. Y mae llyfrgell yr ysgol ar gael i'r myfyrwyr weithio ynddi, ar wahân i un wers y dydd. Yn gyffredinol, y mae ystafelloedd y chweched dosbarth yn dda, ac yn y mwyafrif o'r meysydd pwnc yn dda iawn.

Caiff y myfyrwyr fynediad i ystod da o gyfarpar TGCh mewn switiau o gwmpas yr ysgol ac yn y llyfrgell. Yn y llyfrgell yn ogystal ag yn yr adrannau, ceir cyflenwad da o lyfrau cyfair. Y mae'r myfyrwyr yn elwa ar gyflenwad da o werslyfrau, canllawiau astudio ac adnoddau eraill.

PYNCIAU A MEYSYDD DYSGU

Cymraeg

Y mae'r safonau cyflawni yn dda.

Nodweddion da

- Gall myfyrwyr drafod testunau gosod yn dreiddgar gan ddangos gwybodaeth cefndirol a sgiliau dadansoddi cadarn. Defnyddiant iaith lafar raenus a chywir ar y cyfan.
- Gall y myfyrwyr gynhyrchu gwaith ysgrifennu manwl, wedi eu strwythuro'n effeithiol. Gallant amrywio cywair ac arddull yn ôl y dasg a gwneud defnydd pwrpasol o idiomau a chystrawennau pwrpasol.

- Y mae safonau darllen yn dda iawn. Gall myfyrwyr ddarllen testunau gosod o bob cyfnod a chanfod ystyron ac is-leisiau mewn testunau.

Diffygion

- Nid oes diffygion o bwys.

Saesneg

Y mae'r safonau cyflawni yn dda.

Nodweddion da

- Y mae'r trafodaethau bywiog ac effeithiol yn y dosbarthiadau yn adlewyrchu sgiliau llafar da y myfyrwyr ac y mae'r cyfnewidiadau llafar pwrpasol a geir yn y gwaith grŵp yn amlygu eu bod yn defnyddio iaith yn llafar effeithiol i gydweithio a gwella eu dealltwriaeth eu hunain.
- Y mae eu hadborth meddylgar yn amlygu defnydd effeithiol o'u sgiliau darllen a dadansoddol datblygedig ynghyd â'u gallu i ddatblygu ac addasu eu dehongliadau a'u syniadau hwy eu hunain.
- Gallant gymryd nodiadau yn fedrus, ac y mae eu gwaith ysgrifenedig yn gyson o safon dda. Y mae gwaith ysgrifenedig y mwy galluog yn feddylgar, yn dreiddgar ac wedi'i fynegi'n dda.
- Cyflwynir gwaith cwrs yn dda ac y mae'n bodloni gofynion UG a safon Uwch yn llawn o ran dealltwriaeth o genre, cymeriad a chymhelliant, yn ogystal ag effaith arddull ac arwyddocâd cyd-destun hanesyddol yn nehongliad ystod o destunau llenyddol.
- Y mae'r gwaith cwrs gorau yn fanwl ac yn soffistigedig ei fynegiant a'i resymu.

Diffygion

- Nodweddir iaith trafodaethau yn aml gan eirfa ddidaro, ac y mae ychydig o'r myfyrwyr yn amharod i gyfrannu'n llafar.
- Yn y gwaith drafft, y mae'r mynegiant ysgrifenedig weithiau'n ddryslyd, a braidd yn ansicr yw sgiliau technegol lleiafrif.

Mathemateg

Y mae'r safonau cyflawni yn dda.

Nodweddion da

- Y mae'r myfyrwyr yn cael y cyfle i astudio mathemateg bur a mecaneg ar y lefel hon.
- Ym mathemateg bur, y mae'r myfyrwyr yn deall integriad a differiad a gallant ddefnyddio'r prosesau hynny i bennu pwyntiau macsimwm a minimwm a'r arwynebedd o dan gromlin.
- Gallant gymhwyso hafaliadau mudiant i ddatrys problemau yn briodol.
- Gallant ddelio'n effeithiol â ffracsiynau rhannol a phennu'r ffracsiynau sy'n cynrychioli ffracsiwn cyffredinol gosodedig.
- Deallant sut i gyfrif hafaliad tangiad a sythlin i gromlin.
- Gallant ddefnyddio hafaliadau i gynrychioli egni potensial ac egni cinetig yn gywir a'u cymhwyso i ddatrys problemau.

Diffygion

- Y mae ansawdd cyflwyniad gwaith yn ffeiliau'r myfyrwyr yn amrywiol.
- Y mae rhai myfyrwyr yn ei chael yn anodd i ddeall rhai o'r topigau a astudir.

Gwyddoniaeth

Y mae'r safonau cyflawni yn dda.

Nodweddion da

- Y mae'r myfyrwyr yn ymateb yn dda i gwestiynau treiddgar am wybodaeth a dealltwriaeth yn y tri phwnc.
- Cyflwynir esboniadau ac atebion ysgrifenedig yn dda ac amlygant ddealltwriaeth drwyadl o gysyniadau gwyddonol. Bydd y myfyrwyr yn cadw ffeiliau cynhwysfawr o waith ym mhob pwnc.
- Gallant drafod eu syniadau gan ddefnyddio termau gwyddonol yn gywir.
- Gallant gymhwyso eu gwybodaeth i ddatrys problemau.

Diffygion

- Yn gyffredinol, nid yw sgiliau ymchwiliol y myfyrwyr wedi eu datblygu'n ddigonol.

Dylunio a thechnoleg – Dylunio cynnyrch

Y mae'r safonau cyflawni yn dda.

Nodweddion da

- Y mae gan y myfyrwyr ddealltwriaeth dda o broses ac egwyddorion dylunio ac amlygant strategaethau datrys problemau da. Byddant yn ceisio ac yn datblygu problemau dylunio real ac y mae hynny'n arwain at ganlyniadau o ansawdd dda i brosiectau.
- Bydd y rhan fwyaf yn cynnal dadansoddiad cynnyrch da a gall y mwyaf galluog gynnig sylwadau yn hyderus ar ystod o brosesau ac esbonio eu lle yng nghynhyrchiad gweithgynhyrchion.
- Y mae safonau llythrennedd yn dda a bydd y rhan fwyaf o'r myfyrwyr yn defnyddio'r cyfrifiadur yn dda i ymchwilio ac weithiau i gyflwyno syniadau gan ddefnyddio pecynnau CAD soffistigedig.
- Y mae sgiliau gwneud y myfyrwyr yn dda iawn; a bydd y myfyrwyr yn gweithio'n gywir ac yn cynhyrchu cynnyrch sy'n unol â'r fanyleb ddylunio wreiddiol. Y mae defnydd da o gyfarpar CAM yn amlwg ym mheth o'r gwaith.

Diffygion

- Nid yw'r technegau cyfathrebu graffigol yn amlygu llawer o ddawn na dychymyg ond yng ngwaith y myfyrwyr mwy galluog. Yn y ffolios dylunio yn gyffredinol, nid oes digon o amrywiaeth yn sgiliau cyfathrebu a chyflwyno'r myfyrwyr.
- Nid yw sgiliau lluniadu dylunio creadigol cyflym y myfyrwyr wedi eu datblygu'n ddigonol. Ni fydd y myfyrwyr bob amser yn dangos dilyniant dyluniad drwy gyfres o frasluniau datblygol fel y gwneir gan y rhan fwyaf o ddylunwyr.

Cyfrifiaduro

Y mae'r safonau cyflawni yn dda iawn.

Nodweddion da

- Y mae gan y myfyrwyr sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth da o ystod eang o gymwysiadau meddalwedd cyfrifiadurol yn cynnwys *visual basic* a ddefnyddiant yn gymwys a hyderus iawn.
- Y mae'r portffolios prosiectau yn dangos cryn gryfderau yn y ffordd y bydd y myfyrwyr yn cynllunio ac yn datblygu meddalwedd eu datrysiadau dylunio i'w cleientau. Byddant yn ystyried datrysiadau amgen ac yn canolbwyntio ar y mwyaf effeithiol yn fedrus. Ceir realaeth ac ymdeimlad o bwrpas yn eu prosiectau gan eu bod yn ateb gofynion rheoli go iawn mewn amryfal sefyllfaoedd. Y mae'r cymwysiadau meddalwedd a gynhyrchir yn fanwl, yn drwyadl, wedi eu profi a'u haddasu i gwrdd ag anghenion y cleientau neu i gwrdd ag unrhyw ofyn a gwyd fel y datblygir y systemau.

- Y mae dogfennaeth y prosiect a'r defnyddiwr yn glir ac yn dda ei gyflwyniad. Bydd y myfyrwyr yn siarad gydag argyhoeddiad am eu datrysiadau dyluniadol gan ddefnyddio safon dda o iaith dechnegol sy'n adlewyrchu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth drwyadl o systemau cyfrifiadurol.
- Caiff y dyluniadau terfynol eu profi a'u gwerthuso'n dda i weld pa mor agos y mae'r cynnyrch gorffenedig yn cyfateb â'r gofynion gwreiddiol. Bydd y myfyrwyr yn adfyfyrio'n dda ar eu dyluniadau a chynigiant ychwanegiadau ac addasiadau posibl a ddichon wella'r systemau yn y dyfodol.

Diffygion

- Nid oes diffygion arwyddocaol yn y pwnc hwn.

Technoleg gwybodaeth (TAAU)

Y mae'r safonau cyflawni yn dda.

Nodweddion da

- Y mae safonau'r sgiliau ymarferol sylfaenol yn dda. Bydd y myfyrwyr yn defnyddio ystod o gymwysiadau yn effeithiol.
- Dangosant sgiliau da wrth gynhyrchu ystod o ddogfennau i gwrdd ag anghenion busnes o'u dewis.
- Bydd y mwyaf galluog yn cyflwyno gwaith yn dda gan ddefnyddio arddull gyson a fformatau safonol cydnabyddedig. Amlygant ddealltwriaeth dda o arddull ysgrifennu a chynhyrchant gyflwyniadau cydlynus, dyfeisgar a dychmygus a hawdd eu darllen.
- Bydd y rhan fwyaf yn dadansoddi eu dogfennau yn effeithiol gan ddangos y pwyntiau da a gwael, a phriodoldeb y gwaith i ddiben y ddogfen.
- Y mae'r gwaith ffolio o safon dda yn gyffredinol ac yn dangos safonau da o werthuso ac o ddynodi gwelliannau wrth gwblhau'r prosiect.

Diffygion

- Y mae'r mwy galluog wedi datblygu sgiliau annibynnol da, ond y mae gormod yn gor-ddibynnu ar gyfarwyddyd a chymorth yr athro.
- Gan mai profiad cyfyng o arferion diwydiannol sydd gan y myfyrwyr, y mae eu dadansoddiad ysgrifenedig o'r ffordd y defnyddir TGCh ym myd diwydiant yn wan.

Hanes

Y mae'r safonau cyflawni yn dda.

Nodweddion da

- Bydd y myfyrwyr yn cymryd rhan yn barod yn y trafodaethau dosbarth, ac amlygant sgiliau siarad a gwrando da.
- Y mae ganddynt sgiliau ymchwil da, a byddant yn casglu a threfnu deunydd hanesyddol o wahanol ffynonellau yn rhwydd.
- Gwnânt ddefnydd effeithiol o TGCh i ddatblygu eu sgiliau ymchwil.
- Gall y myfyrwyr werthuso tystiolaeth o ystod o ffynonellau.
- Y mae ganddynt afael dda ar gronoleg ac y maent yn gallu trafod cysyniadau parhad a newid yn fedrus.
- Y mae eu gwaith ysgrifenedig yn gywir ac yn dangos dealltwriaeth dda o'r topigau a astudir.

Diffygion

- Dengys gwaith ysgrifennu estynedig y myfyrwyr ymwybyddiaeth gyfyng o hanesyddiaeth.

Daearyddiaeth

Y mae'r safonau cyflawni yn dda iawn.

Nodweddion da

- Y mae ffeiliau y rhan fwyaf o'r myfyrwyr wedi eu trefnu'n systematig gyda nodiadau a diagramau destlus. Y mae eu gwaith map a'u gwaith graffigol o safon dda iawn.
- Y mae gan y myfyrwyr wybodaeth a dealltwriaeth dda iawn o ystod o leoliadau a gallant ddadansoddi a chofnodi materion cysylltiedig.
- Bydd llawer yn amlygu agwedd aeddfed tuag at y pwnc. Y maent yn fedrus gydag ystod cyfan o sgiliau daearyddol a meddant ar gryn wybodaeth a dealltwriaeth o faterion a berthyn i'r pwnc.
- Bydd y rhan fwyaf yn amlygu sgiliau ymchwilio ac archwilio da iawn a byddant yn defnyddio terminoleg ddaearyddol soffistigedig i gynhyrchu aseiniadau o'r ansawdd gorau.
- Y mae ganddynt ddealltwriaeth dda iawn o achosion ffisegol a dynol llygredd atmosfferaidd. Disgrifiant yn fanwl ganlyniadau'r cyfryw lygredd ac ymateb awdurdodau perthnasol wrth drin y broblem, gan gyfeirio at astudiaeth achos Los Angeles.
- Y mae'r gwaith maes a gwblhawyd gan y myfyrwyr ym Mae Caerdydd o ansawdd dda iawn.

Diffygion

- Nid oes diffygion arwyddocaol.

Ieithoedd tramor modern

Y mae'r safonau cyflawni yn dda.

Nodweddion da

- Y mae gan y myfyrwyr afael dda ar ramadeg yr iaith darged.
- Gwnânt gynnydd da wrth ddarllen testunau dilys a gwrando ar barabl dilys a gallant ailgylchu eitemau ieithyddol i wella eu llafaredd a'u gwaith ysgrifennu hwy eu hunain.
- Wrth astudio iaith a llenyddiaeth, y maent yn dod yn gynyddol ymwybodol o gyd-destun diwylliannol yr iaith.

Diffygion

- Ychydig o ddefnydd o'r iaith darged a wneir yn ddigymell.
- Y mae nifer sylweddol o'r myfyrwyr yn brin o hyder i gyfranogi yn y cyfnewidiadau llafar a thrafodaethau dosbarth hirach.

Cerddoriaeth

Y mae'r safonau cyflawni yn dda iawn.

Nodweddion da

- Y mae'r myfyrwyr yn berfformwyr medrus a phrofiadol a chyflawnant safonau da. Byddant yn perfformio gydag argyhoeddiad ac ymwybyddiaeth dda iawn o arddull.
- Y mae eu cyfansoddiadau yn adlewyrchu eu diddordebau personol o ran eu dewis o idiom. Amlygant driniaeth ddychmygus o syniadau a dealltwriaeth dda o harmoni, arddull a dewis o gyfrwng. Gwnânt ddefnydd effeithiol o TGCh i storio, mireinio a gwella ansawdd eu gwaith.
- Y mae traethodau ffolio myfyrwyr B12 a'r myfyrwyr sydd ar waith gosod a maes astudiaeth B13 yn cynnwys tystiolaeth o ymchwil bersonol a gwybodaeth a dealltwriaeth da o'r gerddoriaeth a astudir.
- Y mae'r sgiliau clywedol yn dda yn gyffredinol.

Diffygion

- Nid yw rhai cyfansoddiadau wedi'u mireinio'n ddigonol.

Addysg gorfforol

Anfoddhaol yw'r safonau cyflawni.

Nodweddion da

- Y mae gan y myfyrwyr mwy galluog ddealltwriaeth foddhaol o gysyniadau allweddol.
- Y mae'r mwyaf galluog yn ymateb yn gadarnhaol, a byddant yn ateb yn estynedig pan gânt anogaeth i wneud.

Diffygion

- Y mae nifer arwyddocaol yn methu â chymryd rhan yn y trafodaethau dosbarth ac yn pwyso'n drwm ar gyfraniadau eraill.
- Dealltwriaeth arwynebol yn unig o'r prif gysyniadau sydd gan fyfyrwyr o allu cymedrol ac is.
- Y mae gwaith anorffen mewn llawer o'r ffeiliau.
- Yn gyffredinol, nid yw'r myfyrwyr yn gwneud defnydd da o'r cyfrifiaduron i wella ansawdd eu gwaith.

Astudiaethau crefyddol

Y mae'r safonau cyflawni yn dda.

Nodweddion da

- Y mae'r myfyrwyr sy'n paratoi ar gyfer arholiad safon Uwch yn datblygu sgiliau astudio da. Ymchwiliant y topigau'n dda a gallant ddadlau yn aeddfed gan roi eu safbwyntiau eu hunain a safbwyntiau esbonwyr arbenigol yn effeithiol, ar lafar ac yn eu haseiniadau ysgrifenedig.
- Byddant yn paratoi gridiau astudio personol yn effeithiol ar faterion megis y ddeddf naturiol, etheg sefyllfaol a gwerthoedd Cristionogol, gan roi crynodebau clir o'r prif ddadleuon.
- Deallant a defnyddiant lawer o dechnegau sy'n ofynnol i baratoi traethawd estynedig o ansawdd dda, a gwnânt ddefnydd o ddyfyniadau priodol.
- Datblygant dechnegau arholiad effeithiol gan roi sylw arbennig i ddadansoddi, dehongli a gwerthuso.
- Gwnânt ddefnydd effeithiol o TGCh i gyflwyno eu gwaith ac wrth chwilio am wybodaeth o lyfrau cyfair, fideos perthnasol a phriodol, a CD-ROMs a gwefannau.

Diffygion

- Nid oes diffygion arwyddocaol.

Astudiaethau'r cyfryngau

Y mae'r safonau cyflawni yn dda iawn.

Nodweddion da

- Y mae ymatebion parod a gwybodus y myfyrwyr mewn trafodaeth yn adlewyrchu ymwybyddiaeth ddatblygedig o gymhlethdodau amryfal destunau'r cyfryngau.
- Mynegant eu hunain yn hyderus, ac adeiladant ar syniadau ei gilydd a gwnânt ddefnydd effeithiol o werthuso sy'n amlygu adfyfyrdod beirniadol a'r parodrwydd i feddwl am awgrymiadau ar gyfer gwelliant.
- Defnyddiant dermau'r cyfryngau yn berthnasol ac yn soffistigedig ac amlygant afael dda ar gymhlethdodau cynrychioliad testunol wrth gymharu testunau.

- Ymgymerant â dadansoddi testun ac aseiniadau gwaith cwrs cynhyrchu a chyn-gynhyrchu gan ddangos dyfnder priodol yn eu hymatebion.
- Y mae eu gwaith yn amlygu ymdeimlad o bwrpas, ymwybyddiaeth gadarn o gynulleidfa a sgiliau technegol soffistigedig.

Diffygion

- Nid oes diffygion arwyddocaol.

Electroneg

Cyflwynir electroneg drwy gyfrwng dysgu o bell yn B12 a B13. Y mae'r cyfleusterau cynadledda fideo ar gael drws nesaf i'r labordy electroneg. Goruchwylir y gwaith gan aelod o'r adran ddylunio a thechnoleg. Bydd tiwtor allanol o Langefni yn ymweld â'r ysgol i gyflwyno sesiynau tiwtoraidd ac y mae'r cwrs wedi profi'n llwyddiant gyda myfyrwyr ymroddgar. Nid oedd digon o dystiolaeth ar gael yn ystod wythnos yr arolygiad i ffurfio barn am y safonau.

Iechyd a gofal cymdeithasol (TAAU)

Y mae'r safonau cyflawni yn dda.

Nodweddion da

- Y mae'r myfyrwyr yn ennill dealltwriaeth dda o'r gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol a sefydlwyd yn yr ardal; byddant yn cysylltu â'r staff sy'n gweithio yn y gwahanol sefydliadau a byddant yn elwa'n fawr wrth dreulio cyfnodau byrion o waith ynddynt.
- Dysgant am y corff dynol a dadansoddant effeithiau diet, ysmygu ac ymarfer ar iechyd.
- Ffurfiant farn yn synhwyrol a gallant drafod manteision therapi amgen o'i gymharu â meddygaeth draddodiadol.
- Bydd y mwyafrif yn cymryd cyfrifoldeb am eu rhaglen ddysgu eu hunain ac yn ymgymryd yn barod ag ymchwilio, coladu a dadansoddi gwybodaeth berthnasol.

Diffygion

- Y mae absenoldebau yn cael effaith andwyol ar safonau cyflawni rhai o'r myfyrwyr.

Hamdden ac adloniant (TAAU)

Y mae'r safonau cyflawni yn dda.

Nodweddion da

- Y mae'r aseiniadau, y deunydd gwaith cwrs a'r tasgau archwilio oll yn cael eu trefnu'n dda a'u cyflwyno'n dda gyda'r defnydd a wneir o TGCh.
- Y mae'r myfyrwyr yn amlygu safon dda o ddealltwriaeth a gwybodaeth o'r diwydiant hamdden ac adloniant gan gynnwys materion megis iechyd a diogelwch, marchnata a gwasanaeth cwsmeriaid.
- Y mae'r rhan fwyaf o'r myfyrwyr yn dangos fod ganddynt afael dda ar strwythur casglu gwybodaeth brimaidd megis holiaduron, arolygon a gwefannau.
- Y mae gallu'r myfyrwyr i werthuso eu gwaith a chyflawni unrhyw addasiadau a fo'n ofynnol yn dda.
- Bydd y myfyrwyr yn gweithio gyda diddordeb a brwdfrydedd o fewn cwrs da ei strwythur.

Diffygion

- Y mae gwaith y myfyrwyr yn brin o wreiddioldeb ac o arddull ysgrifennu annibynnol.

Gofal plant (Safon mynediad)

Y mae'r safonau cyflawni yn dda.

Nodweddion da

- Y mae gan y myfyrwyr ddealltwriaeth briodol o bwysigrwydd diet iach a gwerth ffrwythau a llysiau mewn diet.
- Y maent yn deall anghenion y fam feichiog, a'i hanghenion yn ystod y geni ac fel y bydd y baban ar ei dyfiant.
- Gallant ddynodi peryglon posibl yn y cartref ac y maent yn ymwybodol o'r angen i ddarparu amgylchedd diogel ar gyfer plant bach iawn.
- Byddant yn ymarfer sgiliau sylfaenol coginio yn effeithiol.

Diffygion

- Nid oes diffygion arwyddocaol.

Argymhellion

1. Gwella'r safonau yn addysg gorfforol.
2. Gwella cyfraddau presenoldeb y myfyrwyr.
3. Sicrhau bod pob myfyriwr wedi'i gofrestru'n bresennol pan fydd ar safle'r ysgol, yn enwedig myfyrwyr B13 yn ystod y flwyddyn academaidd gyfredol.
4. Sicrhau bod y ddarpariaeth ar gyfer addysg grefyddol yn y chweched dosbarth yn cwrdd â'r gofynion statudol.

Atodiad

Gwybodaeth sylfaenol

Enw'r ysgol	Ysgol Gyfun Aberaeron
Math ar ysgol	Cymunedol
Ystod oed y disgyblion	11 – 18
Cyfeiriad yr ysgol	Stryd y Fro Aberaeron Ceredigion
Côd Post	SA46 0DT
Rhif Teleffon	01545 570217

Pennaeth	Miss J Marina James
Dyddiad penodiad	Tachwedd 1995
Cadeirydd y llywodraethwyr	Dr Julian Evans
Arolygydd cofrestredig	Mr D Gwynfor Evans
Dyddiad yr arolygiad	26–29 April 2004

B. Canlyniadau arholiadau cyhoeddus

Myfyrwyr 17 oed, canlyniadau TGA safon Uwch, CGCC a CGC.			
Nifer o fyfyrwyr yn sefyll 2 neu fwy o arholiadau TGA safon Uwch neu gyfwerth yn 2003: 58			
Nifer o fyfyrwyr yn sefyll 2 neu lai o arholiadau TGA safon Uwch neu gyfwerth yn 2003: 10			
	Ysgol	**AU**	**Cymru**
Canran o ymgeiswyr a gafodd 2 radd A-C neu fwy	83	77	68
Canran o ymgeiswyr a gafodd 2 radd A-E neu fwy	100	97	94
Sgôr pwyntiau cyfartalog y pen	22	21	20
Nifer o fyfyrwyr a gyflawnodd CGCC Canolradd neu CGC ar lefel 2	0		
Nifer o fyfyrwyr a gyflawnodd CGCC Uwch neu CGC ar lefel 3	6		

C. SYLFAEN TYSTIOLAETH YR AROLYGIAD

- Arsylwyd ar 36 o ddosbarthiadau, yn cwmpasu'r holl feysydd cwricwlaidd a arolygwyd.
- Cynhaliodd yr arolygwyr drafodaethau gyda phenaethiaid B12 a B13, gydag aelodau'r UDRh a chyda phenaethiaid adrannau.
- Archwiliwyd gwaith yn yr holl bynciau a arolygwyd.
- Cyfarfu arolygwr y chweched dosbarth o'r tîm arolygu â grŵp o fyfyrwyr B12 a B13 yn ffurfiol.
- Archwiliodd yr arolygwyr ddogfennaeth yn ymwneud â'r chweched dosbarth cyn ac yn ystod yr arolygiad.
- Cynhaliwyd cyfarfodydd ôl-arolygiad gyda'r adrannau, yr UDRh a'r corff llywodraethol.